

# Y MANIFFESTO COMIWNYDDOL

FRIEDRICH ENGELS  
KARL MARX



Coleg  
Cymraeg  
Cenedlaethol

CYFRES DDIGIDOL

# CYNNWYS

CLAWR

TUDALEN DEITL

HAWLFRAINT

RHAGYMADRODD HOWARD WILLIAMS

RHAGYMADRODD ROBERT GRIFFITHS

RHAGAIR IDRIS COX

NODIAD

RHAGYMADRODD W. J. REES

MANIFFESTO

I. BWRGEISIAID A PHROLETARIAID

II. Y PROLETARIAID A'R COMIWNYDDION

III. LLENYDDIAETH SOSIALAIDD A CHOMIWNYDDOL

IV. SAFLE'R COMIWNYDDION YMHLITH Y GWRTHBLEIDIAU ERAILL

NODIADAU

TERMAU ALLWEDDOL

# **Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol**

## **Karl Marx a Friedrich Engels**

**Cyfieithiad Cymraeg: W. J. Rees**

**Pwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol**



**E-argraffiad 2014**

Cyhoeddwyd yr e-lyfr hwn gyntaf yn 2014 gan  
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3WQ  
www.colegcymraeg.ac.uk



Cyfres Ddigidol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif Llyfr Rhyngwladol: 978-1-909656-75-8

Ⓜ © Cyfieithiad Cymraeg: W. J. Rees

Ⓜ © Golygiad o'r Maniffesto: Gareth Miles a Gwyn Griffiths

Ⓜ © Rhagair: Howard Williams

Ⓜ © Rhagymadrodd: Robert Griffiths

Mae hawlfraint ar gynnwys yr e-lyfr hwn ac mae'n anghyfreithlon atgynhyrchu unrhyw ran ohono heb gytundeb ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Cyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol yn 1948 gan Bwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol. Dymuna'r cyhoeddwr gydnabod cymorth Pwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol i gynhyrchu'r e-lyfr hwn.



Cynhyrchwyd yr e-lyfr hwn gan Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor

*Nodir tudaleniad y llyfr print gwreiddiol rhwng bachau e.e. {Diwedd 7}*

# Rhagair i Gyhoeddiad Digidol 2013

## gan Howard Williams

'Wie die Philosophie im Proletariat ihre *materiellen*, so findet das Proletariat in der Philosophie seine *geistigen Waffen*' (*MEW*, 1, t. 391).

'Megis y cenfydd athroniaeth ei harfau *diriaethol* yn y proletariad, felly y cenfydd y proletariad ei arfau *deallusol* mewn athroniaeth.'[\[1\]](#)

Wrth ddarllen *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*,[\[2\]](#) rhaid ystyried y gosodiad uchod gan Marx, a ysgrifennodd yn ei draethawd, '*Zur Kritik der Hegelschen Rechtsphilosophie*' (*Critique of Hegel's Philosophy of Right*), ac a ymddangosodd yn y *Deutsch-Französische Jahrbücher* (1844).[\[3\]](#) Un o weithiau cynnar Marx oedd y traethawd hwn lle y ceisia ddarganfod ei ffordd drwy ei fywyd a'i yrfa ddeallusol. Tra cawsai athroniaeth, yn ei farn ef, ei ysbrydoli gan y mudiad dosbarth gweithiol, y gobaith oedd y cawsai'r proletariad ei ysbrydoli gan athroniaeth. Felly, nid maniffesto gwleidyddol cyffredin mo'r gwaith hwn. Y mae'n tarddu nid yn unig o waith ymarferol Marx ac Engels o fewn y mudiad dosbarth gweithiol, a dyfai'n amlwg ym Mhrydain a'r cyfandir ar y pryd, ond tardda hefyd o astudiaeth eang Karl Marx a Friedrich Engels o dueddiadau deallusol a blaenllaw eu hoes.

Yr oedd Marx yn athronydd wrth reddf. Denwyd ef at yr astudiaeth o athroniaeth gan ddylanwad dwfn Georg Friedrich Hegel ar syniadau'r oes ynghyd â chan ddatblygiad athroniaeth ym mhrifysgolion yr Almaen. Fel athronydd, yr oedd Hegel yn idealydd (neu ddelfrydwr). Credai yn y bôn fod yr ysbryd yn gryfach na'r cnawd, ac yn y pen draw – yn ôl Hegel – gellid priodoli pob profiad diriaethol i syniadau neu ysbryd. Nid idealydd yn yr ystyr syml oedd Hegel, lle credid y gellid dangos yn ffeithiol fod pob gwrthrych a ddaw i'n synhwyrâu'n codi'n llwyr o'n deallusrwydd; yr oedd, yn hytrach, yn idealydd tra soffistigedig a briodolai bob profiad i ymddangosiad yr ysbryd, neu yn ei air Almaeneg ef,

'*Geist*'. Ceisia Hegel brofi ei thesis yn bennaf yn y campweithiau *Phaenomenologie des Geistes* (*Phenomenology of Mind*) (1807)[\[4\]](#) a'r *Wissenschaft der Logik* (*Science of Logic*) (1812 a 1816)[\[5\]](#) sydd yn rhagarweiniadau dyrys i ddaliadau ei athroniaeth idealaidd. Roedd athroniaeth Hegel yn dra chynhwysfawr, gwreiddiol a chwyldroadol; dangosai yn blaen i'w efrydwyr rym syniadau. Hudwyd Marx fel llawer myfyriwr ifanc gan y gyfundrefn Hegelianaidd, ond o dipyn i beth, daeth -- fel sawl disgybl arall i Hegel – i amau rhai o brif osodiadau idealaeth y meistr. Ciliodd oddi wrth athroniaeth idealaidd Hegel yn arbennig dan ddylanwad athroniaeth Ludwig Feuerbach. Daeth Feuerbach yn arbennig o enwog am ei feirniadaeth ddyneiddiol o'r grefydd Gristionogol, yn enwedig yn y llyfr dylanwadol *Das Wesen des Christentums* (*The Essence of Christianity*).[\[6\]](#) Pwynt pwysig i'w nodi yw i Feuerbach ddod yn feirniadol o Gristnogaeth yn gyntaf drwy ei feirniadaeth o athroniaeth Hegel. Dan ddylanwad Feuerbach, tueddai athroniaeth Marx at fod yn wrthidealaid, ac am gyfnod, bu Marx yn ddilynwr brwd o ddyneiddiaeth a materoliaeth anthropolegol Feuerbach. Wrth i syniadau Marx aeddfedu a'i feirniadaeth ar gyfalafiaeth ddyfnhau, datblygodd ei fateroliaeth ddialectegol ei hun, a oedd yn drwm dan ddylanwad dau begwn athronyddol Hegel a Feuerbach.

O ran dealltwriaeth o'r mudiad dosbarth gweithiol a'i amgylchiadau, yr oedd Friedrich Engels dipyn o flaen Marx yn ei ddatblygiad gwleidyddol ar adeg llunio'r Maniffesto. Roedd hyn oherwydd iddo baratoi ei lyfr enwog, *Die Lage der arbeitenden Klasse in England* (*The Condition of the Working Class in England*)[\[7\]](#) ar sail ei alltudiaeth ym Manceinion, lle roedd gan ei dad ffatri lle y'i cyflogwyd.

Er gwaethaf gwybodaeth drylwyr Engels o ffeithiau datblygiad cyfalafiaeth a'i ddylanwad ar y dosbarth gweithiol, mae'n siŵr mai'r dylanwad mwyaf allweddol ar neges y Maniffesto oedd Marx ei hun. Fel y dywed Engels yn ei ragair i'r argraffiad Almaeneg ar ôl marwolaeth Marx ym 1883, y mae'r dehongliad o hanes a ymddengys yn y Maniffesto yn perthyn yn bennaf i Marx (*Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, tt. 13-14).

Diddorol yw nodi y ceir, at ei gilydd, saith rhagair i'r Maniffesto, naill ai gan Marx ac Engels ar y cyd, neu gan Engels yn unig ar ôl marwolaeth Marx. Y mae'r rhageiriau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyhoeddi'r ddogfen ym myd gwleidyddol a llenyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfieithwyd y Maniffesto i sawl iaith Ewropeaidd arall yn ystod bywyd y ddau, gan gynnwys cyfieithiad Saesneg Helen Macfarlane ym 1850 a ymddangosodd yng nghyfnodolyn a sefydlwyd yn Llundain yn yr un flwyddyn gan George Julian Harney, *The Red Republican*[8] (*MEW*, 21, t. 352). Cyfieithwyd y ddogfen am yr eilwaith i'r Saesneg gan Samuel Moore dan ofalaeth Friedrich Engels, ac fe'i cyhoeddwyd ym 1888. Gyda'r cyhoeddiad hwn, ymddangosodd y pedwerydd rhagair. Yn wir, yr oedd nifer helaeth y rhageiriau a ysgrifennwyd yn ddyledus i'r gyfres hir o gyfieithiadau a baratowyd. Ym 1892, paratowyd rhagair ychwanegol yn cyflwyno'r cyfieithiad i'r iaith Bwyleg, ac eto ym 1893 gyda'r cyfieithiad i'r Eidaleg. At hynny, ceir rhagair a luniwyd gan Marx ac Engels ar gyfer argraffiad newydd o'r Maniffesto yn yr Almaeneg ym 1872, a dau arall gan Engels ar gyfer argraffiadau Almaeneg newydd ym 1883 a 1890. Yng nghasgliad cyflawn gweithiau Marx ac Engels, y *Marx Engels Werke*, ceir ond pump o'r rhageiriau hyn (gyda'r Maniffesto ei hun yng nghyflwr pedwar), gan hepgor rhageiriau 1883 a rhagair 1882 (sydd i'w gweld wrth gwrs mewn cyfrolau diweddarach o dipyn yn y *Werke*) i'r cyfieithiad Rwsieg, yn debygol oherwydd i sylwedd y rhageiriau hyn gael ei fynegi eisoes mewn rhageiriau blaenorol. Yn anffodus, ni chyhoeddwyd un o'r rhageiriau yn y cyfieithiad Cymraeg, er gwaethaf y ffaith y ceir ynddynt wybodaeth ddiddorol am ddatblygiad y mudiad comiwnyddol a dylanwad y Maniffesto.

Er na chynhwysodd W. J. Rees y rhageiriau hyn yn ei gyfieithiad ym 1948, ceir, er hynny, gyflwyniad sylweddol i'r Maniffesto ganddo ef ei hun. Y mae'n cynnwys amlinelliad o fywyd Marx, hanes ei gysylltiad agos gyda Friedrich Engels, ychydig am fywyd tlawd Marx yn Llundain tra oedd yn ysgrifennu ei gampwaith *Das Kapital: Kritik der politischen Oekonomie (Capital: A Critique of Political Economy)*,[9] ynghyd â rhai sylwadau diddorol am ddehongliad materol Marx o hanes, gan bwysleisio llwyddiant yr athrawiaeth Farcsaidd yn yr Undeb Sofietaidd. Y mae'n weddol amlwg i'r rhagair hwn gael ei lunio o fewn fframwaith gyfoes Marcisiaeth a'r mudiad comiwnyddol ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf. I goroni'r argraffiad hwn, ceir hefyd ragair byr gan Idris Cox – arweinydd y Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru ar y pryd – sy'n cyfarch W. J. Rees fel ysgolhaig galluog a oedd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Bryste ar yr adeg honno. Elfen arall sy'n nodweddu rhagair W. J. Rees yw ei drafodaeth lawn ar y cysylltiad rhwng yr athrawiaeth gomiwnyddol a chenedlaetholdeb (ceir trafodaeth lawn ar hyn hefyd yn rhagair Robert Griffiths o ail olygiad y cyfieithiad, 2008). Yn ei drafodaeth ar genedlaetholdeb yng nghyd-destun Marcisiaeth, mae W. J. Rees yn driw i ddehongliad Joseph Stalin yn ei bamffled ar genedlaetholdeb, imperialaeth a threfedigaethau. Yn ei sylwadau ar y dehongliad Marcsaidd o hanes, tuedd Rees yw gweld yr athrawiaeth fel dysgeidiaeth wyddonol, yn ymdebygu yn ei strwythur i fethodoleg y gwyddorau naturiol wrth bwysleisio pwysigrwydd tystiolaeth ffeithiol, ynghyd ag wrth geisio amlinellu deddfau datblygiad hanes. Rhaid canmol Rees am beidio â gorbwysleisio tebygrwydd yr athrawiaeth i wyddoniaeth naturiol gan iddo gydnabod nad yw deddfau hanes Marx yn dylanwadu ar y gymdeithas yn yr un modd â deddfau'r wyddoniaeth honno. Yn ei ddarlun o effaith y deddfau datblygiad hyn, pwysleisia Rees hefyd ddylanwad gweithredu dyn a'i ewyllys ar sylwedd a chyflymder y datblygiad. Yn ei ragair, amlygir ei werthfawrogiad o ddifrifoldeb gwaith ymchwil a chyfansoddi Marx, ynghyd â'i werthfawrogiad ohono fel athrylith yn y meysydd dyniaethol a chymdeithasol, a baratôdd y ffordd i lwyddiant y Bolshefficiaid yn Rwsia.

Ond beth felly oedd natur yr athroniaeth honno – athroniaeth sy'n ffrwyth ymchwil sylweddol – a sut y daeth Marx i'w brif gasgliadau? Er mwyn deall natur yr athroniaeth, rhaid olrhain datblygiad meddyliol Marx o'i gyfnod fel myfyriwr ifanc ym Mhrifysgolion Bonn a Berlin.

Y dylanwad pennaf ar ffordd Marx o feddwl, fel y noda W. J. Rees, oedd yr athroniaeth Hegelianaid. Ysgubodd yr athroniaeth hon ar hyd tirlun deallusol yr Almaen yn nauddegau a thridegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn enwedig ar hyd fudiad beirniadol yr Hegelianwyr ifainc yr oedd Marx ei hun yn rhan ohono yn ystod y tridegau a'r pedwardegau cynnar. Athroniaeth Hegel o hanes oedd bod pob peth sy'n digwydd yn ffrwyth esblygiad meddwl neu ysbryd ('*Geist*'). Yr oedd gan Hegel, yn fras, eglurhad o ysbryd yn nhermau datblygiad meddwl neu ymwybyddiaeth dyn ar hyd hanes y ddynoliaeth. Yn ôl Hegel, wrth i hanes fynd yn ei flaen â profiad a diwylliant dyn yn fwy cymhleth a soffistigedig, ac â bywyd dyn yn fwy cyfoethog a chyfartal wrth i amser fynd rhagddo. Canolbwyntiai'r eglurhad ysbrydol hwnnw ar dwf rhyddid dyn oddi wrth awdurdodaeth bur y cymdeithasau cynnar lle mai un person o'r boblogaeth gyfan oedd yn rhydd, at sefyllfa lle'r oedd pawb yn rhydd yn y gymdeithas ddinesig Ewropeaidd gyfoes. O dan y gyfundrefn Roegaidd pan lewyrchai dinasoedd fel Athen a Sparta, mynnai Hegel mai *ychydig* o ddynion yn unig oedd yn rhydd, ac mai *rhai* yn unig oedd yn rhydd o dan y gyfundrefn Rufeinig. I Hegel, y Diwygiad Protestannaidd a esgorodd ar y posibiliad y gallai pawb fod yn rhydd. Daeth y rhyddid hwn yn amlwg drwy'r pwyslais ar gydwbod yr unigolyn a hawl yr unigolyn i wneud ei benderfyniad ei hun mewn perthynas â chrêd yn hytrach na dibynnu ar ffydd a ymgorfforir yn yr eglwys a'i offeiriaid. Argyhoeddiad personol yn hytrach na ffydd yn neges y Beibl a'r offeiriaid eglwysig oedd prif faen prawf Protestaniaeth.[\[10\]](#) Yr oedd hon yn sylfaen addas i ryddid modern. Yr oedd gan Hegel hefyd feddwl mawr o gymdeithas ddinesig Lloegr ynghyd â'r gyfundrefn o reolaeth o dan y frenhiniaeth gyfansoddiadol a geid yno. Wrth gwrs, nid oedd Marx yn cytuno â chlodfori'r frenhiniaeth yn y fath fodd hyd yn oed os y perthynai iddi elfen o ddemocratiaeth. (Yn ystod ei fis mêl ym Mad Kreuznach, 1843, cyfansoddodd Marx feirniadaeth hir ar athroniaeth iawnder Hegel – *Zur Kritik der hegelischen Philosophie des Rechts*, *MEW*, 4, tt. 203-333 – na welodd olau dydd tan ymhell ar ôl ei farwolaeth.) Trwy ei feirniadaeth o Hegel, aeth Marx i gyfeiriad cwbl wahanol gan ddarganfod yr hyn a oedd, yn ei dyb ef, yn ffaeledau mawr yng nghymdeithas fwrgeisiol Lloegr: y tlodi, yr anghyfartaledd, ynghyd â'r gwastraff bywyd a welid yno yn wyneb cyfoeth enbyd y lleiafrif.

## Athroniaeth Marx

'Y mae'r feirniadaeth o grefydd yn gorffen gyda'r ddysgeidiaeth mai dyn yw'r bod pwysicaf i ddyn, felly gyda'r gorchymyn categoraidd i ddymchwel yr holl amgylchiadau lle y mae dyn yn fod diraddedig, caeth, afradlon, dirmygedig.' (*MEW*, 1, t. 585.)

Wrth ddarllen y Maniffesto, dylid gochel rhag ei ddarllen fel rhaglen wleidyddol, er yr ymddengys hyn yn groes i'r graen. Awgryma'r teitl ei hun, wrth gwrs, mai datganiad gwleidyddol ydyw – ac y mae hynny'n rhan o'r stori hefyd – ond datganiad o athroniaeth Marx yw'r Maniffesto yn bennaf. Ni ellir amgyffred cynnwys y Maniffesto'n llwyr heb werthfawrogi ymdrech Marx i gyfleu moeseg wleidyddol newydd. Ei amcan oedd athronyddu mewn ffordd gwbl ymarferol, gan weithio tuag at lunio byd a adlewyrchai athroniaeth, sef byd a seiliwyd ar y gwir a'r cyfiawn, yn hytrach na bodloni ar fyd a seiliwyd – yn ôl bob golwg – ar ffawd a mympwy. Yn hyn o beth, teimlai Marx ei fod yn dra gwahanol i'r traddodiad idealaidd Almaenaidd. Yn ei farn ef, yr oedd Kant a Hegel yn athronyddu mewn ffordd gwbl anymarferol. Nid amlygid yn eu gwaith yr ymdrech honno i newid y byd; canolbwyntiai'r ddau ar ddysgu ffyrdd newydd o feddwl yn hytrach na ffyrdd newydd o fyw. Serch hynny, nid oedd Marx yn hollol gywir wrth ddweud hyn. Y mae'n wir fod Hegel yn canolbwyntio'n bennaf ar ddod i delerau â'r byd fel ag yr oedd, ond yn rhannol nid yw'r un feirniadaeth a anelir gan Marx at Kant yn taro deuddeg. Roedd Kant hefyd yn rhoi pwysau ar yr

ymarferol, a thrwy hynny, yn dod â rheswm i'r byd. Yn wir, ceisiodd Kant ddyrchafu rheswm ymarferol dros reswm damcaniaethol pur. Pwysleisiodd Kant weithredu moesol fel modd o brofi rhyddid. Ymddengys, serch hynny, fod dadleuon Kant dros newid arferion a sefydliadau cymdeithas yn rhy gymhleth ac anuniongyrchol i ddenu sylw a chydymdeimlad Marx. Yr oedd Marx yn gefnogol i weithredu uniongyrchol hanesyddol y dosbarth gweithiol, ac fe'i hystyriai'n gyfrwng chwyldro. Yr oedd y dosbarth gweithiol, yn ei farn ef, yn fudiad diriaethol a oedd â'r gallu i roi cnauld ar brif obeithion athroniaeth. Yr oedd Marx, yn ei hanfod, yn athronydd optimistaidd, a chredai nid yn unig y gellid gobeithio am fyd gwell ond hefyd y gellid gwireddu'r amcan hwnnw.

Nid rhaglen mudiad gwleidyddol byrhoedlog felly yw'r Maniffesto, na modd ychwaith o ddangos y ffordd am ychydig flynyddoedd i'r mudiad comiwnyddol yn y tymor byr. Y mae'n rhaglen ar gyfer y ddynoliaeth yn gyffredinol sy'n anelu at oleuo'r ffordd am ganrifoedd. Seilir y Maniffesto ar ddehongliad athronyddol Marx ac Engels o hanes, sef dehongliad a ddatblygodd mewn ymateb i syniadaeth Hegel o hanes. Yn unol ag athroniaeth Hegel, canolbwyntia'r Maniffesto ar ryddid dyn, o fewn fframwaith byd-eang yn hytrach nag o fewn fframwaith cenedlaethol a gwladol. Y mae'n athroniaeth o hanes sydd, o'i gymharu â fframwaith athronyddol Hegel, yn llawer mwy diriaethol. Daeth Marx ac Engels i ymfalchïo yn y disgrifiad ohono fel athroniaeth faterol o hanes. Er na welir yr athroniaeth faterol honno yn ei chyfanrwydd yn y Maniffesto (gwelir yr athroniaeth gyflawn yng ngwaith Marx ar gyfalaf, er enghraifft), mae'r sylfeini'n amlwg. Er enghraifft, y mae Marx ac Engels ar gychwyn y Maniffesto yn priodoli llwyddiant y dosbarth canol, bwrgeisiol, yn y gymdeithas fodern i ddatblygiad yr economi:

Gwelwn felly sut y mae'r bwrgeisiaid modern eu hunain yn gynnyrch cwrs o ddatblygiad, yn gynnyrch rhes o gyfnewidiadau mewn dulliau cynhyrchu a chyfnewid (*Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 12).

Er eu bod yn unigolion sy'n ymddangos yn ganolog yn natblygiad y gymdeithas gyfalafol, mae'r unigolion blaenllaw yma (e.e. Brunel, y Crawshays, Telford ac ati) yn ffrwyth datblygiad mwy sylfaenol o'r moddion cynhyrchu (yr offer a'r peiriannau a ddefnyddir yn y broses o gynhyrchu ynghyd â'r modd y dosberthir y cyfoeth sy'n deillio ohonynt).

Yn ôl Marx ac Engels, nid yw'r gymdeithas gyfalafol yn unigryw yn y ffordd y mae'n esgor ar wahanol ddisbarthiadau cymdeithasol sy'n cystadlu'n ffyrnig yn erbyn ei gilydd. Yn eu barn hwy, fe ddigwyddodd hyn ar hyd hanes. Y mae'r lleiafrif eisoes wedi rheoli'r ffordd y mae'r gymdeithas yn cynhyrchu er ei lles ei hun; 'hanes pob cymdeithas hyd yn hyn ydyw hanes brwydrau dosbarth' (*Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 11).

Yn lle'r hen gymdeithas fwrgeisiol gyda'i dosbarthiadau a'i gwrthddywediadau dosbarthiadol, gobaiht Marx ac Engels yw gweld ffurfio cymdeithas lle y mae twf cyflawn a rhydd pob unigolyn yn amod i dwf cyflawn a rhydd pawb. Eu bwriad, felly, yw rhyddhau pawb trwy ddymchwel, am y tro cyntaf erioed, rym dosbarthiadol yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n amcan ganddynt i ddymchwel grym gwleidyddol a chymdeithasol y cyfalafwyr er mwyn eu bychanu a'u diraddio. Y bwriad, yn hytrach, yw rhoi cymorth i ddynoliaeth yn gyffredinol i ffynnu.

Gan mai gwaith athronyddol ymarferol yw'r Maniffesto yn gyntaf oll, camgymeriad fyddai ystyried y Maniffesto'n bennaf yng nghyd-destun datblygiad y mudiad comiwnyddol yn unig. Ar yr wyneb, y canlyniad hanesyddol pwysicaf i'r Maniffesto yw datblygiad y mudiad gwleidyddol a ysbrydolwyd yn fawr ganddo. Wrth gwrs, yr oedd y mudiad hwnnw'n dra llwyddiannus ar hyd yr ugeinfed ganrif, yn enwedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ystyrier yn arbennig y rhan allweddol y chwaraeodd yr Undeb Sofietaidd yn niddymu'r gyfundrefn Natsiaidd. Fel y dywed Robert Griffiths yn ei ragair gwerthfawr i ail argraffiad cyfieithiad Cymraeg y Maniffesto yn 2008, mae'n bur debyg '[...]i'r Fyddin Goch achub pobloedd Ewrop rhag ffasaeth gyfalafol' (t. 8). Roedd y mudiad



comiwnyddol mewn grym ar ôl y gyflafan ac yn gryf nid yn unig yn nwyrain Ewrop, ond hefyd yn y mwyafrif o wledydd eraill Ewrop.

Yn Ffrainc a'r Eidal, y pleidiau comiwnyddol oedd ymhlith y mwyaf o ran nifer eu haelodau a'u dylanwad. Serch hynny, wrth gwrs, daeth y grym a'r poblogrwydd hwn i ben yn sydyn iawn ar ddiwedd y ganrif pan ddymchwelwyd y gyfundrefn gomiwnyddol yn yr Undeb Sofietaidd. Ymddengys ar y pryd i brif selogion comiwnyddiaeth eu hunain weld nad oedd yr athrawiaeth yn ddilys rhagor ac yr oedd yn rhaid derbyn goruchafiaeth cyfalafiaeth a'r gyfundrefn wleidyddol ryddfrydol. Ysywaeth, nid yw dilysrwydd dogfen Marx ac Engels yn dibynnu'n llwyr ar weithredoedd eu dilynwyr bondigrybwyll. Er enghraifft, ni fernir cynnwys Testament Newydd y Beibl yn llwyr yn ôl hanes yr holl eglwysi a'r sectau a ysbrydolwyd ganddo; fe'i gwerthfawrogir gan y darllynydd deallus yn hytrach fel testun sy'n annibynnol oddi wrth hanes yr eglwysi. Dylid darllen y Maniffesto yn yr un ffordd annibynnol. Yn y bôn, gofynna'r Maniffesto i'w gynulleidfa ddeall ei hamgylchiadau ei hun – i ddeall y gyfundrefn gymdeithasol ac economaidd mewn ffordd feirniadol. Y mae'n gofyn i'w gynulleidfa amgyffred y gymdeithas mewn dull sy'n groes i'r darlun y mae'r rhai sy'n ei rheoli ac yn elwa ohoni yn ceisio'i greu.

Awgrymir yn y Maniffesto ei hun nad yw ei awduron yn cysylltu hanes eu syniadau a thwf comiwnyddiaeth â hanes unrhyw blaid na mudiad arbennig. Yn wir, fel hyn y mae Marx ac Engels yn disgrifio'r cysylltiad rhwng comiwnyddiaeth a phleidiau gwleidyddol a gynrychiolai'r dosbarth gweithiol:

- nid ydynt yn ceisio sefydlu plaid arbennig ar wahân i bleidiau eraill y dosbarth;
- nid oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n wahanol i fuddiannau'r dosbarth gweithiol cyfan;
- nid ydynt yn sefydlu egwyddorion sectaraidd eu hunain.

Eu bwriad, yn hytrach, yw cysylltu'r mudiadau dosbarth gweithiol yn rhyngwladol a cheisio cynrychioli buddiannau'r mudiad dosbarth gweithiol byd-eang (*MEW*, 61, t. 475; *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 20).

Ceir problem ddyrys yma; sut y dylid dehongli'r lle arbennig a ddynoda Marx ac Engels i'r comiwnyddion o fewn y mudiad dosbarth gweithiol? Dangosodd Lenin un ffordd o ddehongli eu syniadau yn ei bamffled 'Что дѣлать?' (*What is to be done?*).<sup>[11]</sup> Ei fwriad yn y pamffled hwn oedd dangos y ffordd i fudiad ifanc y dosbarth gweithiol yn Rwsia ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Seiliwyd y pamffled ar areithiau Lenin i'r blaid sosialaidd yn Rwsia. Barn Lenin oedd y dylai'r blaid weithredu fel blaengad y dosbarth gweithiol a dangos y ffordd ymlaen iddo, a disgwyliai Lenin felly deyrngarwch llwyr oddi wrth aelodau'r blaid. Teimlai y dylai'r aelodau gysegru eu bodolaeth i ffyniant y mudiad dosbarth gweithiol o dan arweinyddiaeth y blaid. Un dehongliad posibl, serch hynny, yw safbwynt Marx ac Engels ynghylch rôl y comiwnyddion. Pwysleisia Marx ac Engels ddeallusrwydd a threiddgarwch dadansoddiad y comiwnyddion o sefyllfa'r mudiad ar y pryd. Hefyd, mae'n amlwg na roddant bwyslais enfawr ar aelodaeth y comiwnyddion o'r pleidiau sosialaidd sy'n bodoli. Yn wir, yr argraff a geir yn y Maniffesto yw mai swyddogaeth comiwnyddion yw edrych y tu hwnt i orwelion unrhyw blaid arbennig. Nid oes sôn felly yn athrawiaeth Marx am blaid sydd yn flaengad yng ngeiriau Lenin. Crybwyllir yn hytrach y swyddogaeth flaengar y gallai unigolion a rhai unigolion mewn grwpiau ei chwarae. Y mae Marx ac Engels yr un mor uchelgeisiol ynglŷn â swyddogaeth y comiwnyddion ond y mae eu huchelgais hwy'n mynd i gyfeiriad arall; canolbwyntia'r Maniffesto ar wybodaeth a gweledigaeth ehangach y comiwnyddion yn hytrach nag ar eu gwaith idealaidd ac arweiniol o fewn un blaid ddethol.

Yn ôl y darlun a roddir gan Marx ac Engels, deallusion yw'r comiwnyddion yn bennaf sy'n llawn

ddirnad y sefyllfa hanesyddol:

O safbwynt ymarferol, felly, y comiwnyddion yw'r adran fwyaf penderfynol, a'r fwyaf blaengar o bleidiau'r gweithwyr ym mhob gwlad: ac o safbwynt damcaniaeth, y mae ganddynt fantais dros y rhan helaeth o'r proletariat am eu bod yn deall amodau'r mudiad proletaraidd, llinell i'w ddatblygiad, a'i ganlyniadau cyffredinol (*MEW*, 4, t. 475 / *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 20).

Wrth gwrs, mae dehongliad Marx ac Engels o swyddogaeth y comiwnyddion yr un mor hy â dehongliad Lenin o'r blaid fel blaengad y dosbarth, ond personau unigol oddi mewn i bleidiau sydd i wireddu eu cysyniad, nid corfforaeth neu uned weithredol.

Y mae Marx ac Engels yn crynhoi eu hathrawiaeth yn y frawddeg: 'gwneud i ffwrdd ag eiddo preifat' (*MEW*, 4, t. 475 / *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 20). Nid yw hyn yn eu barn hwy yn dileu eiddo'n gyffredinol ond yn hytrach yn dileu eiddo'r dosbarth cyfalafol. Fel y dywedant, 'y bwriad yw i wneud i ffwrdd ag eiddo bwrgeisiol (preifat)' (*MEW*, 4, t. 475 / *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 20).

Y mae cyfalaf yn rym cymdeithasol; nid yw'n rym personol. Ymddengys cyfoeth o dan y gyfundrefn gyfalafol fel ffrwyth dygnwch, dyfalbarhad a gallu'r cyfalafwr unigol i fuddsoddi a datblygu busnes. Gan mai'r perchnogion a greodd y busnes, hwy felly sy'n haeddu'r elw a ddaw o'u gweledigaeth a'u hymrwymiad. Mae'r farn hon, serch hynny, yn arwynebol. Gellir cydnabod yr unigolion tu hwnt o ddawnus a galluog hynny sy'n bobl busnes llwyddiannus, ond ni ddylid anwybyddu'r ffaith mai cyfundrefn gymdeithasol yw'r farchnad rydd a'r byd busnes. Y mae grym arian yn gyfrwng i fuddsoddi a chyflogi gweithwyr yn ddibynnol ar gydweithrediad y gymdeithas gyfan. Heb gydnabyddiaeth arall na grym y wladwriaeth wrth gefn, ni ellir buddsoddi mewn busnes o gwbl. Felly, o safbwynt ehangach, mae doniau'r gweithwyr cyflogedig i gynhyrchu nwyddau cyn bwysiced â galluoedd unigol arbennig y cyflogwr. Y gymdeithas a greodd y llwyfan i'r miliwnydd busnes. Felly, yn nhyb y comiwnydd, mae'n ddigon teg fod y gymdeithas yn ail-greu'r cysylltiad economaidd er mwyn creu cymdeithas fwy cyfartal.

Wrth ystyried y Maniffesto fel dogfen athronyddol yn hytrach na dogfen wleidyddol, gwelir mai dogfen ydyw y mae'n rhaid ei dehongli a'i haddasu yn ôl amgylchiadau'r presennol. Ac er mor amlwg oedd dinistr comiwnyddiaeth o fewn yr Undeb Sofietaidd a'r gwledydd darostynedig o'i chwmpas, rhaid ystyried hwyrach y ceir llawer yn nadansoddiad Marx ac Engels yn y Maniffesto sy'n parhau i fod o'r pwys mwyaf i ddynoliaeth. Un dull yn unig o geisio gwireddu syniadau treiddgar Marx ac Engels oedd y gyfundrefn fiwrocraidd ganolog a ddaeth i fodolaeth yn yr ugeinfed ganrif yn Rwsia a Dwyrain Ewrop.

## Chwyldro

Y mae bron yn ystrydeb dweud bod Marx ac Engels yn credu'n gryf mewn chwyldro. Er hynny, o dro i dro mae'r syniad o chwyldro a goleddir ganddynt yn ymddangos fel digwyddiad tymor hir; disgwyliant newidiadau sylweddol yn y moddion cynhyrchu. Mae'r rhain, yn y pen draw, yn arwain at newidiadau mewn strwythur cymdeithas, ynghyd â mewn gwleidyddiaeth, ac ni ellir amau ychwaith nad syniad rhyfelgar a threisgar o chwyldro a goleddant yn bennaf. Y mae ymdriniaeth Marx â'r pwnc yn dyst i hynny. Ysgrifennodd Marx sawl pamffled hanesyddol sy'n trafod digwyddiadau chwyldroadol ei oes, yn cynnwys *Die Klassenkämpfe in Frankreich 1848 bis 1850* (*The Class Struggles in France, 1848-1850*)[\[12\]](#) a *The Civil War in France*,[\[13\]](#) sy'n tanlinellu ei frwdfrydedd dros ymgyrchoedd chwyldroadol ynghyd ag ymdrech y dosbarth gweithiol i ddod yn ddosbarth llywodraethol trwy rym. Wrth gredu mewn mudiadau chwyldroadol, adlewyrcha Marx ac Engels

ysbryd eu hoes, lle'r oedd y datblygiadau mwyaf gwleidyddol, trawiadol, yn digwydd yn Ffrainc drwy chwyldro. Serch hynny, hwyrach eu bod yn rhy barod i ddilyn ffasiwn eu hoes, a hynny mewn modd byrbwyll. Afraid dweud nad oedd chwyldro'n ffasiynol o fewn dosbarthiadau llywodraethol yr oes, yn wahanol i'r carfannau radical a gredai mai chwyldro oedd y ffordd i newid y gymdeithas yn effeithiol a chadarnhaol.

Ceir mwy o amheuaeth am hyn yn yr unfed ganrif ar hugain. Fel y gwelir yn yr adwaith i newidiadau ystormus y Dwyrain Canol yn 2011 a 2012, ni ddaw chwyldro bob tro â'r canlyniadau gorau. Yn ôl dehongliad Marx ac Engels, yr oedd chwyldro'n ddigwyddiad cadarnhaol ar y naill law, ond yn niweidiol ar y llall. Yr oedd dioddefaint yn ganlyniad anochel i chwyldro, i'r euog a'r diniwed fel ei gilydd. Mae'r cysyniad o chwyldro'n drosiad am ddatblygiad gwleidyddol cymdeithas, sy'n tynnu oddi wrth wyddoniaeth a datblygiad diwydiannol dyn. Nid yw cylchdro (*revolution*), neu gylch cyfan perffaith i'w weld yn y byd naturiol (heblaw yn y gofod). Y mae cylchdro'n ddigwyddiad annaturiol. Daw'r tro cyfan neu'r cylchdro yn amlwg mewn hanes oherwydd gwaith creadigol a chynhyrchiol dyn. Dargynfyddiadau fel yr olwyn, neu'r oriawr, sydd fwyaf cyfrifol am ein hymwybyddiaeth amlwg o bwysigrwydd gwaith dyn. Hwyrach fod y syniad o chwyldro'n drosiad rhy fecanyddol i egluro'r math o welliant y gobeithir amdano yn hanes y ddynoliaeth. Trin pobl yw prif amcan gwleidyddiaeth ac y mae pobl yn haeddu gwell na chael eu trin fel teclynnau di-werth.

A oes, felly, ffordd well o ragweld cwmp cyfalafiaeth a datblygu cyfundrefn well? Ceisiais egluro hyn mewn llyfr ar athroniaeth wleidyddol Kant a Hobbes. I leddfu ofnau meddylwyr fel Hobbes am effeithiau niweidiol chwyldroadau, cynigia Kant y syniad trosiadol llawer gwell o fetamorffosis i ddisgrifio'r hyn a welai'n drawsnewid gwleidyddol positif. Gyda metamorffosis, mae'r trawsnewid yn ymgorffori'r hen strwythurau oddi mewn i'r strwythurau organig newydd. Y mae'n ffordd greadigol o drawsnewid yn hytrach na dinistrio.[\[14\]](#)

I raddau, dysgodd Marcswyr yr ugeinfed ganrif mai peryglus oedd defnyddio chwyldro gwaedlyd fel modd o drawsnewid cymdeithas.[\[15\]](#) Yn gyntaf, rhybuddiodd hyn elynion gwelliant sosialaidd Marcsaidd i baratoi eu gwrthryfel yn erbyn unrhyw ymdrech i danseilio'r gyfundrefn a oedd ohoni. Onid oedd ffasgaeth, serch hynny, yn ymdrech i ymladd yn erbyn y chwyldro comiwnyddol mewn ffordd chwyldroadol? Gwir yw dweud bod chwyldro'n mynd yn groes i gyfraith a threfn, ond ni ddengys Marx ac Engels lawer o barch tuag atynt. Yn y pen draw, fodd bynnag, dibynna llwyddiant cymdeithas anghyfalafol ei hun ar barch tuag at y gyfraith a threfn newydd.

Dylid felly ystyried trawsnewid cyfundrefn gyfalafol am gyfundrefn sosialaidd o fewn fframwaith gyfreithlon a heddychlon. A'r amcan felly? Gwneud y dosbarth gweithiol yn ddosbarth llywodraethol ac ennill y frwydr dros ddemocratiaeth. Beth am gymryd y camau hyn yn gyfansoddiadol ac mewn ffordd ddemocrataidd?

Dengys hanes mai methiant fu'r ffordd waedlyd chwyldroadol ar y cyfan, ac mai diwygio graddol a chyfansoddiadol a arweiniodd at lwyddiant gan fwyaf. Dyma waith anodd sy'n gofyn am amynedd a dyfalbarhad. Gwell hynny, fodd bynnag, na chreu rhagor o ferthyron fel Luxemburg, Liebknecht, a Guevara. Gwell yw creu rhyddid y dosbarth gweithiol yn raddol.

## Cyfraith a diwedd gwleidyddiaeth?

Soniwyd eisoes am y gwendid a gyfyd o fabwysiadu agwedd orffafriol Marx ac Engels tuag at chwyldro a thrais gwleidyddol. Gwelir yma eu diffyg parch a'u diffyg crediniaeth mewn cyfraith gwlad, ynghyd â'u tuedd i ramantu brwydro cymdeithasol. Trof drachefn at y pwynt hwn wrth gloi. Yn ôl eu dehongliad hwy, y mae cyfraith o fewn y gymdeithas gyfalafol yn adlewyrchu rheolaeth y dosbarth bwrgeisiol dros y moddion cynhyrchu, ynghyd â'i afael llethol ar y byd gwleidyddol.

Cyfreithiau bwrgeisiol ydynt sy'n caniatáu unbennaeth y dosbarth cyfalafol dros bob dosbarth arall. Ynghyd â'r agwedd negyddol ysgubol yma tuag at gyfraith y dydd, er hynny, ceir hefyd yn y Maniffesto dystiolaeth o agwedd oroptimistaidd – os nad gwbl iwtopaidd – Marx ac Engels tuag at wleidyddiaeth. Yn ôl y Maniffesto 'nid yw grym gwleidyddol, yng ngwir ystyr y gair, ond gallu trefnedig un dosbarth i orthrymu dosbarth arall' (*MEW*, 4, t. 482 / *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 25).<sup>[16]</sup> Yn ôl y dehongliad hwn, ffenomenon dros dro yn unig yw grym gwleidyddol. Deillia o oruchafiaeth un dosbarth yn y gymdeithas dros ddosbarthiadau eraill. Ymhen amser felly, disgwylir i rym gwleidyddol ddiflannu. Yn anffodus, nid yw'n gwbl eglur yn y Maniffesto sut y diflanna grym gwleidyddol. Ar un darlenniad o'r Maniffesto ac ysgrifau gwleidyddol eraill Marx ac Engels, hwyrach y gellir disgwyl i rym gwleidyddol ddiflannu wrth i bawb reoli'r gymdeithas ar yr un pryd (h.y. trwy ddemocratiaeth dorfol, llwyr), ond ar y llaw arall gellir dadlau hefyd y bydd grym gwleidyddol yn diflannu wrth i'r dosbarth gwleidyddol ei hun ddod yn rym unbeniaethol (*MEW*, 4, t. 482 / *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 25). Y mae'r ail ddehongliad yn golygu y bydd cyfnod o reolaeth wleidyddol lem yn y gymdeithas (neu'r gymdeithas arfaethedig) newydd ar y dechrau. Felly, yr addewid yw y bydd grym gwleidyddol yn diflannu yn y tymor hir, ond nid oes unrhyw awgrym am ba mor hir y bydd yn rhaid i rym gwleidyddol o dan unbennaeth y proletariat barhau. Yr oedd yr ansicrwydd damcaniaethol hwn yn ymarferol yn caniatáu parhad yr unbennaeth dosbarthiadol a sefydlwyd yn Rwsia ar ôl y chwyldro Bolsheficaidd (ac a geir o hyd yn Tseina) am gyfnod diderfyn.

Breuddwyd, serch hynny, neu hunllef yn hytrach, yw'r cysyniad o bawb yn rheoli'r gymdeithas ar y cyd. Ni ellir chwarae â sofraniaeth a chyfraith gwlad fel hyn, ac yn sicr, nid am gyfnod estynedig. Y mae rhaid wrth rym gwleidyddol er mwyn sicrhau llunio a gweithredu cyfreithiau. Ni all bawb lunio'r gyfraith a'i gweithredu ar yr un pryd. Y mae angen rhywfaint o raniad llafur er mwyn sicrhau y ceir cyfreithiau teg ar y naill law, ac y'u gweithredu yn ddiudedd ar y llall. Y mae'n gwbl amhosibl i osgoi ffafrio eich hunain a'r rheini sy'n agos atoch lle y mae'r un garfan o bobl yn llunio ac yn arfer y rheolau y penderfynir arnynt. Wrth edrych yn ôl ar deyrnasiad y pleidiau comiwnyddol yn yr Undeb Sofietaidd, dyma un gwendid amlwg o fewn y gyfundrefn. Yn sgil monopoli'r Blaid Gomiwnyddol ar y meysydd o lunio a gweithredu'r gyfraith, cafwyd yr annhegwch mwyaf amlwg a thorcalonnus. Nid yw'n bosibl yn ôl geiriau Marx ac Engels yn y Maniffesto 'i ganoli'r moddion cynhyrchu yn nwylo'r wladwriaeth' (*Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 24) o dan oruchwyliaeth y dosbarth gweithiol, yn ogystal â chreu cyfiawnder. Ni ellir trawsnewid y wladwriaeth yn declyn rheoli cwbl ddiudedd mewn unrhyw gymdeithas gomiwnyddol a ddaw, gan fod rheoli'r gwrthrychau sy'n bwysig i gynhyrchu (er enghraifft, deunyddiau crau a'r gyfundrefn drafndiaeth) hefyd yn golygu rheoli'r bobl sy'n defnyddio'r gwrthrychau hynny. Daw hynny'n fwy a mwy amlwg yn y gymdeithas sydd ohoni heddiw. Y mae nifer helaeth o bobl heddiw yn ennill eu bara beunyddiol trwy ddefnyddio cyfrifiadur, ac ni ellir dychmygu rheoli'r cyfrifiaduron heb reoli'r rhai sy'n gweithio arnynt.

Y mae'n rhaid wrth reolau cymdeithasol ynghyd â sefydliadau diduedd i'w goruwchwylio a'u gweithredu. Nid yw hyn yn golygu y dylid ildio'r gobaith o greu cymdeithas sosialaidd. Ond rhaid cydnabod mai un o rinweddau'r math hwn o gymdeithas fydd cyfraith a threfn a reolir gan wladwriaeth, a gydweithia hefyd â holl wladwriaethau eraill y byd.

Wrth reswm, ceir ym mhob cymdeithas gyfreithiau annheg a ffôl. Crëir y gyfraith, wedi'r cyfan, gan fodau dynol, ac mae camgymeriadau a sefyllfaoedd o annhegwch yn anochel o ddigwydd. Er hynny, mae dilyn cyfraith a pharchu deddfau'n rhan annatod o gymdeithas wâr; rhydd sicrwydd a chysondeb inni. Trwy gyfrwng y gyfraith, amddiffynnir ein hawliau a'n heiddo. Ni chrêd Marx ac Engels, wrth gwrs, yn nosranniad annheg y gymdeithas gyfalafol o eiddo. Ceisiant danseilio'r rheolau eiddo yn y gymdeithas honno, ond heb ychwaith danseilio eiddo'n gyffredinol. Dywedant yn bendant:

ni ddwg Comiwnyddiaeth oddi ar neb yr hawl i feddiannu cynnyrch cymdeithas: dwg oddi arno'n unig yr hawl i ecsplolio llafur eraill trwy gyfrwng y cyfryw feddiant (*Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, t. 22).

I sicrhau eiddo hyd yn oed o dan gomiwnyddiaeth, mae'n rhaid cael cyfreithiau. Felly mae'n rhaid magu parch tuag at y gyfraith ac eiddo wrth eu diwygio. Ni wŷr Marx ac Engels i sicrwydd sut y bydd hyn yn digwydd, ond heb barch tuag at gyfreithiau, ni ddaw'r dull newydd o berchnogaeth sosialaidd y dymuna'r ddau ei weld i fodolaeth.

I grynhoi, nid oes amheuaeth o bwysigrwydd y *Maniffesto* fel drafft cyntaf athroniaeth gymdeithasol a gwleidyddol Marx ac Engels. Rhoddodd y ddogfen ysbrydoliaeth i genedlaethau o gomiwnyddion a sosialwyr wedi i'r ddau fwrw ati i greu cymdeithas decach. Rhoddodd y ddogfen hefyd, serch hynny, ysbrydoliaeth barhaol i bobl i amgyffred y byd mewn modd sy'n feirniadol ond hefyd yn gadarnhaol. Y mae'r *Maniffesto*'n portreadu'r byd cymdeithasol a'r byd gwleidyddol mewn proses o newid parhaol ac yn egluro manau lle y gellir hybu a chyflymu'r broses honno er gwell. Dylid ystyried y *Maniffesto* ochr yn ochr â champwaith Marx, *Das Kapital* ('Cyfalaf'). Y mae'r *Maniffesto*'n rhagweld rhai o brif gasgliadau'r llyfr hwnnw. Os yw'n ddyletswydd ar unrhyw ysgolhaig gwerth ei halen i ddarllen y *Maniffesto* fel y cyflwyniad gorau i syniadau treiddgar Marx, mae'n fwy o ddyletswydd fyth ar yr ysgolheigion hynny i astudio *Das Kapital*, lle cyflwynir damcaniaeth gwbl arloesol mewn perthynas ag arian, gwerth a sylfeini eraill y gyfundrefn gyfalafol.<sup>[17]</sup> Derbynnir yn gyffredinol yn awr sawl agwedd ar ddadansoddiad Marx o gyfalafiaeth, os nad ei ddamcaniaeth o ymelwa neu 'werth ychwanegol' (*Mehrwert*), beth bynnag fo'i gysyniad o eiddo cyfalafol a'i bortread o ddiwethdra fel rhan annatod o'r gyfundrefn. Nid yw economegwyr ar y cyfan yn disgwyl i'r gyfundrefn ddifetha'i hun yn yr union fodd a ddisgwylia Marx, ond derbyniant heddiw y ceir gwrthddywediadau dyrys o fewn trefniadaeth yr economi rydd y gellir ond eu datrys drwy ymyrraeth allanol yn unig. Yn nyddiau Marx, gwelwyd diweithdra a dirwasgiad achlysurol fel digwyddiadau naturiol a oedd y tu hwnt i reolaeth dyn a'r gymdeithas. Prawf felly o ddylanwad syniadau treiddgar Marx yw gweld ffenomenau o'r fath heddiw o ganlyniad i economi rydd. Yn sgil natur gynhenid gystadleuol y gyfundrefn, tybiai Marx y byddai un cyfalafwr bob tro'n dinistrio sawl cyfalafwr arall; felly y bu erioed. Ceir tuedd yn y tymor hir i gyfalafiaeth ganoli a chrynhoi masnach a diwydiant. Yn y byd sydd ohoni, nid yw gweld un neu ddau o gwmnïau mawr yn dominyddu'r farchnad fyd-eang yn eu maes (cwmnïau fel Microsoft, Google, Shell, Toyota, Volkswagen ac ati) yn ddiethr i weledigaeth Marx. Yn anffodus, mae'r digwyddiadau annheg a pheryglus hyn yn rhan annatod o gyfalafiaeth.

Tafla'r *Maniffesto* felly oleuni ar y cyflwr dynol. Rhaid cofio, wrth reswm, ei fod yn adlewyrchu gwledigaeth bersonol Marx ac Engels, ond y ffordd orau i gyd-destunoli'r unochredd hwn yw darllen gwaith Marx ac Engels ochr yn ochr â gwaith athronwyr gwleidyddol eraill fel Hobbes, Kant, Hegel, J. S. Mill a Max Weber. Gellir mesur cyfraniad y ddau feddyliwr treiddgar hyn nid yn unig oddi wrth lanw a thrai sosialiaeth a chomiwnyddiaeth ers eu marwolaeth, ond wrth gymharu eu cyfraniad â'r athrawiaethau gwleidyddol trylwyr eraill sy'n rhan o hanes athroniaeth wleidyddol yr oes fodern. Ac yn y cyd-destun hwn y mae eu prif gyhoeddiadau'n goroesi. Erys y *Maniffesto*'n gampwaith yn yr un modd â Leviathan Hobbes,<sup>[18]</sup> *Zum Ewigen Frieden* (*Perpetual Peace*) Kant<sup>[19]</sup> a *Politik als Beruf* (*Politics as a Vocation*) Weber.<sup>[20]</sup>

## Nodiadau

<sup>1</sup> Cyfieithiad Howard Williams.

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd y Maniffesto am y tro cyntaf ym 1848 yn Llundain: Marx, K. (1848), *Manifest der kommunistischen Partei* (London: Bildungsgesellschaft fuer Arbeiter/Burghard). Marx oedd prif awdur y ddogfen ond cafodd hefyd gymorth Friedrich Engels mewn rhai manau. Cyfieithwyd y Maniffesto i'r Gymraeg gan W. J. Rees: Rees, W. J. (1948), *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol* (Caerdydd: Pwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol). Mae'r holl gyfeiriadau at waith Marx ac Engels yn dod o ail olygiad Gareth Miles a Gwyn Griffiths o'r Maniffesto, ynghyd â'r rhagair a baratowyd gan Robert Griffiths: Rees, W. J., *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*, mân newidiadau gan Miles, Gareth, a Griffiths, Gwyn (2008) (Pontypridd: Y Blaid Gomiwnyddol Gymreig). Daw'r gweddill o gasgliad safonol *Marx Engels Werke* (gweithiau Marx ac Engels): Die Institut fuer Marxismus-Leninismus (1971), *Marx Engels Werke* (Berlin: Dietz Verlag).

<sup>3</sup> Marx, K., ac Ruge, A. (1844), *Deutsch-Französische Jahrbücher*, Chwefror. Cyhoeddwyd un rhifyn yn unig o'r cyfnodolyn hwn, ac fe'i cyhoeddwyd ym Mharis.

<sup>4</sup> Hegel, G. W. F. (1807), *Phaenomenologie des Geistes* (Bamberg a Würzburg). Ceir sawl cyfieithiad Saesneg, e.e. gan J. B. Baillie ym 1967: Hegel, G. W. F., *Phenomenology of Mind*, cyf. Baillie, J. B. (1967) (London: Harper & Row).

<sup>5</sup> Hegel, G. W. F. (1812 a 1816), *Wissenschaft der Logik* (Nürnberg). Ceir sawl cyfieithiad Saesneg, e.e. gan W. H. Johnston ac L. G. Struthers ym 1929: Hegel, G. W. F., *Science of Logic*, cyf. Johnston, W. H. a Struthers, L. G. (1929) (London: George Allen & Unwin). Am ymdriniaeth ag arddull athronyddol Hegel a'i ddylanwad ar Marx, gweler Williams, Howard (1989), *Hegel, Heraclitus and Marx's Dialectic* (Hemel Hempstead: Harvester Wheatsheaf).

<sup>6</sup> Feuerbach, L. A. (1841), *Das Wesen des Christenthums* (Leipzig: Otto Wigand). Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg am y tro cyntaf gan Marian Evans ym 1854: Feuerbach, L. A., *The Essence of Christianity*, cyf. Evans, M. (1854) (London: John Chapman).

<sup>7</sup> Engels, F. (1845), *Die Lage der arbeitenden Klasse in England* (Leipzig). Cyfieithwyd y gwaith i'r Saesneg gan Florence Kelley ym 1885 ac fe'i cyhoeddwyd yn Llundain ym 1888: Engels, F., *The Condition of the Working Class in England*, cyf. Kelley, F. (1885) (London: William Reeves).

<sup>8</sup> *The Red Republican* (22 Mehefin-30 Tachwedd 1850). Cyhoeddwyd y cyfnodolyn hwn yn Llundain.

<sup>9</sup> Marx, K. (1867), *Das Kapital: Kritik der politischen Oekonomie* (Hamburg: Otto Meiner). Fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg gan Samuel Moore ac Edward Aveling ym 1886: Marx, K., *Capital: A Critique of Political Economy*, cyf. Moore, S., ac Aveling, E. (1886) (London: Swan Sonnenschein). Cyfeirir at y gwaith yn y Gymraeg fel 'Cyfalaf'.

<sup>10</sup> Yn yr oes sydd ohoni, y mae 'crêd' ac 'argyhoeddiad personol' gyfystyr â'i gilydd, ond i'r Cristion

yn y Canol Oesoedd (a Chatholigion traddodiadol yn yr oes sydd ohoni), gwahaniaethid rhwng y ddau. I'r Catholigion uniongred, yr Eglwys sy'n pennu'r ffydd. I'r perwyl hwn, ystyrir pwyslais Luther a'i ddilynwyr ar argyhoeddiad yr unigolyn yn feiddgar tu hwnt. Yn hytrach na gosod yr eglwys allanol, sefydliedig, yng nghanol bywyd ysbrydol dyn, gosododd Protestaniaeth ymwybyddiaeth yr unigolyn ei hun yn ganolbwynt i'w ffydd.

<sup>11</sup> Lenin, V. I. (1902), '何物是目的?' (Stuttgart: Dietz). Cyfieithiwyd y gwaith i'r Saesneg am y tro cyntaf ym 1929 gan Joe Fineberg, ac fe'i diweddarwyd ym 1962 gan George Hanna: Lenin, V. I., *What is to be done?*, cyf. Fineberg, Joe, a Hanna, George (1962) (London: Lawrence & Wishart).

<sup>12</sup> Marx, K. (1895), *Die Klassenkämpfe in Frankreich 1848 bis 1850* (Berlin). Cyfieithwyd y gwaith i'r Saesneg gan Henry Kuhn. Cyhoeddwyd detholiad ohono am y tro cyntaf yn y Saesneg yng nghyfnodolyn *The Marxian*, Efrog Newydd, ym 1921 (cyfrol 1, rhif 2). Fe'i cyhoeddwyd yn llawn fel rhifyn ar wahân ym 1924 gan Labour News Company, Efrog Newydd.

<sup>13</sup> Marx, K. (1871), *The Civil War in France* (London).

<sup>14</sup> Williams, Howard (2003), *Kant's Critique of Hobbes* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 160-90.

<sup>15</sup> Gwelir hyn yn arbennig yn astudiaethau'r Marxydd enwog Eidaleg, Antonio Gramsci, yn enwedig yn ei nodiadau carchar: Gramsci, A. (1971), *Selections from the Prison Notebooks* (London: Lawrence & Wishart), lle y mae'n datblygu'r syniad o 'ryfel sefyllfa' yn hytrach na rhyfel dosbarth agored. Roedd Gramsci o'r farn y dylid peidio gwrthryfela'n agored yn y gwledydd cyfalafol aeddfed, gorllewinol. Yr oedd yn well ceisio trawsnewid y gymdeithas mewn ffordd mwy anuniongyrchol, yn arbennig trwy frwydro yn y byd syniadol, ideolegol. Dangosodd yr hanesydd Cymreig Gwyn A. Williams ddiddordeb mawr yn Antonio Gramsci a'i ddamcaniaeth. Gweler: Williams, Gwyn A. (1960), 'The Concept of Egemonia in the Thought of Antonio Gramsci', *Journal of the History of Ideas*, 21, 586-99, a Williams, Gwyn A. (1975), *Proletarian Order: Antonio Gramsci, Factory Councils and the Origins of Communism in Italy* (London: Pluto Press).

<sup>16</sup> 'Die politische Gewalt im eigentlichen Sinne ist die organisierte Gewalt einer Klasse zur Unterdrückung einer andern', *MEW*, 4, t. 482.

<sup>17</sup> Ceir cyflwyniad byr i syniadau Marx yn *Das Kapital* ym mhenodau 6 a 7 o Williams, H., *Marx* (Dinbych: Gwasg Gee, 1980), tt. 50-64.

<sup>18</sup> Hobbes, T. (1651), *Leviathan* (London: Andrew Crooke).

<sup>19</sup> Kant, I. (1795), *Zum ewigen Frieden: Ein philosophischer Entwurf* (Königsberg). Ceir sawl cyfieithiad Saesneg, e.e. Kant, I, *Perpetual Piece*, cyf. Beck, Lewis White (1957) (Indianapolis: Bobbs-Merrill).

<sup>20</sup> Weber, K. E. M. (1926), *Politik als Beruf* (Leipzig). Cyfieithwyd i'r Saesneg gan H. H. Gerth a C. Wright Mills ym 1919. Cyfeirir at argraffiad 1965: Weber, K. E. M., *Politics as a Vocation*, cyf. Gerth, H. H, a Wright Mills, C. (1965) (Philadelphia : Fortress Press).



# Rhagymadrodd i Argraffiad Diwygiedig 2008

## gan Robert Griffiths

### Cyd-destun hanesyddol y Maniffesto

Ym mis Rhagfyr 1847, penderfynodd ail gyngres y Cynghrair Comiwnyddol yn Llundain y dylai Karl Marx a Frederick Engels gyfansoddi rhaglen i fynegi safbwynt sylfaenol y cynghrair. Cymdeithas ryngwladol fechan, gudd, oedd hon, wedi ei ffurfio gan chwyldroadwyr [dosbarth](#) gweithiol a democrataid 'eithafol' o'r dosbarth canol. Ar ôl trafod syniadau gydag Engels am rai dyddiau, dychwelodd Marx i Frwsel lle y gweithiodd ar y ddogfen am fis cyfan cyn cynnal trafodaeth arall gyda'i gymrawd closiaf. Mae'n amlwg i'r drafft terfynol dynnu'n drwm o waith cynharach Engels nad oedd wedi ei gyhoeddi eto, sef 'Drafft Gyffes Ffydd Gomiwnyddol' ac 'Egwyddorion Comiwnyddiaeth' (y ddau ym 1847).

Er mor fach oedd y gymdeithas ar y pryd, erlynid ei haelodau gan yr awdurdodau yn y rhan fwyaf o wledydd gorllewin Ewrop, gan mai amcan y Comiwnyddion oedd dymchwel y drefn gyfoesol. Eithr heriwyd ymerodraethau aristocrataidd, hanner-ffiwdal y cyfandir gan garfan arall, sef lladmeryddion y drefn economaidd newydd a oedd yn ei anterth. Mynnai perchnogion y gweithfeydd a gynhyrchai ar gyfer y farchnad, y masnachwyr, y bancwyr, gwahanol garfannau'r dosbarth cyfalafol, rym gwleidyddol cyflawn a fyddai'n gyfatebol i'w rym a'i anghenion economaidd. Fel y trechwyd cyfundrefn economaidd ffiwdaliaeth gan y drefn gyfalafol, yn yr un modd heriwyd trefn wleidyddol y pendefigion gan drefn newydd a ymladdai dros egwyddorion fel 'hawliau dyn', 'rhyddid' a 'democrataeth'.

Wrth lwyddo yn eu hymdrechion i greu marchnad 'genedlaethol' ar gyfer cyfundrefn newydd, gan ddiddymu rhwystradau deddfol, moesol, ariannol o bob math ac am sugno rhanbarthau a mân dywysogaethau er lles y 'Genedl', codai'r cyfalafwyr faner newydd hefyd, sef 'gwladgarwch'.

Ym mis Chwefror 1848, meddiannodd pobl Paris y strydoedd a gyrru'r Brenin Louis-Philippe, cynrychiolydd yr elfennau cyfalafol mwyaf ceidwadol, sef y bancwyr, o'r wlad, yn alltud. Ysbrydolodd y weriniaeth Ffrengig fudiadau tebyg yng Ngwlad Belg ac mewn gwledydd bychain eraill. Ymhen wythnosau, cafwyd gwrthryfel yn Vienna, sef prifddinas Ymerodraeth Awstria, lle y cynigiodd yr Ymerawdwr gyfansoddiad democrataidd. Yna, chwalwyd llywodraeth y prif dirfeddianwyr militaraidd a'u bancwyr ym Mhrwsia, lle daeth llywodraeth fwrgeisaidd i rym gyda'r bwriad o gyfuno'r taleithiau Almaenaidd yn wladwriaeth rydd nad oedd o dan reolaeth Awstria. Hefyd ym mis Mawrth, cododd trigolion y taleithiau Eidalaid yn erbyn Ymerodraeth Awstria, ac felly y ganwyd mudiad cenedlaethol arall a hawliai ei wladwriaeth ddemocrataidd, fwrgeisaidd ei hun. Manteisiodd mudiad yn Hwngari ar y datblygiadau hyn i gyhoeddi annibyniaeth y wlad. Aed ati i ddiddymu ffiwdaliaeth ond ataliwyd hynny gan ymyrraeth filwrol gan yr Ymerodraeth. Ymunodd y Pwyliaid a'r Magyariaid yn y rhyfel a ganlynodd.

Argraffwyd *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol* yn Llundain yn ei Almaeneg gwreiddiol ym mis Chwefror 1848, ar drothwy'r gwrthryfel ym Mharis. Rhuthrwyd â chopiau i'r alltudion Almaenaidd yno. *{Diwedd 2}*

Er na chafodd y Maniffesto ddylanwad sylweddol ar y digwyddiadau hanesyddol hynny, gosodai sylfaen athronyddol gadarn i'r mudiad chwyldroadol [dosbarth gweithiol](#) yn y dyfodol.

Er i'r Cynghrair gael ei erlid a'i chwalu yn fuan wedyn, daeth Marx i chwarae rhan blaenllaw yng Nghymdeithas Ryngwladol y Gweithwyr a sefydlodd chwyldroadwyr eraill yn Llundain ym 1864. Cadarnhaodd ei gampwaith Cyfalaf arweinyddiaeth Marx yn y mudiad dosbarth gweithiol o 1867, yn rhinwedd nerth ei syniadaeth, safle a gadwai hyd ei farw ym 1883.

## Y Cwestiwn Cenedlaethol

Camddehonglwyd gan lawer yr haerriad hwn a wneir yn y Maniffesto: 'Nid oes gan y gweithwyr famwlad' ... Beth oedd gwir ystyr y gosodiad hwn ym meddyliau Marx ac Engels ar y pryd?

Gallwn fod yn sicr nad oeddynt yn gwadu bod gan y gweithwyr nodweddion cenedlaethol, sef *cednelligrwydd*. Pe bwriadent wneud hynny, buasai defnyddio'r gair Almaeneg 'Nationalitat' yn llawer mwy priodol yn y Maniffesto gwreiddiol. Eithr defnyddiodd Marx ac Engels y gair 'Vaterland', y mae ei ystyr yn debyg i 'mamwlad' yn Gymraeg. Drachefn, mae defnyddio'r gair 'Vaterland', yn ei gyddestun hanesyddol, yn awgrymu bod gan y genedl hon drefniadau gwleidyddol i gyd-fynd â'i threfn economaidd a chymdeithasol ei hun; bod ganddi gymdeithas gyflawn sy'n ei chyfundrefn wladwriaethol ei hun.

Cyhuddiad gelynyon y mudiad Comiwnyddol yn oes Marx ac Engels oedd y golygai eu hapêl ryngenedlaethol eu bod yn anwlatgar ac yn wrth-genedlaethol. Yr hyn a wnaethant yn y Maniffesto, felly, fel yn achos cyhuddiadau eraill, oedd hyrddio'r cyhuddiad yn wynebau eu gwrthwynebwyr; hynny yw, datgan mai'r bwrgeisiaid, y cyfalafwyr, a amddifadai pobloedd o'u cenedloedd. Y cyfalafwyr sydd biau'r wlad a chynrychiolwyr y cyfalafwyr sy'n ei rheoli neu, yn y man, fydd yn ei rheoli ar ôl llwyddiant eu chwyldro bwrgeisaidd yn erbyn ffiwdaliaeth. Dan y drefn gyfalafol, nid oes gan y gweithwyr na meddiant o'u mamwlad na rheolaeth drosti.

Nid oedd amheuaeth yn nhyb Marx ac Engels nad oedd gan y gweithwyr genedl a chenedligrwydd. Ni wadent genedligrwydd ei hun. Dilornodd Marx gynrychiolwyr o Ffrainc wedi i'r rheini ddatgan o blaid diddymu cenedloedd a chenedligrwydd—am eu bod yn 'ragfarnau henaidd'—mewn cyfarfod rhyngwladol ym 1866:

Chwerthinodd y Saeson nerth braidd ac ysgwydd pan ddechreuais fy araith wrth nodi i'n cyfaill ni [Paul] Lafargue, ac eraill, a oedd wedi diddymu cenedligrwydd, wedi ein hannerch yn 'Ffrangeg', hynny yw, mewn iaith nad oedd naw rhan o ddeg yn y gynulleidfa wedi'i deall. Euthum ymlaen i awgrymu bod, wrth wadu cenedloedd, ymddengys iddo ensynio'n ddjarwybod y'u llyncir gan y genedl Ffrengig gynddelwol. [1]

Yn ôl Marx ac Engels, roedd [cyfalafiaeth](#) yn tanseilio gwahaniaethau cenedlaethol a rhagfarnau rhwng y cenedloedd wrth greu marchnadoedd, wrth uno taleithiau i ffurfio gwladwriaethau mwy, wrth greu dosbarth gweithiol sy'n fwyfwy unedig yn erbyn ei ecploetiaeth. Ac wrth wneud hyn oll, datblyga cyfalafiaeth rymusterau cynhyrchiol{*Diwedd 3*} newydd—yr holl amgylchiadau materol mewn gwirionedd—ynghyd â'r gwrthdrawiadau a fyddai'n arwain at chwyldro a sosialaeth. Felly, ar y cyfan, datblygiadau blaengar i'w croesawu oedd y datblygiadau hyn, yn ogystal a bod yn ddatblygiadau anochel yn hanes cymdeithas.

Credent hefyd dylai'r datblygiad hwn fod yn wirfoddol, os yn bosib, tra'n cydnabod swyddogaeth grym fel 'bydwraig' newid hanesyddol. Eithr fel y dysgent fwy am hynt a helynt imperialaeth Brydeinig yn India ac Iwerddon, daeth Marx ac Engels yn fwyfwy beirniadol o bob datblygiad economaidd wedi'i seilio ar drais ormesol, anghyfiawnder ac anghyfartaledd cenedlaethol.

Deallodd Marx ac Engels yn fwy fyth, oherwydd eu hastudiaethau ysgolheigaidd, sut y cafodd cenedloedd bychain, tywysogaethau a thaleithiau gwan, eu llyncu yn natblygiad y gwladwriaethau

a'r ymerodraethau canoloesol, fel y prifiai cyfalafiaeth o fewn y drefn ffiwdal. Rhanbarthau araf eu datblygiad economaidd a chymdeithasol oeddynt gan fwyaf, lle parhâi syniadau a sefydliadau adweithiol yn anghyffredin o gryf. Defnyddiwyd y pobloedd hyn gan y bendefigaeth, gan y brenhinoedd a'r ymerodron, gan yr eglwys sefydledig, gan y dosbarth llywodraethol ffiwdal a'r elfennau cyfalafol 'ceidwadol' i rwystro newid blaengar, boed hynny yn y maes economaidd neu yn y meysydd cymdeithasol, ideolegol (gan gynnwys crefyddol) a gwleidyddol. Dyma'n union a ddigwyddodd yn ystod chwyldroadau 1848-49, pan ddefnyddiodd Ymerodraethau Awstria a Phrwsia filwyr a gwleidyddion llwfr cenedloedd bychain yn erbyn mudiadau democrataidd a chenedlaethol blaengar. 'Pobloedd nad oes ganddynt na'r egni na'r ewylllys i fynnu datblygiad cenedlaethol, annibynnol iddynt hwy eu hunain', meddai Engels, pobloedd fel Slafiaid y De (y Serbiaid, y Croatiaid, y Tseciaid a'r Slofeniaid).

Fel hyn yr ysgrifennodd ym 1852:

Gweddillion gwasgaredig nifer o genhedloedd, y diffoddwyd ers amser eu cenedligrwydd a'u hegni gwleidyddol, y bu raid iddynt o ganlyniad, am bron fil o flynyddoedd ddilyn yng nghysgod cenedl rymusach, eu concwerwr, fel y Cymry yn Lloegr, y Basgiaid yn Sbaen, y Llydawiaid-Llydewig yn Ffrainc, ac yn y cyfnod mwy diweddar, y Sbaenwyr a'r Ffrancwyr Creol yn y rhannau hynny o Ogledd America a feddiannwyd gan yr hil Eingl-Americanaidd—ceisiodd y genhedloedd darfodedig hynny, y Bohemiaid, Carinthiaid, Dalmatiaid, &c elwa o ddryswch cyffredinol 1848, er ceisio adfer status quo 800 OC. Dylasai mil o flynyddoedd o hanes fod wedi dangos iddynt fod y fath gam yn ôl yn amhosib Felly y gwrthryfel Traws-Slafistaidd, a oedd ledled y tiroedd Almaenig a Hwngaraidd yn cuddio awydd mân genhedloedd niferus dros adfer eu rhyddid, yn gwrthdaro ym mhobman gyda'r mudiadau chwyldroadol Ewropeaidd, ac yr oedd y Slafiaid, er yn honni brwydro am ryddid, yn ddieithriad (oni bai am y gyfran ddemocrataidd o blith y Pwyliaid) ar ochr desbotiaeth ac adwaith. Bradwyr i'r achos poblogaidd, cefnogwyr a phrif gynhalwyr cabal y Llywodraeth Awstrïaidd, fe'u gosodasant eu hunain mewn safle anghyfreithlon yng ngolwg yr holl fudiadau chwyldroadol.[\[2\]](#)

Roedd Lloegr, Ffrainc, yr Almaen, Sbaen a gwledydd Llychlyn, ar y llaw arall, yn genhedloedd mawr, hanesyddol, chwyldroadol (gan iddynt gael chwyldro bwrgeisaidd).{Diwedd 4} Dyna fyddai hanes y Pwyliaid, yr Eidalwyr, y Magyariaid (fel yr adweinid y Hwngariad) a'r Gwyddelod hefyd, maes o law; dod yn genhedloedd go iawn wedi iddynt ymladd am ryddid i ddatblygu'n wleidyddol ac yn economaidd am eu hannibyniaeth.

Dyna oedd safbwynt Engels am ymron i ugain mlynedd. Ym 1866, er enghraifft, ymosododd ar 'Egwyddor Cenedloedd' Ymherodr Ffrainc, Louis Napoleon, a honnai fod gan bob genedl hawl i'w hymreolaeth, boed honno'n genedl fawr neu'n genedl fach. (Gwir amcan ei egwyddor oedd defnyddio'r cenedloedd bychain hyn i danseilio a chwalu ymerodraethau eraill). Lol botes maip, ym marn Engels, oedd cydnabod fod gan bobloedd bychain anhanesyddol yr un hawliau â'r cenedloedd mawr, hanesyddol:

Nid oes un wlad yn Ewrop lle nad oes wahanol genedligrwydd o dan yr un llywodraeth. Mae Gaeliaid yr Ucheldir a'r Cymry yn ddiamau o genedligrwydd gwahanol i'r Saeson, er na rydd neb i weddillion yr hen bobloedd diflanedig hyn yr enw cenedloedd, ddim mwy nag i drigolion Celtaidd Llydaw yn Ffrainc. Yn ogystal, nid oes un ffin wladwriaethol yn cyddigwydd gyda ffin naturiol cenedligrwydd, sef iaith. Y mae digonedd o bobl tu allan i Ffrainc y mae'r Ffrangeg yn famiaith iddynt, yr un modd ag y mae llawer o bobl y mae'r Almaeneg yn famiaith y tu allan i'r Almaen; a'r tebygrwydd yw mai felly y bydd. [\[3\]](#)

Fel sy'n hysbys heddiw, gwrthbrofwyd un elfen o ddamcaniaeth Engels—a Marx—ar y cwestiwn

enedlaethol gan ddigwyddiadau diweddarach. Llwyddodd rhai o'r cenedloedd a ddiystyrwyd ganddynt hwy i ennill rhywfaint o ymreolaeth maes o law. Ac wrth i'r Indiaid, y Pwyliaid a'r Gwyddelod ymladd am eu rhyddid yn ystod hanner olaf y 19fed ganrif, cefnogodd Marx ac Engels eu hachosion yn frwd o fewn i'r mudiad sosialaidd a dosbarth gweithiol, rhyngwladol. Ni ddychwelasant at y syniad o 'genhedloedd anhanesyddol' ar ôl y 1860au.

Yn hytrach, ffurfiwyd eu safbwynt ynglŷn ag ymgyrchoedd cenedlaethol o hynny allan gan ystyried eu heffeithiau ar y frwydr ddosbarth a buddiannau'r werin weithiol. A fyddai annibyniaeth yn hyrwyddo'r frwydr dros fuddiannau'r dosbarth hwnnw, ac, yn anad dim, o blaid chwyldro, ai peidio? Dadleuai Marx ac Engels na allai cenedl fel y Saeson fod yn rydd tra y pleidiai gaethiwo cenedl arall gan ei dosbarth llywodraethol ei hun. Ni newidiodd Marx ac Engels y farn mai da o beth fyddai uno cenedloedd o'u gwirfodd er mwyn creu gwledydd mwy, hybu datblygiad economaidd a chryfhau'r mudiad y dosbarth gweithiol. Eithr daethant i ystyried y cwestiwn cenedlaethol fel cwestiwn democrataidd a gwrth-imperialaidd, a bod gan bobloedd yr hawl i wrthsefyll anghydraddoldeb ac i roi mynegiant i'w cenedligrwydd. Dyna pam y barnai Engels tua diwedd ei oes mai 'Cam ymlaen fyddai gweriniaeth ffederal ym Mhrydain, lle meddiannir y ddwy ynys gan bedair cenedl, a lle ceir tair cyfundrefn gyfreithiol wahanol, ochr yn ochr a'i gilydd, ond dim ond un Senedd'.[\[4\]](#)

Ni olygai hyn fod Engels a Marcsywyr eraill wedi mabwysiadu cenedlaetholdeb fel ideoleg. Gwrthodasant goleddu syniadau a wadai sail dosbarth cymdeithas, a droai gweithwyr o wahanol hil neu genedl yn erbyn ei gilydd, ac a allai ddargyfeirio'r dosbarth gweithiol oddi ar lwybr y frwydr ddosbarth am sosialaeth a chomiwnyddiaeth. Serch hynny, gwelwyd ambell blaid gomiwnyddol yn arwain mudiadau dros ryddid cenedlaethol{*Diwedd 5*} yn erbyn ffasgaeth ac imperialaeth yn y 20fed ganrif, o dan arwyddair newydd y mudiad Comiwnyddol rhyngwladol: 'Weithwyr a Phobloedd Orthrymedig Pob Gwlad, Unwch!'

## Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth

I lawer o elynion asgell-dde y mudiad Comiwnyddol, profodd amgylchiadau yn yr Undeb Sofietaidd a gwledydd dwyrain Ewrop mai cyfundrefnau hanfodol unbenaethol, annemocrataidd a chreulon yw sosialaeth a chomiwnyddiaeth. I rai ar y chwith 'eithafol', ar y llaw arall, nid oedd y gyfundrefn a adeiladwyd yn yr Undeb Sofietaidd yn un sosialaidd neu gomiwnyddol o gwbl. Honnwyd na fyddai Marx nac Engels eu hunain yn cydnabod y gyfundrefn honno fel un a oedd yn gydnaws â'u hegwyddorion gwreiddiol. Beth yw'r gwir ynglŷn â'r honiadau hyn?

Yn gyntaf, mae'n rhaid ystyried beth a olygai y geiriau sosialaeth a chomiwnyddiaeth i Marx ac Engels ar adegau gwahanol.

Yng nghyfnod y Maniffesto Comiwnyddol, golygai 'sosialaeth' y syniadau a'r polisiâu hynny a fyddai'n diwygio'r gymdeithas gyfoes, sef cyfalafiaeth, yn enwedig trwy weithgareddau gwladwriaethol. Yn y cyd-destun hwn yr ysgrifenasant am *sosialaeth* 'adweithiol' (a'r tri math, sef sosialaeth ffiwdal, mân-fwrgeisaidd ac Almaenaidd), a feirniadau'r drefn fwrgeisaidd newydd o safbwynt gweddillion y bendefigaeth a'r fân-fwrgeisiaeth ffiwdal ac o safbwynt ysgol o athronwyr gwrth-ddemocrataidd Almaenaidd. Pam sosialaeth *adweithiol*? Oherwydd fod y 'socialwyr' hynny wedi datgan y byddai eu syniadau a'u polisiâu hwy yn gwella cymdeithas i bawb, bron â bod—gan gynnwys y dosbarthiadau llafur—trwy ddiwygio'r drefn newydd, fwrgeisaidd. Pam sosialaeth adweithiol? Am iddynt hiraethu am drefn a oedd wedi darfod a dyheu am weld ei hadfer, yn groes i bopeth modern, deinamig, 'democrataidd' yn y drefn gyfalafol, sef, yr elfennau hynny a wnâi gymdeithas gomiwnyddol yn bosibl.

Awydd 'sosialaeth fwrgeisaidd' neu 'sosialaeth geidwadol' oedd gwella amodau byw'r dosbarth gweithiol er mwyn dangos i'w aelodau mai cyfundrefn sy'n llesol i bawb yw cyfalafiaeth; hynny yw, y nod yw newid agweddau ar gyfalafiaeth er mwyn ei chadw am byth.

Cydnabu'r 'socialwyr utopaidd' nad oedd cyfalafiaeth yn bod er budd y dosbarth gweithiol, a bod y gweithwyr yn cael eu caethiwo gan gyfalaf. Apelio yr oeddynt hwy ar i'r cyfoethogion, y brenhinoedd a'r ymerodron ddiwygio'r gyfundrefn gyfalafol yn helaeth er mwyn achub y gweithiwr, gorff ac enaid. Sefydasant gymunedau lle gallai'r gweithwyr dderbyn rhagor o ffrwyth eu llafur. Eithr ni bennai'r sosialwyr hyn rôl annibynnol i'r dosbarth gweithiol yn yr ymgyrch i'w ryddhau. Aeth y comiwnyddion utopaidd ymhellach. Sefydasant gymunedau cydweithredol er mwyn dangos sut y gallai'r dosbarth gweithiol gynhyrchu nwyddau a byw mewn cymdeithas fodern, gomiwnyddol heb na pherchnogaeth na rheolaeth gyfalafol, breifat. Penasant rôl i'r dosbarth gweithiol wrth amddiffyn ei fuddiannau ei hun yn erbyn y cyfalafwyr, ac felly, yn y 1820au, sefydlodd dilynwyr Robert Owen yr undeb llafur, torfol, cyntaf yn hanes Prydain ar gyfer gweithwyr di-grefft. Ond ynghyd â'r sosialwyr utopaidd, credai comiwnyddion utopiaidd mai dynion a chanddynt weledigaeth a chyfoeth, yn anad neb, allai ryddhau'r dosbarth gweithiol.

Fel yr esboniodd Engels yn ei Ragymadrodd i argraffiad Almaeneg 1890, amhriodol fuasai galw'r cyhoeddiad yn '*Maniffesto Sosialaidd*' ym 1848 am fod y gair hwnnw yn *{Diwedd 6}* dynodi syniadau adweithiol, bwrgeisaidd neu utopaidd.

Hyd at oes Marx ac Engels, comiwnyddiaeth go iawn oedd cyfuniad o syniadau a mudiadau a anogai'r dosbarth proletaraidd newydd i ddymchwel, yn ddigymrodedd, y drefn gyfalafol. (Ystyr y gair *proles* yn y Lladin gwreiddiol yw 'epil', a'r proletariat, felly, oedd bobl heb unrhyw eiddo ac eithrio eu plant hwy eu hunain). Dyma brif gyfraniad Ffrainc i Farcsiaeth gynnar, sef, gwleidyddiaeth chwyldroadol comiwnyddion Ffrengig fel Graachus Babeuf, arweinydd asgell chwith eithafol y Chwyldro Ffrengig hyd ei ddienyddiad ym 1797.

Prif ffynonellau eraill Marcsiaeth oedd athroniaeth ac iddi wreiddiau Almaenaidd (sef [materoliaeth](#) dilechtyddol ac hanesyddol) ac economeg wleidyddol (gan gynnwys damcaniaethau ynglŷn ag elw ac argyfyngau cyfalafol) ac iddi wreiddiau Seisnig. Ynghyd â'r wleidyddiaeth chwyldroadol, ceir y braslun cyfun cyntaf o dair ffynhonnell syniadaethol Marcsiaeth yn y Maniffesto Comiwnyddol.

Yn ystod y degawdau canlynol, felly, golygai 'Comiwnyddiaeth' fudiad chwyldroadol, dosbarth gweithiol, syniadau'r mudiad hwnnw, a'r fath gymdeithas yr oedd am ei sefydlu. Ond yn dilyn gorchfygu Comiwn Paris gan y [bourgeoisie](#) Ffrengig ym 1871, a dadfeiliad Cymdeithas Ryngwladol y Gweithwyr ym 1874, ac yn wyneb llifeiriant o bropaganda gwrth-Gomiwnyddol yn Ffrainc, Lloegr, yr Almaen a gwledydd Ewropeaidd eraill, arddelodd chwyldroadwyr a gwrthwynebwyr y drefn gyfalafol y geiriau 'sosialaidd' a 'sosialaeth' i ddisgrifio eu hunain, eu pleidiau gwleidyddol newydd a'u cymdeithas ddelfrydol. Wedi marwolaeth Marx ym 1883, daeth yn fwy cyffredin ymhlith sosialwyr i gyfeirio at eu syniadau fel '[Marcsiaeth](#)' yn hytrach na [chomiwnyddiaeth](#), ac at eu hunain fel 'socialwyr Marcsaidd' neu 'Farcswyr'.

Yr oedd Marx ac Engels wedi braslunio disgrifiad o'r gymdeithas a ddylai ddisodli cyfalafiaeth, heb fanylu'n ormodol (gan y byddai hynny'n groes i'w hargyhoeddiad bod rhaid i'r dosbarth gweithiol ennill ei ryddid a chreu cymdeithas newydd o dan amgylchiadau na ellir eu rhagweld). Er mai cymdeithas gomwinyddol fyddai honno, rhagwelent ddwy radd yn ei datblygiad. Ar y dechrau, caiff cynhyrchiant ei gynllunio ar sail perchnogaeth gymdeithasol eang ar y dulliau cynhyrchu, dosbarthu a chyfnewid. Disgrifir y cyfryw drefniant ar ddiwedd Adran II o'r Maniffesto, fel y'i lluniwyd ganrif a hanner yn ôl. Fel y datblygir grymoedd cynhyrchu, cyflenwir anghenion y boblogaeth drwy'r trwch. Gostyngir anghydraddoldeb yn helaeth, o dan yr arwyddair: 'Oddi wrth

pawb yn ôl eu gallu, i bawb yn ôl eu cyfraniad'. Caiff pob math ar ormes ar sail rhyw, hil, neu genedligrwydd ei herio a'i ddileu, o bosib. Bydd y wladwriaeth yn amddiffyn y drefn newydd yn erbyn gwrth-chwyldro.

Credai Marx ac Engels na fyddai'n bosibl i chwyldro proletaraidd lwyddo mewn un gwlad yn unig, ar ei phen ei hun, yn wyneb gelyniaeth gwledydd ac ymerodraethau eraill. Serch hynny, tua diwedd ei oes yn y 1890au, pan welai dwf a nerth yr undebau llafur, y pleidiau sosialaidd a'r cydweithio rhyngdynt, ac wrth ystyried datblygiad anwastad rhwng y gwledydd cyfalafol o ran eu hamodau economaidd a gwleidyddol, peidiodd Engels â phwysleisio'r safbwynt hwnnw.

Gwêl ail radd, uwch, y gymdeithas gomiwnyddol drawsnewidiad i gymdeithas ddi-ddosbarth wedi ei sylfaenu ar lafur boddhaol, creadigol ac ar gydweithrediad a chydraddoldeb cyflawn. 'Llifa pob ffynhonnell cyfoeth cyfrannog yn fwy haelionus,' *{Diwedd 7}* rhagwelai Marx, a bathwyd arwyddair newydd: 'Oddi wrth pawb yn ol eu gallu, i bawb yn ôl eu hanghenion'. Difodir y peirianwaith gwladwriaethol, yn enwedig yr arfau a ddefnyddiwyd gan un dosbarth i orthrymu'r lleill.

Yn ei flynyddoedd olaf, defnyddiai Engels y gair 'socialaeth' fel enw arall ar radd ddatblygiadol gyntaf y gymdeithas gomiwnyddol. Fel y gwnâi'r Undeb Sofietaidd ar ôl Chwyldro Sosialaidd mis Hydref 1917. Ond yn sgil brad y rhan fwyaf o arweinwyr pleidiau sosialaidd a phleidiau llafur Ewrop ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ym 1914, wrth iddynt ochri gyda dosbarthiadau llywodraethol, imperialaidd eu gwledydd eu hunain, gollyngodd Lenin a'r Bolsieficiaid y gair 'socialaidd' o enw eu plaid. Dyna sut y ganed y Blaid Gomiwnyddol yn Rwsia ac yn ddiweddarach yn yr Undeb Sofietaidd, a dyna sut y rhwygwyd pleidiau sosialaidd yn ymron i bob gwlad arall pan sefydlwyd pleidiau comiwnyddol ynddynt.

Yn ystod yr 20fed ganrif, ymdrechodd yr Undeb Sofietaidd a rhai gwledydd yn nwyrain Ewrop yn aruthrol i adeiladu cymdeithas sosialaidd. Llwyddasant i ddileu diweithdra ac eithafion cyfoeth a thlodi ar sylfaen perchnogaeth wladwriaethol a chynllunio economaidd. Rhwng 1950 a 1975, er enghraifft, tyfodd eu cyfran o gynnyrch diwydiannol y byd o lai na 20 y cant i fwy na 40 y cant, gyda graddau twf a oedd bum gwaith yn fwy na'r hyn a geid yn y gwledydd cyfalafol datblygedig. Am y tro cyntaf yn eu hanes, cafodd Rwsia a'r gwledydd sosialaidd eraill gyfundrefnau addysg ac iechyd di-dâl, a threfn a hyrwyddai weithgareddau diwylliannol ar raddfa eang. Lleihawyd i raddau helaeth ragfarn ac annhegwch yn erbyn menywod, Iddewon a chenhedloedd bychain o fewn eu tiriogaethau.

Nid y lleiaf o'r llwyddiannau hyn oedd i'r Fyddin Goch achub pobloedd Ewrop rhag ffasgaeth gyfalafol a gyda'i chynghreiriaid, cefnogodd yr Undeb Sofietaidd fudiadau dros ryddid cenedlaethol yn erbyn imperialaeth ledled y byd. Cyflawnwyd hyn i gyd er gwaethaf ymdrechion gwleidyddol, economaidd a milwrol y Gorllewin i danseilio'r chwyldro sosialaidd a'i fuddiannau.

Ar yr un pryd, 'roedd amgylchiadau anffafriol wedi achosi i'r pleidiau Comiwnyddol llywodraethol droseddu'n ddifrifol wrth ymladd yn erbyn y gwrth-chwyldro ac wrth adeiladu cyfundrefn hollol newydd. Eithriwyd y mwyafrif llethol o bobl o reolaeth ar faterion economaidd a gwleidyddol, treisiwyd cyfreithlondeb sosialaidd gan yr awdurdodau gwladwriaethol eu hunain, a chafodd Marcisiaeth ei thrin fwyfwy fel athrawiaeth anhyblyg, ddogmataidd.

Yn bendifaddau, byddai Marx ac Engels wedi cymeradwyo sylfeini a nodweddion blaengar y cyfundrefnau sosialaidd a welwyd yn yr Undeb Sofietaidd a'r gwledydd sosialaidd eraill. Mae'n annhebygol iawn y byddent wedi cydymdeimlo a llefain rhagrithiol gwleidyddion a deallusion y gwledydd imperialaidd am 'Ryddid', 'Democratiaeth', 'Hawliau Dynol' ac ati. Eithr ni fyddent chwaith yn derbyn diffyg reolaeth gan y dosbarth gweithiol yn ei gyfundrefn economaidd a gwleidyddol honedig ei hun, oni bai fod y sefyllfa yn un anghyffredin, a byrhoedlog.

Yn sicr, byddai Marx ac Engels yn cytuno bod rhaid i chwyldroadwyr heddiw ac yn y dyfodol ddysgu o'r ymdrechion arwrol cyntaf i adeiladu sosialaeth, ac o ymdrechion cyffelyb yng ngwledydd fel Cuba a Tsieina ar hyn o bryd.*{Diwedd 8}*

## **Pa mor berthnasol yw syniadau'r Maniffesto heddiw?**

Beth yw etifeddiaeth y Maniffesto ar ddechrau canrif newydd? Ar ôl 160 mlynedd, mae'n parhau fel y darluniad mwyaf cryno, cynhwysfawr a chraff o ddatblygiad cymdeithas a gyhoeddwyd hyd yn hyn.

Er bod cyfalafiaeth wedi newid cymaint o'i nodweddion yn ystod y cyfnod hwn, oni welwn o'n hamgylch heddiw dystiolaeth nad yw hanfodion y gyfundrefn hon wedi newid? Gwelwn sut mae cyfalaf yn cyfarwyddo datblygiad economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol ar draws y rhan helaethaf o'r byd; sut mae cyfalafiaeth yn dal i chwyldroi yn dechnegol, yn ddiwydiannol, yn fasnachol; sut mae'r dosbarth gweithiol yn parhau yn gaethweision er budd a lles y dosbarth cyfalafol; sut mae'r bwlch o ran amodau byw rhwng y gweithwyr a'r cyfoethogion, rhwng y gwledydd mwyaf datblygedig a'r lleiaf datblygedig, yn lledu ar raddfa fydol; sut mae'r gyfundrefn yn gorymestyn yn gyfnodol, er mwyn elw, trwy gynhyrchu mwy nag y gellir ei ddefnyddio, gan arwain at argyfwng a dirwasgiad, a dinistrio cyfryngau a dulliau cynhyrchu ar raddfa enfawr; sut mae gan bopeth ei le a'i bris yn y farchnad gyfalafol, beth bynnag ei werth i ddynolryw ac i gymdeithas wâr; sut mae'r wladwriaeth gyfalafol yn gweithredu, yn anad dim, er budd y dosbarth cyfalafol.

Deil yr un gwrthddywediadau cyfalafol hefyd: rhwng grymustersau cynhyrchu enfawr ar y naill law a pherchnogaeth gyfyng ar y grymustersau hynny, wedi ei sylfaenu ar eiddo economaidd preifat yn nwylo lleiafrif bychan, ar y llall; rhwng buddiannau'r ychydig ac anghenion y lliaws; rhwng y chwant di-baid, digydwylbod am adnoddau crai ac anghenion y blaned a buddiannau cenedlaethau yn y dyfodol; rhwng hawliau democrataidd a chyfiawnder i bobl orthrymedig o bob math, a chyfundrefn wedi ei sylfaenu ar chwant am elw ac anghydraddoldeb.

Ar yr un pryd, ysbrydolwyd ac ysbrydolir miliynau o bobl ym mhedwar ban y byd gan syniadau'r Maniffesto sy'n eu hannog i herio ac i drawsnewid eu hamodau byw. Dealla Sosialwyr a Chomiwnyddion wir anian cyfalafiaeth. Deallant weithgareddau'r cyfalafwyr a'u cyfundrefn economaidd a'u gwladwriaethau. Deallant fod yn rhaid i'r dosbarth gweithiol gipio grym gwleidyddol i'w ddwylo ei hun, er mwyn creu peirianwaith gwladwriaethol newydd a difeddiannu'r dosbarth cyfalafol yn llwyr. Deallant hefyd fod sylfaen wrthrychol yn y gymdeithas gyfalafol i'w galluogi hwy i greu clymblaid eang o bobl yn y frwydr i ddymchwel cyfundrefn wastraffus, ormesol, ryfelgar.

Mae Comiwnyddion a Marcswyr eraill ar y blaen o hyd yn y gwahanol frwydrau ledled y byd i wella safonau gwaith a safonau byw, i sefydlu ac i ddiogelu undebaeth lafur, i wrthsefyll ffasgaeth ac imperialaeth, i sicrhau hawliau democrataidd ac i ehangu rhyddid. Ymhellach, oddi ar cwmp yr Undeb Sofietaidd, mae'r Drefn Newydd Americanaidd sy'n rheoli'r byd, a grym ei monopoli di-ffiniau a ategir gan derfysgaeth wladwriaethol, wedi rhoi hwb i'r Pleidiau Comiwnyddol o Dde Affrica i Gupros, o India i Frasil a Venezuela. 'Sosialaeth yw Gobaith y Byd' oedd honiad posterî a baneri cynnar mudiadau'r dosbarth gweithiol yng Nghymru, dros gan mlynedd yn ôl. Deil hynny'n wir yn oes y drefn imperialaidd ddiweddaraf a elwir heddiw yn 'globaleiddio' ac a ragwelwyd yn y Maniffesto Comiwnyddol ym 1848.*{Diwedd 9}*

## **Y Maniffesto Comiwnyddol yn Gymraeg**

Cyhoeddwyd y Maniffesto yn Gymraeg am a tro cyntaf ym 1948 gan Bwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol, i ddathlu canmlwyddiant y cyhoeddiad gwreiddiol, cyntaf. Seiliodd W J Rees ei gyfieithiad ar y pedwerydd argraffiad Almaeneg (1890), pan olygodd Frederick Engels ei hun y gwaith ac ychwanegu nodiadau ato.

Dyma'r cyfieithiad Cymraeg a geir yn y pamffled hwn. Mae'n enghraifft ragorol o ryddiaith Gymraeg, ysgolheigaid, canol yr ugeinfed ganrif ond mentrwyd newid ychydig arno am fod ystyron rhai geiriau wedi newid yn ystod y trigain mlynedd diwethaf ac am fod astudiaethau diweddar wedi bwrw goleuni newydd ar rai cysyniadau. Ymgwymerwyd y gwaith hwn ar ran y Blaid Gomiwnyddol Cymreig gan Gwyn Griffiths a Gareth Miles.

Robert Griffiths

Awst 2008



## RHAGAIR I GYFIEITHIAD 1948

1948 ydyw canmlwyddiant y *Manifesto Comiwnyddol*, ac fe fydd miliynau o bobl ym mhob gwlad eleni yn dathlu clod yr achlysur mawr hwn. Fe ddarllenwyd y cyfieithiad Saesneg yn eang yng Nghymru ers rhai degau o flynyddoedd, a bu'n fodd i ysbrydoli glowyr a gweithwyr Deau Cymru, ddeugain mlynedd yn ôl, i arwain y frwydr dros Addysg Farcsaidd yn y mudiad Llafur.

Yn ystod y can mlynedd diwethaf, fe geisiwyd lawer gwaith ladd y *Manifesto* trwy ddadl, trwy wawd a dirmyg, neu ynteu trwy ei wahardd yn uniongyrchol, eithr ni lwyddwyd. Fe gynyddodd nifer ei ddilynwyr wrth y miloedd ac fe weithredir ei egwyddorion dros chwarter y ddaear. Nid rhith mo Comiwnyddiaeth bellach. Y mae'n fudiad nerthol sy'n parhau i dyfu, mudiad sy'n peri dychryn i gyfalafwyr cefnog Prydain ac America, eithr mudiad syn dwyn gobaith i weithwyr a thyddynwyr a phobl flaengar dros yr holl fyd.

Y mae'n briodol i'r Blaid Gomiwnyddol, yr unig blaid sy'n cyfuno'r frwydr dros ryddid cenedlaethol â'r frwydr o blaid Sosialaeth, dathlu'r canmlwyddiant hwn gyda chyfieithiad Cymraeg o'r *Manifesto*. Ar adeg pan fo diddordeb yn yr iaith Gymraeg ar gynnydd, fe leinw hefyd fwllch pwysig yn llenyddiaeth Cymru.

Fe ysgrifennwyd y Rhagymadrodd i'r *Manifesto*, a chyfieithwyd y *Manifesto* ei hunan, gan Mr W. J. Rees, gŵr gradd mewn Hanes yng Ngholeg Aberystwyth, a myfyriwr ar hyn o bryd mewn Athroniaeth a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Yn ei ddyddiau cynnar yn Ysgol Sir Aber Gwaun, bu Mr Rees yn ddisgybl i ddau Gymro disglair iawn, Mr J. J. Evans, hanesydd a gramadegydd Cymreig, a Mr D. J. Williams, llenor enwog ac awdur *Hen Wynebaw*. Yn ystod y rhyfel ac wedi hynny, bu Mr Rees yn ddarlithydd i'r Lluoedd Arfog yn y wlad hon ac yn yr Almaen, a bu rhwng 1944 a 1946 yn ddarlithydd allanol ym Mhrifysgol Bryste.

Fe ddymuna'r Blaid Gomiwnyddol ddatgan iddo ei gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth a rydd y cyfieithiad hwn i'r mudiad Comiwnyddol ac i werin Cymru.

Idris Cox

Ysgrifennydd Pwyllgor Cymreig y Blaid Gomiwnyddol, 1948.

# NODIAD

Fe seiliwyd y cyfieithiad presennol ar y pedwerydd argraffiad Almaeneg, 1890. Fe ddefnyddiwyd yr argraffiad hwn yn arbennig am mai dyma'r argraffiad sy'n cynnwys nodiadau eglurhaol gan Engels, nodiadau a ymddangosodd gyntaf oll yn argraffiad Saesneg 1888. Fe welir y nodiadau hyn ar waelod y tudalen, ag eithrio pan ddywedir yn bendant mai nodiadau'r cyfieithydd ydynt. Y mae rhai gwahaniaethau rhwng y nodiadau yn y ddau argraffiad a enwyd, ac fe eill y darllenydd weld beth ydynt o gymau'r cyfieithiad hwn â'r cyfieithiad Saesneg presennol.

Ynglŷn â geirfa. Fe ddefnyddir rhai geiriau yn y *Manifesto* nad oes eiriau cyfwerth iddynt yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Er mwyn osgoi bod yn glogyrnaidd bu'n rhaid bathu geiriau mewn rhai manau. Sylwer, felly ar y tair ffurf a ganlyn a ddefnyddiwyd gennym:

Bwrgeis.iwr, .wyr, .iol, am *bourgeois*, *bourgeoisie*, etc.

Mân-fwrgeis.iwr, .wyr, .iol, am *petty bourgeois*, etc. (Almaeneg: *Kleinbürger*, etc.)

Llawddiwydiant am *manufacture* (Almaeneg: *Manufaktur*) yn yr ystyr dechnegol Marx o ddiwydiant cyfalafol cyn-beiriannol.

# Rhagymadrodd y Cyfieithydd

W. J. Rees, 1948

Y MAE *Manifffesto'r Blaid Gomiwnyddol* a gyhoeddir yn awr am y tro cyntaf yn yr iaith Gymraeg yn gan mlwydd oed eleni. Cyhoeddwyd ef gyntaf yn yr iaith Almaeneg yn Chwefror 1848 fel rhaglen wleidyddol cymdeithas fechan o weithwyr a meddylwyr a'i galwai ei hunan yn Gynghrair y Comiwnyddion. Heddiw y mae'r mudiad Comiwnyddol yn llywodraethu dros chwarter y byd ac yn peryglu awdurdod yr hen lywodraethau bron ym mhobman.

Un peth yn unig a eill esbonio'r ffaith hon, sef bod Comiwnyddiaeth yn mynegi cwrs datblygiad hanes ac yn ateb dyheadau dynion am fyd gwell.

Y mae'n hen bryd i ninnau yng Nghymru, felly, ddangos y parth sy'n ddyledus i'r *Manifffesto*. Y mae'n hen bryd inni ei droi i'n hiaith ein hunain a dysgu'r hyn a fedrwn am y ddau ŵr maer a'i hysgrifennodd, am y syniadau chwyldroadol a roesant i'r byd, ac am arwyddocâd y syniadau hynny i ni sy'n Gymry.

## I

### KARL MARX

Ganed Karl Heinrich Marx yn ninas Trier (Trèves) yn yr Almaen Mai 5, 1818. Yr oedd ei dad yn gyfreithiwr o ffydd Iddewig unionged, eithr troes gyda'r holl deulu yn Gristion a Phrotestant yn 1824. Yn 1835 danfonwyd Karl, ac yntau'n un ar bymtheg oed, i Brifysgol Bonn i astudio'r Gyfraith, ac yn 1836 i Brifysgol Berlin. Cyrhaeddodd Berlin bum mlynedd wedi marw'r athronydd mawr, Hegel, a fu'n darlithio yno mewn athroniaeth a gwleidyddiaeth hyn 1831. Ymunodd Karl â chylch yr Hegeliaid Ieuainc a bu dylanwad Hegel yn un o'r dylanwadau pwysicaf yn ei holl fywyd. Gymaint oedd dylanwad Hegel arno nes peri iddo, wedi marw ei dad yn 1838, adael y Gyfraith a throi i astudio Hanes ac Athroniaeth. Fe enillodd radd Doethor mewn Athroniaeth yn 1841.

Yna daeth y tro mawr ar ei fywyd. Hyd ddechrau 1841 yr oedd gan Marx obeithion cryfion am swydd darlithydd mewn Athroniaeth ym Mhrifysgol Bonn, eithr yn haf 1841 caewyd drysau prifysgolion yr Almaen yn erbyn yr Hegeliaid Ieuainc ac aeth gobeithion Marx gyda'r gwynt. Troes yntau yn chwyldröwr am y gweddill o'i oes. Chwyldrowr Rhyddfrydol ydoedd ar hyn o bryd fel bron pob chwyldröwr arall ar y cyfandir. Eithr rhwng 1841 ac 1843 bu'n cyfrannwr i "Amserau'r Rhein" (*Rheinische Zeitung*)—papur newydd a sefydlwyd gan Ryddfrydwyr y Rheindir—ac yna'n olygydd arno. Trwy gyfrwng y newyddiadur hwn daeth wyneb yn wyneb â phroblemau bywyd pobl dlodion y Rheindir, a hefyd, am y tro cyntaf, daeth i gysylltiad â Sosialwyr Ffrainc. Fe ymddengys taw'r dylanwadau hyn a droes Marx yn chwyldröwr Sosialaidd rhwng 1841 ac 1844.

Pan waharddwyd cyhoeddi'r *Rheinische Zeitung* gan lywodraeth Prwsia yn gynnar yn 1843 fe benderfynodd Marx fynd am gyfnod i Baris. Cyn mynd, fe briododd ym Mehefin 1843 â merch brydferth, ddiwylliedig iawn, o deulu bonheddig, sef Jenny von Westphalen, merch i Ludwig von Westphalen, Cyfrin Gynghorwr i Ddug Brwnswig. Yna aethant, ill dau i Baris, ac ymunodd Marx ac Arnold Ruge i gyhoeddi cylchgrawn Ffrengig-Almaenaidd, *Deutsch-französische Jahrbücher*.

Ym Mharis yn 1844 fe gwrddodd Marx am y tro cyntaf â Friedrich Engels, gŵr o Almaenwr oedd

ddwy flynedd yn iau nag ef ei hunan. Mab ydoedd Engels i felinydd cotwm, a gŵr tra chyfoethog, o Barmen yn yr Almaen. Fe gafodd addysg gyffredinol mewn ysgolion yn Barmen ac yn Elberfeld, ac fe'i danfonwyd yn 1842 i Loegr i ofalu am fuddiannau ei dad yn ei ffatri ym Manceinion. Dan ddylanwad yr hyn a welai yn Lloegr yr oedd yntau, fel Marx, yn troi'n Sosialydd, a chyfrannodd yn fuan nifer o erthyglau i bapur Robert Owen, *The New Moral World*, ac i bapur y Siartiaid, *The Northern Star*. Pan ymwelodd â Marx ym Mharis, gwelodd y ddau ŵr fod ganddynt gydymdeimlad dwfn â'i gilydd, a buont yn gyfeillion a chyd-weithwyr byth wedyn.

Ffrwyth cyntaf eu cydweithrediad oedd llyfr a ysgrifenasant ill dau dan y teitl "Y Teulu Santaidd" (*Die Heilige Familie oder Kritik der kritischen Kritik*, 1845). Gwaith ydoedd yn beirniadu athroniaeth Bruno Bauer a'r Hegeliaid Ieuainc, a dengys yn eglur pa mor bell yr oedd meddwl Marx wedi datblygu rhwng 1841 ac 1844. Yn haf 1845 cyhoeddodd Engels *Cyflwr y Dosbarthiadau Gweithiol yn Lloegr yn 1844*. Canlyniad gwaith Marx oedd i lywodraeth Guizot ei alltudio o Baris ar gais llywodraeth Prwsia. Fe aeth Engels ac yntau, felly i Frwsel lle cyhoeddodd Marx yn 1847 ei lyfr "Tlodi Athroniaeth" (*Misère de la Philosophie*), gan ateb gwaith y Sosialydd Ffrengig Proudhon, "Athroniaeth Tlodi" (*Système des Contradictions économiques ou Philosophie de la Misère*, 1846). Yr oedd Marx erbyn hyn yn feirniadol iawn ar y Sosialwyr Ffrengig hefyd, yn enwedig ar y damcaniaethau utopaidd, ac yn *Tlodi Athroniaeth* dymchwelodd holl gyfundrefn athronyddol Proudhon heb fawr o drafferth. O hynny ymlaen, Marx oedd prif arweinydd y mudiad Sosialaidd yn Ewrop.

Tua'r adeg hon y clywodd Cynghrair y Comiwnyddion am syniadau a damcaniaethau Marx. Cymdeithas gudd, gydwladol ydoedd Cynghrair y Comiwnyddion, a'u haelodau'n weithwyr gan mwyaf, a'i chredo'n gorffwys ar syniadau Comiwnyddol amrwd Wilhelm Weitling, un o Sosialwyr yr Almaen. Gwahoddodd y gymdeithas Marx ac Engels i annerch cynhadledd o'i chynrychiolwyr yn Llundain yn Nhachwedd 1847. Fe argyhoeddwyd y gynhadledd yn llwyr gan y ddau ddyn, a phenderfynodd, ganlyniad, gyhoeddi eu syniadau mewn maniffesto yn cynnwys rhaglen wleidyddol y gymdeithas.

Felly y cyhoeddwyd yn Chwefror 1848 un o'r pamffledi enwocaf a'r mwyaf dylanwadol yn hanes y cyfnod modern, sef *Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol*. Er mai Marx ei hunan a ysgrifennodd y drafft, fe'i cyhoeddwyd yn enw'r ddau ddyn, a chafodd lwyddiant a dylanwad syfrdanol. Yr oedd yna dri pheth yn cyfrif am hyn. (1) Yr oedd yn *Maniffesto* ei hun yn waith huawdl dros ben, a'i arddull yn fachog a deifiol a diamwys. (2) Yr oedd ei ddealltwriaeth o hanes, yn enwedig hanes economaidd, yn feistrolgar i ryfeddu, ac yn gwbl gadarnach na dim grëwyd gan y mudiad llafur erioed o'r blaen; mewn gair, fe osodwyd y syniadau Sosialaidd newydd am y tro cyntaf mewn diwyg clasurol. (3) Yr oedd y mudiad llafur ei hunan bellach yn barod i dderbyn y syniadau, canys rai wythnosau wedi cyhoeddi'r *Maniffesto* fe ddigwyddodd chwyldro ym Mharis, a gweithwyr Paris am y tro cyntaf yn cymryd rhan ynddo fel dosbarth annibynnol. Am y rhesymau hyn fe gafod y *Maniffesto* gyhoeddusurwydd ar unwaith, ac o hynny ymlaen fe ddatblygodd dylanwad y syniadau sylfaenol a gorfforwyd ynddo gam a cham â datblygiad mudiad chwyldroadol y gweithwyr. Daeth y *Maniffesto* ei hunan yn un o brif glasuron y mudiad Comiwnyddol, ac yn un o'r gweithiau mwyaf dylanwadol yn hanes y byd yn ystod y can mlynedd sydd newydd orffen.

Eithr gwan iawn ydoedd mudiad y gweithwyr yn 1848, ac fe'i dinistriwyd yn fuan. Yn 1849 gorfu i Marx ddianc i Lundain ac yno y bu fyw am weddill ei oes. Yr amser caletaf yn ei holl fywyd oedd y deng mlynedd rhwng 1849 ac 1859. Lladdwyd y mudiad Sosialaidd yn gorn yn Ffrainc ac yn yr Almaen, ac yr oedd Marx ei hunan erbyn hyn heb arian nac incwm o unrhyw fath, ag eithrio'r gini achlysurol a gâi am ei erthyglau i'r *New York Daily Tribune*. Fe fedrodd ef a'i wraig fyw yn eu hystafelloedd bychain yn Dean Street, Soho, ar garedigrwydd Engels, eithr nid heb niweidio'u hiechyd yn ddirfawr, ac yn enwedig iechyd eu plant. Yn wir, bu i'r plant a anwyd iddynt cyn y cyfnod hwn farw i gyd yn eu hieuentid, a phan fu fawr eu hunig fab, Edgar, yn 1855, o'r braidd na

bu i ysbryd Marx dorri. Eto i gyd, yn y cyfnod hwn y dechreuodd Marx ar y gwaith a rydd iddo le parhaol ymhlith meddylwyr mawr Ewrop, sef, ei astudiaeth o economeg cymdeithas gyfalafol. Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg disgyblaeth Seisnig yn anad dim ydoedd Economeg, ac yr oedd sylfaenwyr y wyddor newydd hon yn Lloegr, Adam Smith a David Ricardo, wedi dylanwadu rhywfaint ar Marx cyn iddo gyhoeddi'r *Maniffesto* yn 1848. Ond fe aeth yntau ati yn awr i'w hastudio a'u beirniadu o ddifrif. Ffrwyth ei lafur oed y gweithiau mwyaf aeddfed ac awdurdodol a ysgrifennodd, sef, "Cyfraniad Tuag at Feirniadaeth ar Economeg" (*Zur Kritik der politischen Ökonomie*) a gyhoeddwyd yn 1859, a "Cyfalaf" (*Das Kapital*) y cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf ohono yn 1867. Bu dylanwad *Cyfalaf* yn ddylanwad hollbwysig yn hanes Economeg yn Ewrop.

Cyn i Marx gyhoeddi *Cyfalaf* yr oedd y mudiad llafur wedi atgyfodi eto yn Ewrop, ac yn gryfach o lawer yn awr nag yn 1848. Yn 1864 ffurfiwyd yn Llundain Gymdeithas Gydwladol y Gweithwyr, a Marx yn ei harwain ym mhopeth ond mewn enw. Y blynyddoedd o 1864 hyd 1871 ydoedd rhai mwyaf llwyddiannus y Gymdeithas fe gyfododd dadl y tu mewn iddi rhwng Marx a Bakunin, yr anarchydd o'r Swistir. Fe gredai Bakunin na ellid sicrhau Sosialaeth ag eithrio trwy wneud i ffwrdd am byth â'r wladwriaeth; fe gredai Marx na ellid ei sicrhau ag eithrio trwy sefydlu gwladwriaeth newydd, sef, gwladwriaeth y gweithwyr. Er mai dadl ddamcaniaethol ydoedd ar y dechrau, yr oedd yn ddadl chwerw, ac aeth yn ymarferol bwysig pan sefydlodd gweithwyr Paris eu llywodraeth eu hunain, sef y *Commune*, yn ystod y rhyfel rhwng Ffrainc a Phrwsia yn 1871. Er mai Marx oedd yn gywir, fe holltwyd y *Commune* a'r Gymdeithas yn ddwy gan y ddal, a phan ddifethwyd y *Commune*, fe ddadfeiliodd y Gymdeithas yn gyflym. Eithr bu fyw'n ddigon hir i adael ar ei hôl draddodiad o unoliaeth ymhlith gweithwyr Ewrop a fu'n bwysig yn eu hanes byth wedyn.

Wedi cwmp *Commune*, ac o herwydd yr ymosodiadau afresymol a wnaethpwyd arno gan haneswyr a gwleidyddwyr yr adwaith, fe ysgrifennodd Marx yn 1871 ei bamffled *Y Rhyfel Cartref yn Ffrainc* er mwyn ei amddiffyn. Yna aeth yn ôl at ei astudiaethau economaidd a bu gweddill ei ddyddiau yn gymharol ddigyffro. Treuliodd y rhan fwyaf ohonynt, er gwaethaf llawer iawn o afiechyd yn casglu deunydd ar gyfer y cyfrolau olaf o'i waith mawr, *Cyfalaf*. Ni orffennodd y gwaith, eithr gwelodd ei syniadau yn lledaenu, a mudiad y gweithwyr y rhoes ei fywyd a'i athrylith i'w wasanaethu yn ennill tir ym mhobman. Ar y ail ar hunain o Ragfyr 1881, bu farw ei wraig, Jenny, a fu'n deyrngar iddo ar hyd y blynyddoedd er gwaethaf tlodi ac erledigaeth, ac er marw tri o'i phlant. Bu ei cholli yn ergyd drom iddo. Bu farw yntau bymtheg mis yn ddiweddarach, sef, Mawrth 14, 1883. Claddwyd ef gyda'i wraig ym mynwent Highgate yn Llundain.

Bu Engels fyw ddeng mlynedd yn hwy. Rhoes y cyfan o'i allu i gyhoeddi hynny o waith Marx a adawyd ar ei ôl, gan gynnwys dwy gyfrol anorffenedig o'i waith, *Cyfalaf*. Gwnaeth ei orau hefyd i lenwi lle Marx fel arweinydd y mudiad llafur yn Ewrop. Bu farw yntau ar Awst 5, 1895.

Wedi mawr Marx ac Engels fe symudodd arweiniad mudiad chwyldroadol y gweithwyr o Orllewin i Ddwyrain Ewrop, ac i ddwylo dau o'u disgyblion galluocaf, sef Lenin a Joseph Stalin. Yr oedd sŵn y chwyldro a roes ddamcaniaethau Marx ar eu prawf, ac a'u profodd hwynt yn gywir y tu hwnt i obeithion Marx a'r tu hwnt i ddychryn pennaf yr hen gyfandir.

## II

### COMIWNYDDIAETH

Yr oedd y mudiad Comiwnyddol yn bod cyn geni Marx, a chyfraniad pwysicaf Marx tuag ato oedd y corff o ddamcaniaeth a gyflwynodd iddo. Beth, felly, oedd y mudiad Comiwnyddol hwn, a beth oedd y ddamcaniaeth a gyflwynwyd iddo gan Marx?

Fe darddodd y mudiad Comiwnyddol o nifer o ffynonellau yn Ffrainc a Lloegr yn ystod deugain mlynedd cynaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y tir hanesyddol y tarddodd ohono oedd y chwyldro diwydiannol a droes wledydd gorllewin Ewrop, tua dechrau'r ganrif, o fod yn wledydd amaethyddol yn bennaf, i fod yn wledydd diwydiannol modern.

Yr oedd dwy agwedd ar y chwyldro hwn. Ar un olwg, yr oedd yn un o orchestion pennaf gwareiddiad. Creodd gyfoeth na freuddwydiwyd amdano o'r blaen, a rhoes gyfle am y tro cyntaf i ryddhau dynion o'u caethiwed i angenrheidiau materol bywyd. Ar olwg arall, yr oedd yn drychineb gyda'r mwyaf. Fe berchnogid y moddion cynhyrchu newydd—y ffatrioedd, y pyllau glo, y ffwrneisiau, y rheilffyrdd, yr agerlongau, etc.—gan nifer bychan o unigolion, ac fe aeth y rhelyw o weithwyr y wlad yn weithwyr cyflog iddynt hwy. Crewyd dosbarth newydd o gyfoethogion, sef, y perchnogion eiddo diwydiannol, y cyfalafwyr, a dosbarth newydd o dlodion, sef, y dosbarth gweithio dieiddo, y proletarwyr. Yn lle rhyddhau dynion o'u caethiwed i angenrheidiau materol bywyd, fe greodd y diwydiant newydd dlodi a chaethiwed newydd i'r mwyafrif enfawr.

Fe gyfododd y mudiad Comiwnyddol i geisio datrys y paradocs hwn. Yn y pen draw, yr oedd i'r mudiad Comiwnyddol yr un amcanion â'r mudiad Rhyddfrydol, sef, chwyddo cynnyrch diwydiannol cymdeithas, a dosbarthu cyfoeth cymdeithas yn fwy cyfartal rhwng unigolion. Ond yr oedd amcanion uniongyrchol y ddau fudiad yn gwbl wahanol. Fe geisiai'r Rhyddfrydwyr gyrraedd eu hamcanion o fewn terfynau dulliau cyfalafol o gynhyrchu, gan ddibynnu ar haelioni a goleuni'r dosbarthiadau uchaf i'w cynorthwyo. Eithr fe gredai'r Comiwnyddion na ellid sicrhau'r amcanion hyn heb drosglwyddo'r diwydiannau mawrion newydd o ddwylo unigolion i ddwylo cymdeithas. Yn ddigon naturiol, mudiad y dosbarth canol diwydiannol oedd y naill a mudiad y gweithwyr y llall.

Arweinwyr cyntaf mudiad y gweithwyr ydoedd Robert Owen ym Mhrydain, a Saint-Simon, Fourier, a Cabet yn Ffrainc. Er bod gwahaniaethau yn eu safbwynt, fe gredai'r pedwar hyn yn gadarn mewn tri pheth: (1) ei bod yn ymarferol bosib sefydlu cymdeithas newydd ar gynllun Comiwnyddol, (2) y byddai cymdeithas o'r fath yn gymdeithas well na'r gymdeithas bresennol, a (3) y gellid, o ganlyniad, sefydlu'r gymdeithas newydd ond argyhoeddi'r ddynoliaeth yn gyffredinol o wirionedd y ddau bwynt cyntaf. Fe geisiodd y meddylwyr hyn, felly (ag eithrio Saint-Simon), ennill cefnogaeth i'w cynllun Comiwnyddol trwy wneud arbrofion cymdeithasol y byddai eu llwyddiant yn argyhoeddi'r byd o'u daioni. Amlinellodd Fourier gynllun ar gyfer cymdeithasau Comiwnyddol neu *Phalanstères*, creodd Robert Owen drefedigaeth Gomiwnyddol, *New Harmony*, yn Indiana yn America, a sefydlodd Cabet drefedigaeth arall, *Icaria*, yn Texas yn yr un wlad. Fe fethodd yr arbrofion hyn i gyd, gan greu, o ganlyniad, argyfwng dwfn yn y mudiad Comiwnyddol yn Ewrop. Eithr yn yr argyfwng hwn yr ymunodd Marx â'r mudiad gan roddi iddo ddamcaniaeth arall a'i droi i gyfeiriad newydd.

Beth, gan hynny, ydoedd damcaniaeth Marx?

Fe dderbyniai Marx y pwynt cyntaf a'r ail yn namcaniaeth y Sosialwyr uchod, eithr gwrthodai'r trydydd pwynt, hynny yw, fe dderbyniai ei bod yn ymarferol bosibl sefydlu cymdeithas newydd ar gynllun Comiwnyddol, ac y byddai cymdeithas o'r fath yn well cymdeithas na'r gymdeithas gyfalafol bresennol, eithr gwadai y gellid ei sefydlu trwy apelio at ewyllys da'r ddynoliaeth yn gyffredinol. Ei gyfraniad mawr tuag at y mudiad, felly, oedd cynnig ateb arall i'r trydydd pwynt uchod. Ei ateb oedd na ellid sefydlu cymdeithas Gomiwnyddol ond trwy weithio o fewn y terfynau a osodir gan ddeddfau hanes. Er mwyn deall arwyddocâd cyflawn yr ateb hwn, y mae'n rhaid deall damcaniaeth Marx ynglŷn â natur a chyfeiriad hanes.

## Deddfau Hanes

Fe ddylanwadwyd yn drwm ar feddwl Marx, fel y gwelwyd, gan yr athronydd Hegel. Fe ofynnodd

Hegel ddau gwestiwn pwysig ynglŷn â hanes: (1) ai digwyddiadau damweiniol a diachos ydyw digwyddiadau hanes, neu ynteu a oes rhyw achos arbennig a eill esbonio digwyddiadau arbennig mewn hanes, a rhyw achos **sylfaenol**—rhyw ddeddf hanes—a eill esbonio cyfeiriad hanes yn **gyffredinol**; a (2) os oes ddeddf y tu cefn i ddigwyddiadau hanes, beth mewn gwirionedd ydyw'r ddeddf? Ateb Hegel, a'i roi'n blwmp ac yn foel, oedd: (1) mai peth afresymol ydyw credu mai digwyddiadau cwbl ddiachos ydyw digwyddiadau hanes, a'i bod yn rhaid credu hefyd, nid yn unig bod rhyw achos arbennig i bob digwyddiad arbennig, eithr bod rhyw achos **sylfaenol** sy'n esbonio'r cwrs **cyffredinol** a gymerwyd gan hanes y byd; a (2) mai'r achos sylfaenol hwn—neu'r ddeddf sylfaenol hon—oedd ymdrech dyn i gynyddu ei ryddid yn y byd.

Man cychwyn y rhan fwyaf o ddamcaniaethau Marx oedd y ddamcaniaeth hon o eiddo Hegel. Oblegid fe dderbyniodd Marx y safbwynt hwn, gan ei feirniadu ac ychwanegu ato. Fe dderbyniodd ateb Hegel i'r ddau gwestiwn ond hanner yr ateb, hynny yw, fe gredai nad oedd ymdrech dyn i gynyddu ei ryddid ond un agwedd ar ymdrech sylfaenol dyn yn y byd. Fe geisiodd ei hunan, felly, ddangos beth oedd yr agwedd arall.

## Y Ddeddf Gyntaf—Y Ddeddf Sylfaenol

Fe gredai Marx, gyda Hegel, fod yr ymdrech i gynyddu rhyddid yn rhan o ddeddf sylfaenol hanes, eithr, yn wahanol i Hegel, fe gredai na ellid cynyddu rhyddid heb gynyddu cynnyrch materol. Yn ôl Marx, ni eill dyn fod yn rhydd oni i'r graddau nad ydyw'n gaeth i angenrheidiau materol bywyd. Amod rhyddid, felly, yn y pen draw, ydyw cynnyrch a chyfoeth materol. Gan hynny, fe welir nad oedd ateb Hegel ond hanner y gwir: **y mae deddf sylfaenol hanes yn ddeddf cynyddu cynnyrch yn ogystal â deddf cynyddu rhyddid.**

Fe gredodd Marx fod darganfod y ddeddf hon yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes meddwl ei oes, oherwydd ei fod yn dangos bod deddf sylfaenol hanes yn ddeddf fesuradwy ac yn gosod, felly, am y tro cyntaf, seiliau gwyddonol i astudiaeth hanes.

Eithr fe gyfododd un anhawster. Fe rydd hanes y byd enghreifftiau lawer o gyfnodau pan fydd rhyddid a chynnyrch yn pallu, yn ogystal â chyfnodau pan fydd rhyddid a chynnyrch yn cynyddu: cyfnodau o adwaith yn ogystal â chyfnodau o ddatblygiad. Yn rhyfeddach fyth, ceir cyfnodau o chwyldro pan ymddengys fel pe bai digwyddiadau hanner canrif wedi eu pentyrru at ei gilydd o fewn un pythefnos. Sut, gan hynny, y gellir cysoni'r ffeithiau anwadadwy hyn â'r ddeddf sylfaenol uchod?

## Yr Ail Ddeddf—Deddf y Frwydr Dosbarth

Ateb Marx oedd bod yna ddeddf arall yn rhedeg ar adegau'n groes i'r ddeddf sylfaenol, ac mai'r ddeddf hon oedd yn esbonio'r ffeithiau uchod. Y ddeddf hon yw deddf y rhyfel dosbarth.

Ar adeg arbennig yn hanes cymdeithas fe ymrannodd cymdeithas yn nifer o ddosbarthiadau economaidd a'u buddiannau yn gwrthdaro â'i gilydd. O'r sail hanesyddol a chymdeithasol hon y cyfododd y rhyfel dosbarth. O safbwynt y rhyfel hwn, prif amcan y dosbarth llywodraethol ydyw cadw'r llywodraeth yn ei ddwylo ei hun; fe wrthwyneba gyfnewidiadau cymdeithasol, fe air i ddiwylliant a chynnyrch sefyll fwyfwy yn eu hunfan, ac fe ddibynna fwyfwy ar rym arfau i sicrhau ei awdurdod. Prif amcan dosbarth darostyngedig yw ei rhyddhau ei hunan o'i gaethiwed i'r dosbarth llywodraethol a'i sefydlu ei hunan yn ddosbarth llywodraethol newydd, fe gefnoga gyfnewidiadau mewn diwylliant a chynnyrch, fe fynna hawliau democrataidd, ac o bryd i'w gilydd fe gynhyrfa ddiwygiad gwleidyddol neu chwyldro cymdeithasol. Cyfnod y chwyldro ydyw'r cyfnod pan syrthia'r

grym gwleidyddol o ddwylo'r dosbarth llywodraethol i ddwylo'r dosbarth darostyngedig—cyfnod o argyfwng dwfn pan siglir yr hen gymdeithas i'w gwraidd, a chyfnod o anhrefn cyn llwyddo o'r dosbarth llywodraethol newydd i ail-lunio'r gymdeithas ar gynllun sy'n fwy cyson â'i ewylllys ei hunan.

Mewn gair, er pan ymrannodd cymdeithas yn nifer o ddosbarthiadau, ymddangosodd deddf eilradd a red ochr yn ochr â'r ddeddf sylfaenol. Pan gyd-reda'r ddwy ddeddf, hynny yw, pan gyd-reda ymdrechion y dosbarth llywodraethol â dyheadau cymdeithas am fwy o gynnyrch a rhyddid, fe geir datblygiad; pan drecha buddiannau'r dosbarth llywodraethol y ddeddf sylfaenol hon, fe geir adwaith; a phan drecha'r ddeddf sylfaenol awdurdod y dosbarth llywodraethol, fe geir chwyldro.

## Ansawdd y Deddfau

Y mae'r ddwy ddeddf yn debyg i'w gilydd yn hyn o beth, mai deddfau tuedd ydyw'r ddwy yn hytrach na deddfau rhaid. Nid deddfau rhaid ydynt—deddfau lle y ceir y canlyniadau yn dilyn yr achosion yn ddiffael—oblegid ymhlith yr achosion y mae pwrpas dynion, ac nid yw gweithredoedd dynion yn dilyn eu pwrpas bob amser, er eu bod yn **tueddu** gwneud hynny. Yn hyn o beth, felly, y mae deddfau hanes yn wahanol i rai o ddeddfau enwog y gwyddorau naturiol. Ni ellir proffwydo'r dyfodol i sicrwydd ar eu sail, eithr fe ellir proffwydo yr hyn sydd **debycaf** o ddigwydd.

Y gwahaniaeth cyntaf i'w nodi rhwng y ddwy ddeddf yw bod y ddeddf sylfaenol yn gryfach na'r ddeddf eilradd yn y pen draw. O'r ddwy ddeddf, fe welir nad ydyw'r ddeddf eilradd yn rhan hanfodol o ddatblygiad hanes, oblegid, fel y gwelwyd, ni fu'n bod o gwbl cyn i gymdeithas ymrannu'n nifer o ddosbarthiadau economaidd. Fe ellir dileu'r ddeddf eilradd, hynny yw, dileu dosbarthiadau, felly, heb ddileu hanes a chymdeithas fel y cyfryw. Eithr ni ellir dileu'r ddeddf sylfaenol oni ddilëir hanes a chymdeithas gyda hi; a chan nad ydyw hyn yn bosibl yn y pen draw y mae'r ddeddf sylfaenol yn rhwym o orthrechu'r ddeddf eilradd yn hwyr neu'n hwyrach, ac fe fydd rhai digwyddiadau hanesyddol, felly, yn anochel yn yr ystyr hon. Am yr un rheswm, deddf sy'n esbonio'r cyfnod hir mewn hanes ydyw'r ddeddf sylfaenol, a deddf sy'n esbonio'r cyfnod byr ydyw'r ddeddf eilradd.

Yr ail wahaniaeth i'w nodi rhyngddynt yw bod y ddeddf sylfaenol yn ddeddf foesol, a'r ddeddf eilradd yn ddeddf grym. Y mae'r ddeddf sylfaenol yn ddeddf foesol yn ogystal â deddf faterol oblegid ei bod yn ymwneud â chynnydd rhyddid yn ogystal â chynnydd cynnyrch. Y mae'r ddeddf eilradd yn ddeddf grym, oblegid ar wahân i'r ddeddf sylfaenol, nid oes un rheswm paham y dylai un dosbarth lywodraethu yn hytrach na dosbarth arall ond y rheswm bod ganddo'r grym i lywodraethu. Eithr er bod deddf y rhyfel dosbarth fel y cyfryw yn ddiduedd o safbwynt moesol, y mae amcanion unrhyw ddosbarth arbennig yn foesol neu'n anfoesol yn ôl eu perthynas â'r ddeddf sylfaenol. Os bydd ymdrechion unrhyw ddosbarth yn cyd-redeg â'r ddeddf sylfaenol byddant yn foesol, a byddant yn anfoesol os na wnânt.

## Arwyddocâd y Deddfau

Ar seiliau'r deddfau hyn fe lwyddodd Marx i wneud tri pheth na lwyddodd neb i'w gwneud o'i flaen.

(1) Fe fedrodd fynd yn ôl i ail-ddehongli hanes y gorffennol, a'i wneud, o ganlyniad yn llawer mwy dealladwy.

Ac edrych ar hanes yn gyson o safbwynt y ddeddf sylfaenol, fe welodd Marx na ellid ei astudio'n ddeallus heb astudio cyfnewidiadau economaidd cymdeithas yn ogystal â'i chyfnewidiadau eraill, a



chydabyddir bellach ar bob llaw mai ef oedd gwir sylfaenydd yr adran honno o hanes a elwir heddiw yn hanes economaidd.

Ac edrych ar hanes o safbwynt y frwydr dosbarth, fe welodd Marx, ymhellach, na ellid astudio hanes unrhyw gyfnod arbennig a'i wneud yn ddealladwy heb roi sylw neilltuol i'r dosbarthiadau mewn cymdeithas, ac i'r brwydrau sy'n cyfodi rhyngddynt. Y mae'n wir nad Marx oed y cyntaf i ddefnyddio'r syniad o frwydr dosbarth i esbonio digwyddiadau hanes, a bod haneswyr Ffrainc—Thierry, Mignet, Guizot, a Thiers—wedi defnyddio'r syniad o'i flaen yn eu hastudiaethau ar y chwyldro Ffrengig. Eithr Marx yn ddiamau oedd y cyntaf i ddefnyddio'r syniad yn gyson i ddehongli hanes pob cyfnod (ag eithrio'r cyfnod cyn bod dosbarthiadau), ac i ddyrchafu'r syniad i safle deddf hanes.

(2) Fe fedrodd ddefnyddio dull hanesyddol i ddehongli datblygiadau cyfoes. Marx oedd yr hanesydd cynaf i godi uwchlaw'r traddodiad goddrychol mewn hanes cyfoes, a gweld ei oes ei hun fel darn yn hanes y byd.

O safbwynt y ddeddf sylfaenol, fe welodd Marx mai arbenigrwydd mawr ei oes oedd datblygiad argyfyngus y gyfundrefn gyfalafol—datblygiad o argyfwng i argyfwng, a'r argyfwng diwethaf o hyd yn fwy bygythiol na'r un o'i flaen, ac yn peryglu fwyfwy fodolaeth y gwareiddiad cyfalafol.

O safbwynt deddf y frwydr dosbarth, fe welodd, ymhellach, mai arbenigrwydd mawr ei oes oedd ysgubo o'r neilltu amryfal ddosbarthiadau'r cyfnod cyn-gyfalafol, a rhannu cymdeithas fwyfwy yn ddau ddosbarth mawr gelyniaethus, y cyfalafwyr a'r proletariaid. Cydnabyddai fod yna fân ddosbarthiadau heblaw'r dosbarthiadau hyn, sef yr hen ddosbarthiadau canol, eithr fe welodd ei fod yn rhaid i'r rhain ymuno, yn hwyr neu'n hwyrach, yn y frwydr fawr rhwng y ddau ddosbarth arall.

(3) Fe fedrodd Marx ragweld mewn dull cyffredinol gwrs mwyaf tebygol hanes yn y dyfodol. Ef oedd y cyntaf i fedru gwneud hynny ar seiliau y gellid eu galw, i ryw raddau, yn seiliau gwyddonol.

O safbwynt y ddeddf sylfaenol, yr hyn a welodd oedd datblygiad cymdeithas Gomiwnyddol ar seiliau'r gyfundrefn gyfalafol. Fe welodd, fel y gwelodd Robert Owen a Saint-Simon a Fourier a'u cyfeillion, mai cymdeithas Gomiwnyddol yn unig a allai barhau yn y pen draw i gynyddu cynnyrch cymdeithas a rhyddid dynion.

Eithr o safbwynt deddf y frwydr dosbarth fe welodd Marx yr hyn na welodd Robert Owen a Saint-Simon a Fourier a'u cyfeillion, sef, ei bod yn rhaid sefydlu'r gymdeithas Gomiwnyddol newydd trwy gyfrwng y frwydr honno. Yn natblygiad y frwydr hon fe welai Marx bedwar cyfnod yr oed yn rhaid iddynt ganlyn ei gilydd fel rhannau dilynol o un proses o hanes: (a) cyfnod uno'r dosbarth proletaraidd yn un dosbarth trefnedig ar gyfer y brwydrau â'r dosbarth bwrgeisiol; (b) cyfnod y chwyldro proletaraidd, sef cyfnod argyfyngus a cymharol fyr, pan lwydda'r dosbarth proletaraidd i gipio'r grym gwleidyddol oddi ar y dosbarth bwrgeisiol; (c) cyfnod unbennaeth y proletariaid, sef, cyfnod o genhedlaeth neu ragor, pan fydd rhaid i'r proletarwyr hwythau ddefnyddio grym er mwyn rhwystro'r hen ddosbarthiadau llywodraethol rhag adennill eu rheolaeth; ac (ch) cyfnod y gymdeithas ddi-ddosbarth.

Rhan bwysig o'r ddamcaniaeth yn y fan hon oedd dangos sut a phaham y datblygai'r gymdeithas ddiddosbarth allan o unbennaeth y proletariaid. Yn y gorffennol, pan enillai dosbarth darostyngedig allu gwleidyddol, yr oedd yna ddosbarthiadau eraill yn is nag ef ei hunan yr oedd yn rhaid iddo'u cadw'n ddarostyngedig yn eu tro. Ond pan sefydla'r proletariat ei unbennaeth wleidyddol, ni bydd un dosbarth arall yn is nag ef ei hunan i'w darostwng mwyach. Nid erys ond yr hen ddosbarthiadau llywodraethol, eithr fe ddiflannant hwythau gyda datblygiad cynnyrch Sosialaidd. Ni eill y dosbarth

proletaraidd, felly, ennill gallu gwleidyddol iddo'i hunan, a'i gadw, ond trwy ddileu ar yr un pryd ei unbennaeth a'i fodolaeth ei hunan fel dosbarth.

Fe ellir gweld yn awr beth oedd ateb Marx i'r broblem a adawyd gan y Comiwnyddion utopaidd, Robert Owen, Saint-Simon ac eraill. Fe gredai Marx fel hwythau fod cymdeithas Gomiwnyddol yn ymarferol bosibl (a'i bod, yn wir, yn anochel yn ei ystyr ef i'r gair), a chredai y byddai cymdeithas o'r fath yn gymdeithas well na'r gymdeithas gyfalafol bresennol. Eithr fe gredai'n bendant, er gwaethaf hyn, na ellid ei sefydlu trwy apelio at ewyllys da'r ddynoliaeth yn gyffredinol. Fe gredai'n hytrach mai'r unig ddull ymarferol ydyw uno'r dosbarth proletaraidd hyd oni ddaw'n ddigon cryf i greu'r chwyldro proletaraidd, ac yna cadw unbennaeth a rheolaeth y dosbarth proletaraidd hyd nes dilea cynnyrch Sosialaidd sylfaen gymdeithasol yr hen fywyd a chreu'r gymdeithas ddi-ddosbarth. Pan ddigwydd hyn yn y rhan fwyaf o'r gwledydd, yna fe fyddwn ar drothwy'r cyfnod Comiwnyddol a gwell byd.

### III

## COMIWNYDDIAETH A CHENEDLAETHOLDEB

Beth yn awr ydyw arwyddocâd y syniadau hyn i ni sy'n Gymry?

Y mae llawer o broblemau Cymru yn broblemau sy'n gyffredin i bob gwlad ddiwydiannol gyfalafol fodern. Yn eu plith y mae'r broblem sylfaenol o gynyddu cynnyrch diwydiannol a'i ddsbarthu'n fwy cyfartal rhwng unigolion. Fe welwyd eisoes arwyddocâd y mudiad Comiwnyddol o safbwynt y broblem hon.

Eithr y mae yna broblem arall yng Nghymru y credir ei bod yn broblem ar wahân i'r broblem uchod, sef, y broblem genedlaethol, problem rhyddid ein hiaith a'n diwylliant, a phroblem rhyddid ein hysbryd fel cenedl sy'n berchen ar hanes a thraddodiad cyffredin. Beth ydyw arwyddocâd y mudiad Comiwnyddol o safbwynt y broblem hon?

### Y Genedl

Fe ddefiniwyd y genedl gan Stalin, sy'n un o ddisgyblion mwyaf Marx, fel hyn: "Cymdeithas ydyw'r genedl a ddatblygodd yng nghwrs hanes yn gymdeithas sefydlog o ran iaith, bro, meddwl a bywyd economaidd, ac a'i mynega ei hunan mewn corff o ddiwylliant cyffredin... Nid oes cenedl lle na bo'r nodweddiad hyn i gyd yn bresennol."(1\*\*) O safbwynt damcaniaeth gyffredinol Marx, y mae'r ddefiniad hwn yn un o'r pwys pennaf oblegid, fel y gwelir, y mae'n deffinio'r genedl heb unrhyw gyfeiriad at y dosbarthiadau economaidd, felly, y mae'n dilyn un canlyniad pwysig, sef, nad ydyw dileu dosbarthiadau yn golygu dileu cenedloedd. Mewn gair, y mae bodolaeth cenedloedd yn gyson â bodolaeth y gymdeithas Gomiwnyddol.

### Y Mudiad Cenedlaethol neu Genedlaetholdeb

Y mae'r genedl yn annibynnol ar ddsbarthiadau; eithr nid felly genedlaetholdeb a mudiadau cenedlaethol.

Ffurf ar gymdeithas ydyw'r genedl, eithr digwyddiad mewn hanes ydyw'r mudiad cenedlaethol. Os ydyw deddfau hanes fel yr amlinellwyd hwy yn Rhan II uchod yn gywir, yna y mae'n rhaid dehongli ac esbonio mudiadau cenedlaethol, fel pob digwyddiad hanesyddol pwysig arall, yng

ngoleuni'r deddfau hyn. Os felly, pa beth a welwn? Deddf sylfaenol hanes o safbwynt y genedl ydyw datblygiad cynnyrch a rhyddid ym mhob gwlad, a datblygiad rhyddid cyfartal i bob gwlad fel ei gilydd. Eithr yr hyn a welwn ydyw gorthrwm cenedlaethol, brwydrau cenedlaethol, a rhwystr ar gynnyrch cenedlaethol dros fwy na hanner y byd. Y mae'n rhaid derbyn, felly, un o ddau beth; y naill ai (1) bod yna ddeddf brwydr genedlaethol yn ogystal â deddf brwydr dosbarth, a'i bod hithau hefyd yn gwyrddroi deddf sylfaenol hanes, neu ynteu (2) mai cymhlethiad pellach o ddeddf y frwydr dosbarth sy'n esbonio brwydrau cenedlaethol. Tystiolaeth hanes yn unig a rydd inni'r gallu i ddewis rhwng y ddau safbwynt hwn, ac fel hanesydd fe welodd Marx fod dystiolaeth hanes yn ddigon pendant o blaid yr ail. Y mae'n rhaid derbyn, felly, mai cymhlethiad pellach o ddeddf y frwydr dosbarth ydyw sail pob mudiad cenedlaethol.

Fe ellir esbonio, ymhellach, sut a phaham y digwydd y cymhlethiad hwn. Fe geisia pob dosbarth llywodraethol reoli gyda chyn lleied o orthrwm gartref ag sy'n angenrheidiol i gadw'i oruchafiaeth fel dosbarth llywodraethol. Eithr fe eill dosbarth llywodraethol leddfur gorthrwm gartref, ac achub ei reolaeth fel dosbarth llywodraethol, drwy symud y gorthrwm a'i osod ar genedl arall. Gorthrwm dosbarth llywodraethol wedi ei gludo y tu allan i gyffiniau ei genedl ei hunan, felly, ydyw gorthrwm cenedlaethol. Y mae'r frwydr a ddarostyngodd y naill ddosbarth i reolaeth dosbarth arall wedi ehangu ac wedi darostwng bellach rai cenedloedd i reolaeth cenedloedd eraill. Mewn gair, fe gymhlethodd y frwydr, a rhaid bellach wrth arf cywrain a chymhleth i'w datrys.

## **Mathau o Fudiadau Cenedlaethol**

Y cam cyntaf tuag at ddatrys y frwydr yn awr ydyw deall y gwahanol fathau o fudiadau cenedlaethol a eill ddeillio o'r cymhlethdod hwn.

Er mwyn deall y mathau hyn, y mae'n rhaid cadw golwg o hyd ar ddau gwestiwn, (1) a ydyw'r genedl yr ymdrinnir â hi yn genedl lywodraethol neu yntau'n genedl ddarostyngedig, a (2) a ydyw'r dosbarth llywodraethol sy'n cynrychioli undeb y genedl honno yn ddosbarth blaengar neu ynteu'n adweithiol. Fe geir yn gyffredinol bedwar math o genedlaetholdeb yn ôl yr atebion a roir i'r ddau gwestiwn yma:

(1) **Cenedlaetholdeb llywodraethol adweithiol** (cenedl lywodraethol a dosbarth llywodraethol adweithiol), er enghraifft, yr Almaen dan lywodraeth Hitler, a Rwsia dan lywodraeth y Tsar. Dyma'r math o genedlaetholdeb a adwaenir fel imperialaeth heddiw, ac a nodwedda bolisi tramor yr Iseldiroedd, Ffrainc, Lloegr a Thaleithiau Unedig America ar hyn o bryd, er na chreasant hwythau gymaint o ddogma genedlaethol i'w gynorthwyo ag y grewyd yn yr Almaen.

(2) **Cenedlaetholdeb llywodraethol blaengar** (cenedl lywodraethol a dosbarth llywodraethol blaengar), er enghraifft, Ffrainc dan Napoleon I, Taleithiau Unedig America yn nhri-chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf, a Lloegr yn ystod y rhan fwyaf o ganol y ganrif ddiwethaf.

(3) **Cenedlaetholdeb darostyngedig adweithiol** (cenedl ddarostyngedig a dosbarth adweithiol yn arwain y mudiad cenedlaethol), er enghraifft, Iwerddon, Pwyl yn y ganrif ddiwethaf, a China yn ei brwydr yn erbyn Japan rhwng 1931 a 1945.

(4) **Cenedlaetholdeb darostyngedig blaengar** (cenedl ddarostyngedig a dosbarth blaengar yn arwain y mudiad cenedlaethol), er enghraifft, India (ar y cyfan) er sefydlu'r Gyngres Genedlaethol yn

1885, ac Indonesia, Birma a Malaia heddiw.

Y mae'n dilyn o'r dadansoddiad hwn na ellir dweud am unrhyw fudiad cenedlaethol ei fod yn dda nac yn ddrwg fel y cyfryw. Y mae'n rhaid gwahaniaethu rhwng yr amryw fathau o fudiadau cenedlaethol a'u barnu bob un ar ei ben ei hun, yn gyntaf o safbwynt cymhlethdod y frwydr dosbarth, ac yna yn y pendraw o safbwynt datblygiad cynnyrch a rhyddid yn y byd yn gyffredinol (sef, o safbwynt y ddeddf sylfaenol).

Ar sail y dadansoddiad hwn, hefyd, fe ellir dweud yn awr beth ydyw agwedd y mudiad Comiwnyddol tuag at fudiadau a brwydrau cenedlaethol. Fe ddibynna agwedd y mudiad, ac o ganlyniad ei bolisi, ar natur y frwydr genedlaethol yr ymwneir â hi. Pan fydd y genedl ddarostyngedig yn genedl flaengar, ac yn ymladd am ei rhyddid, fe fydd y mudiad Comiwnyddol yn ei chefnogi ac yn hawlio iddi annibyniaeth gyflawn, e.e. India ac Indonesia. Pan fydd y genedl ddarostyngedig yn genedl adweithiol ac yn ymladd cenedl lywodraethol sydd hefyd yn adweithiol, fe fydd y mudiad Comiwnyddol yn hawlio iddi annibyniaeth gyflawn—ag eithrio ar yr adegau pan fydd hynny'n debyg o gryfhau cenedl lywodraethol adweithiol arall, sy'n gryfach neu'n fwy adweithiol na'r genedl yr ymrhyddheir oddi wrthi. Er enghraifft, fe gefnogodd Marx frwydr Pwyl yn erbyn Rwsia a brwydr Hwngaria yn erbyn Awstria, eithr fe wrthwynebodd frwydr y Tsieciaid yn erbyn Awstria, am fod mudiad y Tsieciaid, bryd hynny, yn fudiad adweithiol, ac yn debyg felly o gryfhau Rwsia. Yn yr un modd, fe wrthwynebodd y Comiwnyddion fudiad yr Almaenwyr Swdetaidd yn erbyn Tsieco-Slofacia yn 1938, am mai mudiad adweithiol oedd, ac yn debyg felly o gryfhau'r Almaen. Eithr pan fydd y genedl ddarostyngedig yn genedl adweithiol a'r genedl lywodraethol yn genedl flaengar, fe ddymuna'r mudiad Comiwnyddol ddatrys y frwydr rhyngddynt ar sail cynllun ffederal gwirfoddol. Fe gefnoga annibyniaeth gyflawn i'r genedl ddarostyngedig, eithr er mwyn iddi fedru ailymuno â'r genedl lywodraethol yn ôl ei hewyllys ei hunan, ac er mwyn sicrhau, felly, fod y gyfundrefn ffederal, pan sefydlir hi, yn gyfundrefn wirfoddol mewn gwirionedd. Hyn a gefnogai Marx, er enghraifft, yn y frwydr rhwng Lloegr ac Iwerddon yn y ganrif ddiwethaf, a hynny a gefnoga'r mudiad Comiwnyddol heddiw, fel rheol, lle bynnag y bo'r genedl lywodraethol ar drothwy chwyldro proletaraidd.

I gloi, felly, fe gydnebydd y mudiad Comiwnyddol fodolaeth y genedl fel ffurf briodol ar gymdeithas, a chefnoga fudiadau cenedlaethol y gwledydd darostyngedig hyd yn oed pan fydd y mudiadau hynny'n fynych yn adweithiol o safbwynt cymdeithasol. Fe gefnoga fudiad cenedlaethol y gwledydd darostyngedig oherwydd bod rhyddid cenedloedd yn anhepgor i ryddid cymdeithas. Eithr fe hawlia hefyd fod rhyddid cymdeithas, sef rhyddid dynion oddi wrth orthrwm dosbarth, yn anhepgor i ryddid cenedloedd. Nid dwy broblem ar wahân yw'r ddwy broblem hon, felly, eithr dwy agwedd ar yr un broblem, y broblem o ddileu dosbarthiadau mewn cymdeithas, y broblem o sefydlu'r gymdeithas Gomiwnyddol.

#### IV

Yn y rhagymadrodd hwn, fe geisiwyd rhoddi amlinelliad byr o fywyd Marx ac Engels, o'r syniadau chwyldroadol a roesant i'r byd, ac o arwyddocâd cyffredinol y syniadau hynny i ni sy'n Gymry. Yn ystod y can mlynedd a aeth heibio er pan ysgrifennwyd y *Manifesto*, fe erlidiwyd y Comiwnyddion, fe'u carcharwyd, ac fe'u lladdwyd. Dilornwyd syniadau a damcaniaethau Marx. Eithr fe dyfodd y mudiad Comiwnyddol, o flwyddyn i flwyddyn, ac o genhedlaeth i genhedlaeth, yn gyflymach, yn gryfach, yn gadarnach o'r herwydd.

Er maith sen Promethiws wyf,  
Awdur pob deffro ydwyf;

A'r oes well wrth wawrio sydd  
Ar dân o'm bru dihenydd.

1\*\* J Stalin: *Marcisiaeth a'r Broblem Genedlaethol a Threfedigol*. Argraffiad Saesneg, tt.8-9

# MANIFFESTO'R BLAID GOMIWNYDDOL

## gan Karl Marx a Frederick Engels

Y mae rhith yn cythryblu Ewrop—rhith Comiwnyddiaeth. Ymunodd pob un o alluoedd yr hen Ewrop yn un helpa sanctaidd yn erbyn y rhith hwn, y Pab a'r Tsar, Metternich a Guizot, Radicaliaid Ffrainc a phlismyn gwleidyddol yr Almaen.[\[5\]](#)

Ble mae'r wrthblaid nas cyhuddwyd o fod yn Gomiwnyddol gan lywodraeth y dydd, a'r wrthblaid hithau na hyrddiodd yn ôl y cyhuddair melltgedig, Comiwnyddiaeth, yn erbyn gwrthbleidiau mwy blaengar na hi ei hunan yn ogystal ag yn erbyn ei gwrthwynebwyd adweithiol?

Cyfyd deubeth o'r ffaith hon.

I. Cydnabyddir Comiwnyddiaeth eisoes yn allu ynddi ei hunan gan holl alluoedd Ewrop.

II. Y mae'n hen bryd i'r Comiwnyddion gyhoeddi'n agored yng ngŵydd y byd eu credo a'u hamcanion a'u tueddiadau, ac wynebu'r stori blant am y ddrychiolaeth Gomiwnyddol â maniffesto'r blaid ei hunan.

I'r diben hwn ymygyfarfu Comiwnyddion y gwahanol wledydd yn Llundain a llunio'r maniffesto a ganlyn i'w gyhoeddi yn yr ieithoedd Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Fflemineg a Daneg.

# I

## BWRGEISIAID A PHROLETARIAID [6]

Hanes pob cymdeithas hyd yn hyn ydyw hanes brwydrau dosbarth.[7]

Gwr rhydd a chaethwas, patrisiad a phlebiad, barwn a thaeog, gild feistr a dyddweithiwr, mewn gair, y gorthrymwr a'r gorthrymedig, fe wrthsafodd y rhain ei gilydd erioed, gan ymladd yn ddibaid, boed ynghudd neu'n agored, frwydr a orffennodd bob tro y naill ai mewn ad-drefniad chwyldroadol ar gymdeithas yn gyfangwbl, neu ynteu yng nghyd-ddinistr y dosbarthiadau ymladdgar.[8]

Yng nghyfnodau cynharaf hanes gwelwn braidd ym mhobman drefn gymdeithasol gyflawn o wahanol ddsbarthiadau, a graddoliad amryfal mewn safle gymdeithasol. Yn Rhufain gynt cawn y patrisiaid, y marchogion, y plebiad a'r caethion; yn y canol oesoedd yr arglwyddi ffiwdal, y gweision ffiwdal, y gild-feistri, y dyddweithwyr a'r taeogion, ac isrannau eto y tu mewn i bron bob un o'r dosbarthiadau hyn. [9]

Ni ddarfu i'r gymdeithas gyfalafol fodern a dyfodd ar adfeilion y gymdeithas ffiwdal wneud i ffwrdd â gwrthddywediadau dosbarth; ni wnaeth namyn sefydlu dosbarthiadau newydd, amgylchiadau newydd i orthrwm, a dulliau newydd o frwydro yn lle'r hen.

Y mae ein cyfnod ni, y cyfnod bwrgeisaidd, er hynny, yn nodweddiadol oherwydd iddo symleiddio'r gwrthddywediadau hyn. Y mae cymdeithas oll yn rhannu fwyfwy yn ddau wersyll mawr gelyniaethus, yn ddau ddsbarth mawr yn sefyll yn uniongyrchol yn erbyn ei gilydd, y bwrgeisiaid a'r proletariaid.

O blith taeogion y canol oesoedd y cododd dinaswyr rhyddion y trefydd cynnar, ac o blith y dinaswyr hyn y datblygodd elfennau cyntaf y dosbarth bwrgeisaidd.

Agorodd darganfyddiad America a chylchforiad Affrica dir newydd i'r bwrgeisiaid oedd yn codi. Rhoes marchnadoedd China, ac India'r Dwyrain, gwladychiad America, masnachu â'r trefedigaethau, a'r cynnydd mewn moddion cyfnewid ac mewn nwyddau'n gyffredinol, symbyliad na welwyd mo'i fath o'r blaen i fasnach, i longwriaeth ac i ddiwydiant, a rhoddwyd, o'r herwydd, ddatblygiad cyflym i'r elfen chwyldroadol y tu mewn i'r gymdeithas ffiwdal sigledig.

Yr oedd yr hen gyfundrefn ddiwydiant ffiwdal a'i gildiau yn annigonol mwyach i ateb gofynion cynyddol y marchnadoedd newydd. Daeth llawddiwydiant i gymryd ei lle. Gwthiwyd y gild-feistri o'r neulltu gan y dosbarth canol diwydiannol, a diflannodd y gyfundrefn o rannu'r gwaith rhwng y gwahanol gildiau yn wyneb y gyfundrefn o rannu'r gwaith y tu mewn i'r ffatri unigol ei hunan.[10]

Eithr po fwyaf y tyfai'r marchnadoedd, mwyaf oll y cynyddai'r gofynion. Bellach ni wnâi hyd yn oed llawddiwydiant y tro. Felly, chwyldroes ager a pheiriannau gynhyrchu diwydiannol. Disodlwyd llawddiwydiant gan y diwydiant mawr modern, a'r dosbarth canol diwydiannol gan y miliwnyddion diwydiannol, penaethiaid byddinoedd cyfain, y bwrgeisiaid modern.

Creodd y diwydiant mawr y farchnad fyd y paratowyd y ffordd iddi eisoes gan ddarganfyddiad America. Rhoes y farchnad hon symbyliad enfawr i fasnach, i longwriaeth, ac i drafnidiaeth ar dir. Ail ddylanwadodd y rhain yn eu tro ar ymlediad diwydiant, ac fel yr ymledai diwydiant, masnach, llongwriaeth, a rheilffyrdd, felly i'r un graddau y datblygai'r bwrgeisiaid, gan amlhau eu cyfalaf a gwthio i'r cefndir bob dosbarth a draddodwyd i lawr o'r oesoedd canol.

Gwelwn felly sut y mae'r bwrgeisiaid modern eu hunain yn gynnyrch cwrs o ddatblygiad, yn

gynnyrch rhes o gyfnewidiadau mewn dulliau cynhyrchu a chyfnewid.

Yr oedd yn cyd-redeg â phob cam yn natblygiad y bwrgeisiaid ddatblygiad gwleidyddol cyfatebol. A hwythau'n ddosbarth gorthrymedig dan lywodraeth yr arglwyddi ffiwdal, yn gymdeithasau arfog, hunan-lywodraethol, yn y Commune, yma'n ddinas-wladwriaeth annibynnol, acw'n drydedd ystad drethadwy dan y frenhiniaeth, ac yna yng nghyfnod llawddiwydiant, yn wrthbwys yn erbyn y bonheddwr ac o blaid y breniniaethau hannerffiwdal neu absoliwt, a grwndwal y breniniaethau mawrion yn gyffredinol, fe enillodd y bwrgeisiaid, wedi dyfod y diwydiant mawr a'r farchnad fyd, reolaeth wleidyddol ddiymrannol iddynt eu hunain yn y wladwriaeth seneddol fodern. [11] Nid yw'r wladwriaeth fodern namyn pwyllgor er gweinyddu materion cyffredin yr holl ddosbarth bwrgeisaidd.

Y mae'r bwrgeisiaid yng nghwrs hanes wedi chwarae rhan chwyldroadol gyda'r mwyaf.

Y mae'r bwrgeisiaid, lle yr enillasant reolaeth, wedi dileu pob perthynas ffiwdal, batriarchaidd, ac eidylaidd. Heb unrhyw drugaredd, torasant yn rubanau yr amrywiol rwymau ffiwdalaidd a glymai ddynion wrth eu 'meistri naturiol', ac ni adawsant rhwng dyn a dyn unrhyw rwymyn ond hunanfudd noeth, 'rhwymyn arian parod' calongaled. Ganddynt hwy fe foddwyd gorfoledd dwyfol pob tân crefyddol, pob brwdfrydedd gwrol, a phob sentimentaliaeth philistaidd, yn nyfroedd rhewllyd cyfrifon masnachol hunanol. Troesant urddas y person yn werth cyfnewid, ac yn lle'r rhyddfrentiau breiniol, haeddiannol, dirif, sefydasant un rhyddid, sef rhyddid masnach digydwbybod. Mewn gair, yn lle dull o ecsplôitio a wyngalchwyd gan hud a lledrith gwleidyddiaeth a chrefydd, sefydasant dull agored, uniongyrchol, noeth a digywilydd.

Y mae'r bwrgeisiaid wedi ei dinoethi o'i gwisg sanctaidd bob galwedigaeth a gyfrifid gynt yn urddasol ac yr edrychid arni â pharchedig ofn. Troesant y meddyg, y cyfreithiwr, yr offeiriad, y bardd, a'r gwyddonydd, yn weithwyr cyflogedig iddynt hwy eu hunain.

Y mae'r bwrgeisiaid wedi tynnu oddi ar y berthynas deuluol ei gorchudd o ffug deimladau sentimental, a'i throi'n berthynas ariannol bur.

Y mae'r bwrgeisiaid wedi dangos sut y bu i'r fath arddangosfa greulon o egni, a edmygir gan yr Adwaith gymaint yn yr oesoedd canol, gydfodoli â'r anweithgarwch mwyaf dioglyd. [12] Amlygasant am y tro cyntaf beth y geill gweithgarwch dyn ei wneud. Cyflawnasant ryfeddodau y tu hwnt i byramidiau'r Aifft, dyfr-ffosydd Rhufain a phrifeglwysi Gothig, a chyflawnasant bererindodau y tu hwnt i grwydriadau cenhedloedd a phob crwsâd.

Y mae'r bwrgeisiaid yn analluog i fyw oni chwyldroir yn barhaus y moddion cynhyrchu, y berthynas gynhyrchu, a holl amgylchiadau cymdeithas. Prif amod diogelwch pob dosbarth diwydiannol cynt ydoedd cadw'n ddigyfnewid yr hen dulliau cynhyrchu. Eithr nodweddir y cyfnod bwrgeisaidd, yn wahanol i bob cyfnod arall, gan gyfnewidiadau diderfyn mewn cynhyrchu, gan aflonyddwch dibaid yn holl amgylchiadau cymdeithas, a chau ansicrwydd a chyffo di-ben-draw. Ysgubwyd i fwrdd bob perthynas rydlyd, ddigyfnewid, ynghyd â'i gosgordd o hen syniadau a rhagfarnau hybarch, a thorrir drachefn y perthnasau newydd hwythau cyn iddynt ymsefydlu. Popeth breiniol a sefydledig a dry'n fwg, popeth sanctaidd a halogir; a gorfodir ar ddynion o'r diwedd weld â llygaid agored gyflwr eu bywyd a'u perthynas â'u cyd-ddyn.

Y mae'r angen beunyddiol am helaethach marchnadoedd i'w nwyddau yn gyrru'r bwrgeisiaid ar draws yr holl fyd. Rhaid arnynt ennill gafael ym mhobman, setlo ym mhobman, a chreu cysylltiadau ym mhobman.

Y mae'r bwrgeisiaid, trwy ecsplôitio'r farchnad fyd, wedi rhoi ansawdd gosmopolitan i gynnyrch a defnydd ym mhob gwlad. Er dygn ofid i'r Adwaith, tynasant o dan draed diwydiant y tir cenedlaethol y safai arno. Y mae'r hen ddiwydiannau traddodiadol, cenedlaethol, y naill ai wedi eu dinistrio neu



ynteu'n cael eu dinistrio'n feunyddiol. Fe'u hysgubir o'r neulltu gan ddiwydiannau newydd y mae'n fater bywyd i bob cenedl wâr eu mabwysiadu, diwydiannau na ddefnyddiant mwyach nwyddau crai cartref eithr nwyddau crai o bellafoedd y ddaear, a diwydiannau y defnyddir eu cynnyrch nid yn unig yn eu gwlad eu hunain eithr ym mhob parth o'r byd bwy gilydd. Yn lle'r hen anghenion a ddiwellid gan nwyddau'r wlad, ymglyfyd anghenion newydd yn gofyn cynhyrchion y gwledydd a'r rhandiroedd pellaf i'w diwallu. Yn lle'r hen ymneilltuaeth leol, genedlaethol, hunangynhaliol, ceir cyfathrach ar bob llaw, ac ymddibyniaeth amlochrog y naill wlad ar y llall. Ac megis y mae ym myd cynnyrch materol, felly y mae ym myd cynnyrch y meddwl. Daeth creadigaethau meddwl y genedl unigol yn etifeddiaeth gydwladol, aeth culni cenedlaethol, unochrog, yn.fwyfwy amhosibl, ac o nifer o lenyddiaethau lleol ymglyfyd llenyddiaeth fyd.

Y mae'r bwrgeisiaid trwy wella'n gyflym y moddion cynhyrchu a thrwy ddatblygu trafndiaeth yn gyson, yn tynnu pob cenedl, boed mor anwar ag y bo, o fewn cyffiniau gwareiddiad. Prisoedd isel eu nwyddau yw'r gynau mawrion a ddefnyddiant, i chwalu pob mur Tseiniaidd, ac i beri dymchwelyd casineb ystyfnig yr anwar tuag at estroniaid.[\[13\]](#) Gorfodant ar bob cenedl fabwysiadu ar berygl dinistr y dull cyfalafol o gynhyrchu, gorfodant arnynt fabwysiadu'r hyn a elwir yn wareiddiad, sef, mynd ohonynt yn fwrgeisaidd eu hunain. Mewn gair, creant fyd ar eu delw eu hunain.

Y mae'r bwrgeisiaid wedi darostwng y wlad i reolaeth y dref. Creasant ddinasoedd enfawr, cynyddasant yn enfawr nifer poblogaeth y dref o'i gymharu ag eiddo'r wlad, ac achub, felly, ran sylweddol o'r boblogaeth rhag hurtrwydd y bywyd gwledig. A megis y troesant y wlad yn ddibynnol ar y dref, felly y troesant wledydd anwar a gwledydd hanner gwâr yn ddibynnol ar wledydd gwâr, cenhedloedd amaethyddol yn ddibynnol ar genhedloedd cyfalafol, y Dwyrain yn ddibynnol ar y Gorllewin.

Y mae'r bwrgeisiaid yn dileu fwyfwy fân ddiwydiannau, mân berchnogaeth, a mân boblogaethau. Y maent wedi pentyrru poblogaeth, canoli moddion cynhyrchu, a chronni eiddo yn nwylo'r ychydig. Canlyniad anhepgor hyn ydoedd canoli gwleidyddiaeth. Taleithiau hanner dibynnol a rhai annibynnol, taleithiau a chanddynt wahanol fuddiannau, deddfau, llywodraethau, a thollau—fe'u hasiwyd at ei gilydd dan un llywodraeth, un ddeddf, un dollffin, un budd dosbarth cenedlaethol.

Y mae'r bwrgeisiaid, yn ystod eu rheolaeth brin ganmlwydd oed fel dosbarth, wedi creu galluoedd cynhyrchu mwy enfawr ac aruthrol na'r holl genedlaethau cynt gyda'i gilydd. Harneisio galluoedd natur, peiriannaeth, cymhwyso cemeg at ddibenion diwydiant ac amaethyddiaeth, llongwriaeth ager, rheilffyrdd a theligrffau trydan, gwrteithio darnau cyfain o'r byd, addasu afonydd a longwriaeth, swyno poblogaethau cyfain allan o'r ddaear—pa ganrif gynt a freuddwydiodd bod y fath alluoedd cynhyrchu yn huno ym mynwes cyd-lafur cymdeithas.

Gwelsom, felly, fod y moddion cynhyrchu a chyfnewid yr adeiladodd y bwrgeisiaid eu hunain arnynt, wedi eu creu yn y gymdeithas ffiwdal. Ar adeg arbennig yn natblygiad y moddion cynhyrchu a chyfnewid hyn, ni chyfatebai'r berthynas y cynhyrchai ac y cyfnewidiai cymdeithas ffiwdal ynddi—y drefn ffiwdal ar amaethyddiaeth a diwydiant, hynny yw, y drefn ffiwdal ar eiddo—ni chyfatebai'r berthynas hon mwyach â'r galluoedd cynhyrchu oedd eisoes wedi datblygu. Rhwystrent gynnyrch yn y lle'i hyrwyddo. Troesant yn gynifer o lyffetheiria. Rhaid oedd eu dryllio; a dyna wnaed.

Yn eu lle daeth cystadleuaeth rhydd, ynghyd â chyfansoddiad gwleidyddol a chymdeithasol cyfaddas, ynghyd ag unbennaeth economaidd a gwleidyddol y dosbarth bwrgeisaidd.

Fe ddigwydd mudiad cyffelyb o flaen ein llygaid ninnau. Y mae'r gymdeithas gyfalafol fodern a'i dulliau cyfalafol o gynhyrchu, cyfnewid, a pherchnogi eiddo, cymdeithas sydd wedi swyngreu moddion cynhyrchu a chyfnewid mor aruthrol, y mae hithau fel y dewin yn methu rheoli galluoedd y tywyllwch a grewyd gan ei swyngyfaredd. Ers degau o flynyddoedd ni bu hanes diwydiant a masnach namyn hanes gwrthryfel y galluoedd cynhyrchu newydd yn erbyn y berthynas gynhyrchu

gyfoes, yn erbyn y dulliau o berchnogi eiddo sy'n anhepgor i fywyd a rheolaeth y bwrgeisiaid. Ni raid ond enwi'r argyfyngau masnach sydd, wrth ail-ddigwydd yn dymhorol, yn peryglu'n fwyfwy bygythiol einioes yr holl gymdeithas gyfalafol. Yn yr argyfyngau masnach difethir yn rheolaidd y rhan helaethaf nid yn unig o'r nwyddau a gynhyrchwyd, eithr hefyd o'r moddion cynhyrchu a grewyd yn barod. Yn yr argyfwng ymgyfyd pla a ymddangosai i unrhyw gyfnod cynt yn rhywbeth afresymol—pla gorgynhyrchu. Am gyfnod, gwêl cymdeithas ei thafu ei hunan yn ôl yn sydyn i gyflwr barbariaeth; ymddengys fel pe bai newyn a rhyfel ddistrywgar ym mhobman wedi alltudio pob cyflenwad moddion byw; ymddengys diwydiant a masnach fel pe y difethid hwy. A phaham? Oherwydd gormod o wareiddiad, gormod o adnoddau byw, gormod o ddiwydiant, gormod o fasnach. Nid yw'r galluoedd cynhyrchu sydd wrth wasanaeth cymdeithas yn hyfforddi mwyach wareiddiad bwrgeisaidd a dulliau bwrgeisaidd o berchnogi eiddo; i'r gwrthwyneb, daethant yn rhy gryf i'r dulliau hyn, ac fe'u rhwystrir ganddynt; eithr cyn gynted ag y gorthrechant y rhwystrau hyn, tynnant y gymdeithas gyfalafol bendramwnwgl, perlyglant fodolaeth eiddo cyfalafol. Y mae'r drefn gyfalafol yn rhy gul i gynnal y digonedd y mae wedi ei greu. A sut y gorchfyga'r bwrgeisiaid yr argyfwng? Ar y naill law, trwy ddinistrio'n orfodol ran helaeth o'r galluoedd cynhyrchu, ac ar y llaw arall, trwy oresgyn marchnadoedd newydd a thrwy ecsplôitio'r hen rai'n fwy trwyadl. A pha fodd y gwneir hyn? Fe'i gwneir trwy baratôi argyfyngau helaethach a mwy ofnadwy, a thrwy amharu'r moddion a eill eu rhwystro.

Y mae'r arfau a ddefnyddiodd y bwrgeisiaid i ddymchwelyd ffiwdaliaeth wedi eu troi yn awr yn erbyn y bwrgeisiaid eu hunain.

Eithr y mae'r bwrgeisiaid nid yn unig wedi tymheru'r arfau a'u dug hwynt i farwolaeth, y maent hefyd wedi creu'r dynion i ddefnyddio'r arfau hyn—y gweithwyr modern, y proletariaid.

Fel y datblyga'r bwrgeisiaid—hynny yw, cyfalaf—felly i'r un graddau y tyf y proletariat, y dosbarth gweithwyr modern na allant fyw ond cyhyd â'u bod yn cael gwaith, ac na chant waith ond cyhyd â bod eu gwaith yn cynyddu cyfalaf. Y mae'r gweithwyr hyn sy'n gorfod gwerthu eu hunain fesul dydd, yn nwydd fel unrhyw nwydd masnachol arall, ac yn ddibynnol felly ar holl fympwyon cystadleuaeth a holl anwadal gyfnewidiadau'r farchnad.

Oherwydd y cynnydd mewn peiriannaeth a rhannu'r gwaith fe gollodd llafur y gweithiwr bob nodwedd unigryw, ac, o ganlyniad, bob boddhad i'r gweithiwr. Aeth yntau'n ddim ond atodiad i'r peiriant, ac ni ddisgwylir dim oddi wrtho ond y llaw-weithred fwyaf seml, undonog a hawdd ei gwneud. Y mae'r gost y mae'r gweithiwr yn ei pheri, felly, yn gyfyngedig bron yn llwyr i'r moddion cynhaliath y mae'n rhaid iddo wrthynt er mwyn bywoliaeth iddo'i hunan ac er mwyn cenhedlu ei hil. Eithr y mae pris nwyddau, ac felly pris llafur, yn gyfartal â'r gost o'u cynhyrchu. [14] I'r graddau y cynyddda ffieiddiwch y gwaith syrthia hefyd gyflog y gweithiwr. Mwy na hynny, i'r un graddau ag y cynyddda peiriannaeth a rhannu'r gwaith fe gynydda hefyd faich y gwaith, megis cynnydd mewn oriau gwaith, cynnydd yn y gwaith a ddisgwylir mewn amser penodedig, cynnydd mewn cyflymder peiriannau, ac yn y blaen.

Y mae diwydiannaeth fodern wedi troi gweithdy bach y meistri patriarchiaidd yn ffatri fawr y cyfalafydd diwydiannol. Yn y ffatri rheolir fel pe baent filwyr y dorf o weithwyr a heidiwyd at ei gilydd. Fe'u gosodir, yn rhinwedd eu swydd fel rhengfilwyr diwydiant, dan oruchwyliaeth pencadlys cyfan o swyddogion ac is-swyddogion. Caethiwir hwynt nid yn unig gan y dosbarth a'r wladwriaeth fwrgeisaidd, fe'u caethiwir o ddydd i ddydd, ac o awr i awr, gan y peiriant, y goruchwylwr, ac yn anad neb gan y cyfalafydd diwydiannol, unigol ei hunan. Ac y mae'r arglwyddiaeth hon gymaint yn agosach, chwerwach a gwaelach, po egluraf y cyhoeddir mai elw yw ei phrif amcan.

Po leiaf dehurwydd y gwaith a pho ysgafnaf y bo, hynny yw, po fwyaf datblygedig y diwydiant modern, mwyaf y disodlir llafur gwŷr gan lafur gwragedd a phlant. [15] I'r dosbarth llafur nid oes i

wahaniaethau rhyw ac oedran unrhyw arwyddocâd cymdeithasolmwyach; y maent i gyd yn offer llafur, mwy neu lai costfawr yn ôl eu hoed a'u rhyw.

Cyn gynted ag y gorfennir ecsplôitio'r gweithiwr yn y ffatri, a'i dalu i ffwrdd gyda'i gyflog sâl, ymosodir arno gan y darnau eraill o'r bwrgeisiaid, y tîrfeddiannwr, y siopwr, y gwystlwr (paw broker), etc.

Y mae'r haenau isaf o'r dosbarth canol—cyfalafwyr bach, masnachwyr a gwŷr yn byw ar eu harian, crefftwyr a thyddynwyr—yn syrthio i blith y proletariat, yn gyntaf, am fod eu tipyn cyfalaf yn annigonol i weinyddiaeth diwydiant modern ac yn cael ei lethu gan gystadleuaeth y cyfalafwyr mawr, ac yn ail, am fod eu crefft wedi ei dibrisio gan ddulliau cynhyrchu newydd. Felly, fe ychwanega'r proletariaid at eu nifer ar draul pob dosbarth o'r boblogaeth.

Âr'r proletariat trwy lawer gradd yng nghwrs eu datblygiad. Y mae eu brwydr â'r bwrgeisiaid yn rhan o'u bodolaeth o'r dechrau cyntaf.

Ar y dechrau, ymladda gweithwyr unigol, yna gweithwyr mewn un ffatri, yna gweithwyr mewn un diwydiant mewn un ardal, yn erbyn y cyfalafydd unigol a'u hecsplôitia'n uniongyrchol. Anelant eu hergydion nid yn unig yn erbyn y dulliau cyfalafol o gynhyrchu, eithr hefyd yn erbyn y moddion cynhyrchu eu hunain; dinistriant nwyddau cystadleuol tramor, dinistriant beiriannau, rhoddant ffatrioedd ar dân, ceisiant adennill statws ddiiflanedig gweithwyr yr oesoedd canol.

Yn y cyfnod hwn nid yw'r gweithwyr trwy'r holl wlad namyn torf wasgaredig a dorrwyd yn ddarnau trwy ymgystadlu. Hyd yn hyn nid effaith eu hunoliaeth eu hunain ydyw eu clymu'n unedau mawrion, eithr effaith unoliaeth y bwrgeisiaid, sy'n gorfod, er sicrhau eu hamcanion gwleidyddol eu hunain, rhoi hwb ymlaen i'r dosbarth proletaraidd cyhyd ag y gallont. Yn y cyfnod hwn, felly, fe ymladda'r proletariat nid yn erbyn eu gelynyddion eu hunain, eithr yn erbyn gelynyddion eu gelynyddion—olion y breniniaethau absoliwt, y tîrfeddiannwyr, y bwrgeisiaid di-ddiwydiant, a'r mân fwrgeiswyr. Y mae eu holl ddatblygiad gwleidyddol wedi ei ganoli, felly, yn nwylo'r bwrgeisiaid; pob buddugoliaeth a enillir felly, buddugoliaeth y bwrgeisiaid ydyw.

Gyda datblygiad diwydiant, fodd bynnag, nid yn unig fe amlha nifer y proletariaid, eithr fe'u crynhoir gyda'i gilydd yn dyrfaoedd mawrion; cryfhânt a theimlo'n ymwybodol o'u nerth. Fe ddaw buddiannau a chyflwr bywyd y proletariaid hefyd yn fwyfwy cyfartal, fel y dilea peiriannaeth fwyfwy'r gwahaniaethau mewn llafur, a thynnu cyflogau i lawr bron ym mhobman i'r un safon isel. Y mae cynnydd mewn cystadleuaeth ymhlith y bwrgeisiaid, ynghyd â'r argyfyngau masnach sy'n dilyn o'r herwydd, yn peri gwneud cyflogau'r gweithwyr yn fwyfwy cyfnewidiol, ac y mae'r gwellhâd cyson sy'n datblygu'n gyflymach o hyd mewn peiriannaeth yn peri gwneud eu bywoliaeth yn fwyfwy ansicr; mwyfwy felly yr yrnddengys gwrthdrawiad rhwng gweithwyr a chyfalafwyr unigol fel gwrthdrawiad rhwng dau ddosbarth. Fe ddechreu'r gweithwyr ffurfio undebau yn erbyn y bwrgeisiaid, ac ymunant â'i gilydd i amddiffyn eu cyflogau. Ffurfiant hyd yn oed undebau parhaol er mwyn paratoi ar gyfer y gwrthryfeloedd achlysurol hyn. Yma ac acw try'r frwydr yn derfysg agored.

O bryd i'w gilydd, fe enilla'r gweithwyr fuddugoliaeth eithr buddugoliaeth dros dro yn unig. Nid yn y llwyddiant uniongyrchol y saif gwir arwyddocâd eu brwydrau, eithr yn ymlediad cyson unoliaeth y gweithwyr. Hyfforddir ef ymhellach gan y cynnydd yn y cyfryngau cyfathrach a greir gan y diwydiant mawr, ac a ddwg weithwyr gwahanol{Diwedd 16} ardaloedd i gysylltiad agos â'i gilydd. Dyma'n union y cysylltiad yr oedd yn rhaid wrtho er mwyn uno'r amryw frwydrau lleol—brwydrau o'r un ansawdd ym mhobman—yn un frwydr ar radd genedlaethol, hynny yw, yn frwydr dosbarth. Ac y mae pob brwydr dosbarth yn frwydr wleidyddol. Trwy gyfrwng y rheilffyrdd fe enilla'r proletariat, mewn rhai blynyddoedd, yr unoliaeth honno y treuliodd bwrdeiswyr yr oesoedd canol, oherwydd eu ffyrdd tlawd, ganrifoedd i'w meithrin.

Fe ddinistrir trefniant y proletariat fel dosbarth, ac felly fel plaid wleidyddol, drachefn gan gystadleuaeth y gweithwyr eu hunain. Eithr ymgyfyd drachefn a thrachefn, yn gadarnach, yn gryfach, ac yn fwy nerthol. Enilla gydnabyddiaeth gyfreithiol i rai o fuddiannau arbennig y gweithwyr, a hynny trwy fanteisio ar y rhaniadau ymhlith y bwrgeisiaid eu hunain. Felly'r Gyfraith Ddeg Awr yn Lloegr. [16]

Y mae gwrthdrawiadau'r hen gymdeithas yn hyfforddi mewn llawer modd gwrs datblygiad y proletariat. Fe fydd y bwrgeisiaid yn eu gweld eu hunain ymysg brwydrau parhaus, yn gyntaf, yn erbyn y bendefigaeth, yn ddiweddarach, yn erbyn yr adrannau hynny o'r bwrgeisiaid eu hunain y mae eu buddiannau'n groes i ddatblygiad diwydiant, a beunydd yn erbyn bwrgeisiaid pob gwlad arall. Ym mhob un o'r brwydrau hyn y mae'n rhaid iddynt apelio at y proletariat, erfyn eu cymorth, a'u harwain, felly, i'r ornest wleidyddol. Fe gyflwynant i'r proletariat, o ganlyniad, elfennau diwylliant priodol iddynt eu hunain—arfau i'w defnyddio yn erbyn y bwrgeisiaid.

Ac ymhellach, fel y gwelsom, fe deflir darnau cyfain o'r dosbarthiadau llywodraethol i lawr i blith y proletariat gan ddatblygiad diwydiant, neu ynteu, o leiaf, fe beryglir eu safonau byw. Cyflwynant hefyd ystod eang o adnoddau diwylliannol ac addysgiadol newydd i'r proletariat.

Yn y diwedd, pan ddêl awr barn y frwydr dosbarth, fe gymer yr ymddatodiad y tu mewn i'r dosbarth llywodraethol, a'r tu mewn i'r hen gymdeithas yn gyfangwbl, ffurf mor amlwg a bygythiol, nes peri i ddarn bychan o'r dosbarth llywodraethol ymneilltuo ac ymglymu wrth y dosbarth chwyldroadol, y dosbarth sydd â'r dyfodol yn ei ddwylo. Megis gynt yr aeth rhan o'r bendefigaeth drosodd at y bwrgeisiaid, felly yn awr yr â darn o'r bwrgeisiaid drosodd at y proletariaid, yn enwedig y darn hwnnw o'r meddylwyr ymhlith y bwrgeisiaid a enillodd ddealltwriaeth ddamcaniaethol o ddatblygiad hanes yn ei gyfanrwydd.

O bob dosbarth sy'n wynebu'r bwrgeisiaid heddiw, y proletariat yw'r unig ddosbarth gwirioneddol chwyldroadol. Fe ddirywia'r dosbarthiadau eraill a diflannu o flaen y diwydiant mawr, eithr ei gynnyrch hanfodol ydyw'r proletariat.

Y mae'r aelodau o'r dosbarthiadau canol—y diwydiannydd bach, y masnachwr bach, y crefftwr, a'r tyddynnwr—yn brwydro yn erbyn y bwrgeisiaid er mwyn achub rhag dinistr eu bodolaeth o fewn y dosbarthiadau canol. Nid ydynt yn chwyldroadol, felly, eithr yn geidwadol. Mwy na hynny, y maent yn adweithiol; ceisiant droi llif hanes yn ôl. Y maent yn chwyldroadol, os ydynt o gwbl, oherwydd eu bod ar groesi i'r proletariat ac felly'n amddiffyn eu buddiannau am y dyfodol yn hytrach na'u buddiannau presennol; gwadant, felly, eu safbwynt eu hunain er mwyn eu gosod eu hunain yn safle'r proletariat.

Yma ac acw, trwy gyfrwng chwyldro proletaraidd, fe ysgubir i mewn i'r mudiad y lumpenproletariat, sef, gwehilion goddefol haenau isaf yr hen gymdeithas; eithr y maent hwy, yn rhinwedd holl gyflwr eu bywyd, yn debycach o'u gwerthu eu hunain i gynllwynion adweithiol. {Diwedd 17}

Y mae amodau bywyd yr hen gymdeithas eisoes wedi eu difetha yn nhelerau bywyd y proletariat. Y mae'r proletariad yn ddieiddo; y mae, ei berthynas â'i wraig, a'i blant yn gwbl wahanol i berthynas deuluol y bwrgais; y mae llafur diwydiannol modern a'r darostyngiad modern i gyfalaf—sydd yr un yn Lloegr ac yn Ffrainc, yn America ac yn yr Almaen—wedi diosg oddi amdano y cyfan o'i gymeriad cenedlaethol. Iddo ef nid yw cyfraith, moesoldeb, a chrefydd ond nifer o ragfarnau bwrgeisaidd, rhagfarnau y celir y tu cefn iddynt gynifer o fuddiannau bwrgeisaidd.

Ymgeisiodd pob dosbarth cynharach a enillodd reolaeth sicrhau'r safle yr oedd eisoes wedi ei hennill, a hynny trwy ddarostwng gymdeithas yn gyfangwbl i amodau ei ffyniant ei hunan. Ni eill y proletariaid berchnogi galluoedd cynhyrchu gymdeithas oni ddifodant eu hen ddull hwythau o

feddiannu eiddo, a chydag ef bob dull o feddiannu a fu o'i flaen. Nid oes gan y proletariaid ddim o'u heiddo'u hunain i'w sicrhau, eu swydd ydyw difetha pob diogelwch ac amddiffyn a berthynai hyd yn hyn i eiddo preifat.

Mudiad y lleiafrif fu pob mudiad o'r blaen, neu ynteu fudiad er mwyn y lleiafrif. Mudiad hunanymddibynnol y mwyafrif enfawr er mwyn y mwyafrif enfawr ydyw'r mudiad proletaraidd. Ni eill y proletariat, y dosbarth isaf yn y gymdeithas bresennol, ymgyfodi a sefyll ar ei draed, oni ddryllia'r holl oruwchadeilad o haenau cymdeithasol sy'n ffurfio'r gymdeithas swyddogol.

O ran ffurf er nad o ran cynnwys, y mae brwydr y proletariat yn erbyn y bwrgeisiaid, ar y dechrau, yn frwydr genedlaethol. Rhaid i broletarwyr pob gwlad, yn naturiol, wneud i ffwrdd â'u bwrgeisiaid eu hunain yn gyntaf.

Wrth amlinellu'r cyfnodau mwyaf cyffredinol yn natblygiad y proletariat, dilynasom gwrs y rhyfel cartref mwy neu lai cudd sy'n bod o fewn y gymdeithas bresennol, hyd at y man lle yr ymffrwydra'n chwyldro agored, lle y dymchwelir y fwrgeisiaeth trwy rym, ac y sefydlir rheolaeth y proletariat.

Fe orffwysodd pob cymdeithas hyd yn hyn, fel y gwelsom, ar wrthdrawiad dosbarthiadau gorthrymgar a gorthrymedig. Eithr er mwyn gorthrymu dosbarth, y mae'n rhaid sicrhau iddo o leiaf yr amodau a'i gwnâ'n bosibl iddo gadw'n fyw dan ei orthrwm. Yng nghyfnod taeogaeth, gwnâi'r taeog ymdrech i ddyfod yn aelod o'r Commune, megis yr ymdrechai'r perchennog bychan yntau, o dan iau'r unbennaeth ffiwdal, i fod yn aelod o'r fwrgeisiaeth. Eithr yn lle codi gyda chynnydd diwydiant, y mae'r gweithiwr modern, i'r gwrthwyneb, yn syrthio'n is, yn is nag amodau bywoliaeth ei ddosbarth ei hunan. Â'r gweithwyr ar y plwyf, a hynny'n gyflymach nag y datblyga poblogaeth a chyfoeth. Y mae'n amlwg, felly, nad ydyw'r bwrgeisiaid fel dosbarth yn alluog i reoli cymdeithas ddim pellach, nac i orfodi arni megis deddf sylfaenol eu telerau byw eu hunain. Y maent yn analluog i lywodraethu am eu bod yn analluog i sicrhau i'w caethion fywoliaeth hyd yn oed o fewn terfynau eu caethiwed: am eu bod yn analluog i rwystro'r sefyllfa lle y mae'n rhaid arnynt eu porthi hwy yn hytrach na chael eu porthi ganddynt. Ni eill cymdeithas fyw dan y fwrgeisiaeth hon ddim rhagor, hynny yw, nid yw ei bodolaeth yn cydweddu mwyach â bywyd cymdeithas.

Amod hanfodol bodolaeth a rheolaeth y bwrgeisiaid ydyw pentyrru cyfoeth yn nwylo unigolion, ffurfio ac amlhau cyfalaf; amod cyfalaf yw llafur cyflogedig. Mae llafur cyflogedig yn gyfangwbl ddibynnol ar gystadleuaeth ymhlith y gweithwyr. Y mae'r cynnydd mewn diwydiant a hyfforddir yn ddilestair ac anymwybodol gan y bwrgeisiaid, yn troi'r{Diwedd 18} unigeiddiaeth a seiliwyd ar gystadleuaeth ymhlith y gweithwyr, yn unoliaeth chwyldroadol a seilir ar gyd-weithgarwch. A mae datblygiad y diwydiant mawr, felly, yn tynnu o dan draed y bwrgeisiaid y sylfaen ar yr hon y cynhyrchir ac y meddiannir nwyddau. Fe gynhyrchant yn anad dim eu torrwr bedd eu hunain. Y mae eu cwmp hwythau a buddugoliaeth y proletariat yn anochel, y naill fel y llall.

## II

### Y PROLETARIAID A'R COMIWNYDDION

Beth ydyw'r berthynas rhwng y Comiwnyddion a'r proletariaid yn gyffredinol?

Nid plaid arbennig ar wahân i bleidiau eraill y gweithwyr ydyw'r Comiwnyddion.

Nid oes iddynt unrhyw fuddiannau ar wahân i fuddiannau'r proletariat yn ei grynswth.

Ni chyhoeddant unrhyw egwyddorion arbennig y mynnant seilio'r mudiad proletaraidd arnynt.

Y mae'r Comiwnyddion yn wahanol i'r pleidiau proletaraidd eraill yn hyn o beth yn unig: eu bod, ar y naill law, yng ngwahanol frwydrau cenedlaethol y proletariat, yn pwysleisio'u buddiannau cyffredin sy'n annibynnol o'u cenedligrwydd gan fynnu cydnabyddiaeth iddynt, a'u bod, ar y llaw arall, yn y gwahanol gyfnodau yn natblygiad y frwydr rhwng y fwrgeisiaeth a'r proletariat, yn cynrychioli o hyd fuddiannau'r mudiad yn ei gyfanrwydd.

O safbwynt ymarferol, felly, y Comiwnyddion yw'r adran fwyaf penderfynol, a'r fwyaf blaengar o bleidiau'r gweithwyr ym mhob gwlad; ac o safbwynt damcaniaeth, y mae ganddynt y fantais ar y rhan helaeth o'r proletariaid eu bod yn deall amodau'r mudiad proletaraidd, llinell ei ddatblygiad, a'i ganlyniadau cyffredinol.

Yr un ydyw bwriad cyntaf y Comiwnyddion ag eiddo pob un o'r pleidiau proletaraidd eraill, sef, adeiladu'r proletariat fel un dosbarth, dymchwelyd rheolaeth y bwrgeisiaid, ac ennill gallu gwleidyddol i'r gweithwyr.

Ni seiliwyd daliadau damcaniaethol y Comiwnyddion mewn unrhyw fodd ar syniadau a ddyfeisiwyd neu egwyddorion a ddarganfuwyd gan ryw garn-ddiwygiwr neu'i gilydd.

Nid ydynt ond mynegiad, mewn dull cyffredinol, o amgylchiadau brwydr dosbarth sy'n bod yn awr, datblygiad hanesyddol sy'n digwydd o flaen ein llygaid.

Nid dileu'r dulliau traddodiadol o berchnogi eiddo yw nodwedd arbennig Comiwnyddiaeth.

Bu dulliau o berchnogi eiddo erioed yn agored i anwadalwch hanesyddol a chyfnewidiadau hanesyddol parhaus.

Fe ddifethodd y Chwyldro Ffrengig, er enghraifft, ddulliau ffiwdal o berchnogi eiddo er mwyn sefydlu dulliau bwrgeisaidd.

Yr hyn a nodwedda Gomiwnyddiaeth ydyw dileu eiddo bwrgeisaidd, ac nid dileu eiddo'n gyffredinol. Eithr eiddo preifat y bwrgeis modern ydyw'r enghraifft olaf a pherffeithiaf o'r dull o gynhyrchu a meddiannu cyfoeth a seiliwyd ar wrthdrawiad dosbarth, ar eexploitio'r lliaws gan yr ychydig.

Yn yr ystyr hon, fe eill y Comiwnyddion grynhoi eu damcaniaeth i un frawddeg; dileu eiddo preifat.

Fe ddanodwyd inni Gomiwnyddion ein bod yn dymuno dileu eiddo a enillwyd trwy lafur personol, eiddo sy'n sail pob rhyddid personol a phob gweithgarwch ac annibyniaeth.

Hunan-aberth, hunan-lafur, hunan-wasanaeth! Ai am eiddo mân grefftwyr a mân dyddynwyr y soniwch, y ffurf ar eiddo a ragflaenodd y ffurf gyfalafol? Nid oes eisiau inni ddileu hwnw; y mae datblygiad diwydiant wedi ei ddileu i raddau mawr, ac y mae'n parhau i'w ddileu'n feunyddiol yn awr.

Ai ynteu am eiddo cyfalafal modern y soniwch chi?

Eithr a ydyw llafur cyflogedig, sef, llafur y proletariad, yn creu eiddo iddo yntau? Ddim o gwbl. Crea gyfalaf, sef, eiddo sy'n eexploitio llafur cyflogedig, eiddo na eill gynyddu ond ar{Diwedd 20} yr amod ei fod o hyd yn creu llafur cyflogedig o'r newydd i'w eexploitio o'r newydd. Y mae eiddo yn ei ffurf bresennol yn gorffwys ar y gwrthdrawiad sy'n bod rhwng cyfalaf a llafur cyflogedig. Ystyriwn y ddwy ochr i'r gwrthdrawiad hwn.

A fo gyfalafydd, rhaid iddo gymryd arno nid yn unig swydd bersonol mewn cynhyrchu, eithr swydd gymdeithasol. Cynnyrch cymdeithas yn gyffredin ydyw cyfalaf, ac ni roddir ef ar waith ond trwy gyd-weithgarwch llawer o aelodau; yn wir, yn y pen draw, dim ond trwy gyd-weithgarwch pob aelod o'r gymdeithas.

Nid gallu personol eithr gallu cymdeithasol, felly, ydyw cyfalaf.

Pan droir cyfalaf yn eiddo cyffredin cymdeithas, a phob aelod o'r gymdeithas yn berchen arno, ni throir eiddo personol yn eiddo cymdeithasol oblegid hynny. Arwyddocâd yr eiddo o safbwynt cymdeithas yn unig a newidir. Fe gyll ei arwyddocâd fel eiddo dosbarth.

Ystyriwn lafur cyflogedig.

Pris llafur cyflogedig ar gyfartaledd ydyw gwerth y Gyflog Isaf, hynny yw, y gyfran o'r moddion cynhaliath sy'n angenrheidiol i gadw'r gweithiwr yn fyw fel gweithiwr. Beth bynnag a enilla'r gweithiwr trwy gyfrwng ei weithgarwch, felly, nid yw'n ddigon ond i ddal deupen llinyn ynghyd. Ni ddymunem ni mewn unrhyw fodd ddileu'r meddiant personol hwn ar gynnyrch llafur, meddiant sy'n adnewyddu bywyd yn uniongyrchol, heb adael gweddill fyddai'n fodd i unrhyw un hawlio llafur rhywun arall. Dymunem yn unig ddileu amodau truenus y meddiant hwn, amodau y mae'r gweithwir yn byw danynt yn unig er mwyn cynyddu cyfalaf, ac yn byw'n unig cyhyd ag y bo budd y dosbarth llywodraethol yn gofyn hynny.

Yn y gymdeithas gyfalafol nid yw llafur byw ond moddion cynyddu llafur cronedig; yn y gymdeithas Gomiwnyddol nid yw llafur cronedig ond moddion hyfforddi, cynorthwyo, a chyfoethogi bywyd y gweithiwr.

Yn y gymdeithas gyfalafol, felly, y gorffennol sy'n rheoli'r presennol, eithr yn y gymdeithas Gomiwnyddol fe lywodaetha'r presennol ar draul y gorffennol. Yn y gymdeithas gyfalafol y mae gan gyfalaf annibyniaeth a hunaniaeth, a'r unigolyn byw heb nag annibyniaeth na phersonoliaeth.

A geilw'r bwrgeisiaid ddinistr y pethau hyn yn ddinistr personoliaeth a rhyddid. Ac yn gywir felly. Fe olyga'n ddiamau ddinistr rhyddid, annibyniaeth, a phersonoliaeth y bwrgais.

Yr hyn a olygir wrth ryddid dan y gyfundrefn gyfalafol bresennol ydyw masnach rydd, prynu a gwerthu'n rhydd.

Eithr os diflanna mân farchnata, fe ddiflanna hefyd fân farchnata rhydd. Nid oes ystyr i'r holl siarad am ryddid masnach, ac i holl ymfrostion eraill ein bwrgeisiaid ynglŷn â rhyddid yn gyffredinol, ag eithrio o safbwynt masnach gyfyngedig, o safbwynt bwrgeisiaid caeth, y canol oesoedd. Nid oes iddynt ystyr o safbwynt dinistr mân farchnata, dinistr y dulliau cynhyrchu cyfalafol, a dinistr y bwrgeisiaid eu hunan, dan law'r Comiwnyddion.

Yn y cyfamser, fe'ch arswydir oblegid dymuno ohonom ddileu eiddo preifat. Eithr yn eich

cymdeithas chithau ar hyn o bryd, fe ddilewyd eiddo preifat i naw ran o ddeg o'r aelodau, ac y mae'n bodoli'n llwyr yn awr i'r ychydig yn union am nad yw'n bod i naw o bob deg. Fe'n cyhuddwch ni, felly, o ddymuno dileu math o eiddo sy'n golygu, o reidrwydd, ddiffyg eiddo i'r mwyafrif helaeth o gymdeithas.

Mewn gair, fe'n cyhuddwch ni o ddymuno dileu eich eiddo chithau. Yn gymwys felly; hynny'n union a ddymunwn. *{Diwedd 21}*

O'r funud pan na ellir mwyach droi llafur yn gyfalaf, arian, a rhent—sef, yn nerth cymdeithasol y gellir ennill monopoli arno—hynny yw, o'r funud pan na ellir troi eiddo preifat yn eiddo cyfalafol, o'r funud honno, meddir, fe ddifethir personoliaeth yr unigolyn.

Fe gydnabyddwch, felly, na olygwch wrth yr unigolyn ddim arall ond y bwrgais, y perchennog eiddo bwrgeisaidd. A'r person hwnnw, yn bendifaddau, y mae'n rhaid gwneud i ffwrdd ag ef.

Ni ddwg Comiwnyddiaeth oddi ar neb yr hawl i feddiannu cynnyrch cymdeithas; dwg oddi arno'n unig yr hawl i ecsplotio llafur eraill trwy gyfrwng y cyfryw feddiant.

Fe ddywedwyd yn ein herbyn y peidia pob gweithgarwch pan ddileir eiddo preifat, ac y goddiweddir ni gan ddiogi llwyr ym mhobman.

Os felly, fe ddylai cymdeithas gyfalafol fod wedi marw o ddiogi ers llawer dydd, oblegid nid ydyw neb sy'n gweithio ynddi yn elwa, a'r neb sydd yn elwa nid ydyw'n gweithio. Nid yw'r holl wrthwynebion hyn yn y pen draw namyn aralleiriad o'r dotoleg: ni bydd llafur cyflogedig lle na bo cyfalaf.

Y mae pob gwrthwynebiad a ddefnyddiwyd yn erbyn y dull Comiwnyddol o gynhyrchu a meddiannu nwyddau materol, wedi ei gymhwyso hefyd at y dull o gynhyrchu a meddiannu cynnyrch y meddwl. Megis yr ymddengys dileu eiddo dosbarth, o safbwynt y bwrgais, yn dileu cynnyrch fel y cyfryw, felly'n union yr ymddengys dileu diwylliant ac addysg dosbarth yn gyfystyr â dinistr diwylliant yn gyffredinol.

Ir mwyafrif mawr, nid yw'r addysg y galara ef oherwydd ei golli, yn ddim ond hyfforddiant mewn trin peiriant.

Eithr na chynhennwch â ni, a chithau'n mesur dinistr eiddo bwrgeisaidd â llinyn mesur eich syniadau bwrgeisaidd chi am ryddid, diwylliant, a chyfiawnder. Y mae hyd yn oed eich syniadau yn gynnyrch y dull bwrgeisaidd o gynhyrchu a pherchnogi eiddo, megis y mae eich cyfraith yn ddim ond ewyllys eich dosbarth wedi ei dyrchafu'n ddeddf, ewyllys y penderfynir ei chynnwys gan yr anghenion materol sy'n anhepgor i fywyd eich dosbarth.

Y mae'r safbwynt hunanol a wêl ddeddfau tragywydd natur a rheswm yn eich dulliau cynhyrchu a'ch dulliau chithau o ddal eiddo—dulliau hanesyddol a ânt heibio gyda datblygiad cynnyrch—y mae'r safbwynt hwn yn un a goleddwyd gan bob dosbarth llywodraethol gynt a drengodd. Yr hyn a gydnabyddwch am eiddo yn yr hen oesoedd, a'r hyn a gydnabyddwch am eiddo ffiwdal, ni feiddiwch chi mwyach ei gydnabod fel eiddo cyfalafol.

Dileu'r teulu! Fe ffroma hyd yn oed y mwyaf radical wrth y bwriad gwaradwyddus hwn o eiddo'r Comiwnyddion.

Ar ba beth y seilir y teulu presennol, y teulu bwrgeisaidd? Ar gyfalaf, ar elw preifat. Y mae'n bod yn ei lawn dwf ymhlith y bwrgeisiaid yn unig, eithr gan gael ei gwpláu gan ymddatodiad anorfod y teulu ymhlith y proletatwyr, a chan buteindra cyhoeddus.

Fe ddiflanna'r teulu bwrgeisaidd yn naturiol pan ddiflanna'r pethau hyn sy'n mynd law yn llaw ag ef, ac fe ddiflannant oll pan ddiflanna cyfalaf.



A gyhuddwch chi ni o geisio rhwystro ecsplôitio plant gan eu rhieni? Fe gyfaddefwn ein bod yn euog o'r trosedd hwn.

Ond, meddech chi, fe ddinistriwn y berthynas fwyaf cysegredig pan osodwn addysg gymdeithasol yn lle addysg yr aelwyd.

Ac oni phenderfynir eich addysg chithau hefyd gan gymdeithas, gan yr amgylchiadau{Diwedd 22} cymdeithasol yr addysgwch danynt, gan ymyrraeth uniongyrchol neu anuniongyrchol cymdeithas, trwy gyfrwg ysgolion, etc.? Nid y Comiwnyddion a ddyfeisiodd ymyrraeth cymdeithas mewn addysg, fe geisiant yn unig newid ei ansawdd ac achub addysg rhag dylanwad y dosbarth llywodraethol.

Y mae'r brygawthach bwrgeisaidd ynglŷn â'r teulu ac addysg, ynglŷn â'r berthynas gysegredig rhwng plant a'u rhieni, yn mynd gymaint yn fwy cyfoglyd po fwyaf y difetha'r diwydiant mawr bob rhwymau teuluol ymhlith y proletariaid, ac y troir plant yn ddim ond offer llafur a nwyddau'r farchnad.

Eithr fe sefydlech chi'r Comiwnyddion gyd-feddiant gwragedd, llefa'r bwrgeisiaid i gyd yn un côr yn ein herbyn.

Fe wêl y bwrgais yn ei wraig offeryn cynhyrchu yn unig. Clyw fod yr offer cynhyrchu i'w hecsplôitio'n gyffredin, ac, yn naturiol, ni eill lai na chredu fod y dynged o gyd-feddiant yn aros y gwragedd yr un fath.

Ni eill hyd yn oed ddyfalu mai'r amcan yn union ydyw dileu'r sefyllfa lle nad yw gwragedd yn ddim ond offer cynhyrchu yn unig.

Am y gweddill, nid oes dim yn fwy chwerthinllyd nag arswyd goruwchfoesol ein bwrgeisiaid tuag at y cyd-feddiant gwragedd yr honnir y sefydlir ef yn agored gan y Comiwnyddion. Ni raid i'r Comiwnyddion sefydlu cyd-feddiant gwragedd; y mae'r peth wedi bodoli bron er cyn cof.

Y mae ein bwrgeisiaid, na fodlonant ar gael gwragedd a merched y proletariaid i'w gwasanaeth, heb son am buteiniaid swyddogol, yn darganfod yr hyfrydwch pennaf mewn denu eu gwragedd ei gilydd.

Cyfundrefn cyd-feddiant gwragedd, mewn gwirionedd, ydyw'r briodas fwrgeisaidd. Ar y mwyaf, ni ellid cyhuddo'r Comiwnyddion ond o ddymuno sefydlu cyd-feddiant gwragedd fel cyfundrefn swyddogol ac agored, yn lle'r gyfundrefn gudd a rhagrithiol bresennol. Am y gweddill, y mae'n hunan-amlwg fod dileu'r gyfundrefn gynhyrchu bresennol yn rhwym o ddileu'r gyfundrefn o gyd-feddiant gwragedd sy'n deillio ohoni, hynny yw, puteindra swyddogol ac answyddogol.

Fe gyhuddir y Comiwnyddion ymhellach o ddymuno dileu'r famwlad a chenedligrwydd.

Nid oes gan y gweithwyr unrhyw famwlad. Ni ellir dwyn oddi arnynt yr hyn na fu ganddynt. Gan ei bod yn rhaid i'r proletariat yn gyntaf ennill rheolaeth wleidyddol, sef, ei ddyrchafu ei hunan yn brif ddsbarth y wlad a'i sefydlu ei hunan yn enw'r genedl, y mae eto'n genedlaethol, eithr nid yn yr ystyr fwrgeisaidd i'r gair.

Y mae gwahaniaethau cenedlaethol a gelyniaeth cenedloedd eisoes yn diflannu fwyfwy yn wyneb datblygiad y bwrgeisiaid, yn wyneb rhyddid masnach, y farchnad fyd, unffurfiaeth cynhyrchu diwydiannol, a'r amgylchiadau bywyd sydd yn unol â hwynt.

Pair rheolaeth y proletariat iddynt ddiflannu'n gyfymach fyth. Y mae gweithredu'n unedig ymhlith y gwledydd gwâr, o leiaf, yn un o anheggorion pennaf ei ymryddhad.

I'r graddau y dileir ecsplôitio'r naill unigolyn gan y llall, fe ddileir hefyd ecsplôitio'r naill genedl gan genedl arall.

Pan ddiflanna'r rhwyg rhwng dosbarthiadau y tu mewn i'r genedl, fe ddiflanna'r elyniaeth rhwng y cenhedloedd hwythau.

Nid yw'r cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y Comiwnyddion o safbwynt crefydd ac athroniaeth, ac o safbwynt ideolegol yn gyffredinol, yn haeddu ymdriniaeth bellach. {Diwedd 23}

A oes raid wrth weledigaeth ddofn i sylweddoli bod newidiadau mewn dull dynion o fyw, newidiadau yn eu hamgylchiadau cymdeithasol a'u bywyd cymdeithasol, yn peri newidiadau hefyd yn eu syniadau, eu hamgyffred, a'u dealltwriaeth—yn eu holl ymwybyddiaeth, mewn gair?

Pa beth y mae hanes syniadau yn ei brofi onid hyn, sef, bod cynnyrch y meddwl yn ymgyfnewid gyda phob newidiad mewn cynnyrch materol? Syniadau'r dosbarth llywodraethol erioed fu syniadau llywodraethol yr oes.

Pan sonir am syniadau yn chwyldroi cymdeithas yn gyfangwbl, cyfeirir yn unig at y ffaith fod elfennau'r gymdeithas newydd wedi eu ffurfio y tu mewn i'r hen gymdeithas, a bod ymddatodiad yr hen syniadau yn cyd-redeg ag ymddatodiad yr hen gymdeithas.

Pan oedd yr hen fyd ar ddarvoud amdano, gorchfygwyd yr hen grefyddau gan y grefydd Gristnogol. Pan ddisodlwyd syniadau Cristnogol yn y ddeunawfed ganrif gan syniadau'r Oleuedigaeth fe ymladdodd y gymdeithas ffiwdal ei brwydr farwol hithau â bwrgeisiaid chwyldroadol yr oes. Ni wnaeth y syniadau am ryddid crefydd a rhyddid cydwybod ond mynegi goruchafiaeth cystadleuaeth rydd ym myd gwybodaeth.

'Ond', fe ddywedir, 'newidiodd syniadau crefyddol, moesol, athronyddol, gwleidyddol, cyfreithiol, etc., yn ddiamau yng nghwrs datblygiad hanes. Eithr fe oroesodd crefydd, moesoldeb, athroniaeth, gwleidyddiaeth, a chyfraith yr holl gyfnewidiadau hyn.

'Gyda hynny, y mae yna wirioneddau tragwyddol, megis rhyddid, cyfiawnder etc., sy'n gyffredin i bob cyflwr ar gymdeithas. Eithr fe ddilea Comiwnyddiaeth y gwirioneddau tragwyddol, difoda grefydd a moesoldeb yn lle'u hailadeladu o'r newydd. Y mae felly'n gwrthddweud holl ddatblygiad hanes fel y bu hyd yn hyn'.

Beth yn y bôn ydyw swm a sylwedd y gwrthwynebiad hwn? Fe ddatblygodd hanes pob cymdeithas hyd yn hyn trwy gyfrwng gwrthddywediadau dosbarth, gwrthddywediadau o ffurf wahanol mewn gwahanol gyfnodau.

Eithr pa ffurf bynnag a gymerwyd ganddynt, bu ecsplôitio'r naill ran o gymdeithas gan y llall yn un o'r ffeithiau a fu'n gyffredin i bob canrif a aeth heibio. Nid oes ryfedd, felly, i ymwybyddiaeth gymdeithasol pob canrif, er ei hamrywiaeth a'i gwahaniaethau, ymsymud trwy gyfrwng syniadau o ffurf gyffelyb, a thrwy gyfrwng ffordd o feddwl nas dileir yn llwyr oni ddileir gwrthddywediadau dosbarth yn gyfangwbl.

Fe olyga chwyldro Comiwnyddol ymwrthod yn sylfaenol â'r dulliau traddodiadol o berchnogi eiddo; nid yw'n beth rhyfedd yr ymwrthodir yn sylfaenol yng nghwrs ei ddatblygiad â'r syniadau traddodiadol.

Ond rhown y gorau i wrthwynebiadau'r bwrgeisiaid i Gomiwnyddiaeth.

Fe welsom uchod mai'r cam cyntaf yn chwyldro'r gweithwyr ydyw sefydlu'r proletariat yn ddosbarth llywodraethol, ac ennill y frwydr dros ddemocratiaeth.

Ar gyfer hynny, fe ddefnyddia'r proletariat ei unbennaeth wleidyddol i ddwyn oddi ar y bwrgeisiaid o dipyn i beth eu holl gyfalaf, i ganoli'r moddion cynhyrchu yn nwylo'r wladwriaeth—hynny yw, y proletariat a ddirchafwyd yn ddosbarth llywodraethol—ac i gynyddu maint y galluoedd cynhyrchu cyn gyflymed ag y bo'n bosibl.

Ar y dechrau, yn naturiol, ni ellir gwneud hyn ag eithrio trwy ymyrryd yn dra awdurdodol ar hawliau eiddo ac ar dulliau cynhyrchu cyfalafol, trwy gyfrwng mesurau, felly, sy'n ymddangos o safbwynt economaidd yn anghyfaddas ac ansafadwy, eithr mesurau sy'n eu gor-redeg eu hunain yng nghwrs y mudiad, a mesurau sy'n anochel fel cyfrwng i{Diwedd 24} chwyldroi'r dulliau cynhyrchu yn eu cyfanrwydd.

Fe fydd y mesurau hyn, yn naturiol, yn wahanol mewn gwahanol wledydd. [17] Yn y gwledydd blaenaf, er hynny, fe eill y mesurau a ganlyn fod o ddefnydd gweddol gyffredin.

1. Gwladoli stadau tir a defnyddio'r rhenti er budd y wladwriaeth.
2. Trethiant cynyddol, trwm.
3. Diddymu hawliau etifeddiaeth.
4. Difeddiannu alltudion a gwrthryfelwyr o'u heiddio. [18]
5. Canoli credyd yn nwylo'r wladwriaeth trwy gyfrwng banc cenedlaethol ynghyd â chyfalaf gwladwriaethol â monopoli cyflawn.
6. Canoli'r gyfundrefn drafnidiaeth yn nwylo'r wladwriaeth.
7. Amlhau nifer y ffatrioedd gwladwriaethol a'r offer cynhyrchu, adfer tir, a gwella ystadau drwy gynllun holl-gynhwysfawr.
8. Cyfartalu dyletswyddau gwaith pawb, sefydlu byddinoedd diwydiannol, yn enwedig ar gyfer amaethyddiaeth
9. Cyfuno trefniant amaethyddiaeth a diwydiant, a gweithio i ddileu'n raddol y gwahaniaethau rhwng gwlad a thref.
10. Addysg rydd a chyhoeddus ar gyfer pob plentyn. Dileu llafur plant mewn ffatrioedd yn ei ffurf bresennol. Cysylltu addysg â'r dulliau materol o gynhyrchu, etc.

Pan ddiplanna gwahaniaethau dosbarth yng nghwrs datblygiad, a phan ganolir cynhyrchu yn gyfangwbl yn nwylo'r gymdeithas o unigolion, fe gyll y grym cyhoeddus ei agwedd wleidyddol. Nid yw grym gwleidyddol, yng ngwir ystyr y gair, ond gallu trefnedig un dosbarth i orthrymu dosbarth arall. Pan ymuna'r proletariaid o anghenraid yn un dosbarth yn ystod eu brwydr yn erbyn y bwrgeisiaid, pan ddyrchafant eu hunain trwy chwyldro yn ddosbarth llywodraethol, a phan ddilea yntau fel dosbarth llywodraethol yr hen ddulliau cynhyrchu, yna fe ddilea, ynghyd â'r dulliau cynhyrchu hynny, hanfodion bodolaeth gwrthddywediadau dosbarth, dosbarthiadau yn gyffredinol, a chyda hwy ei unbennaeth ei hunan fel dosbarth.

Yn lle'r hen gymdeithas fwrgeisaidd gyda'i dosbarthiadau a'r elyniaeth rhyngddynt cawn gymdeithas lle y bydd datblygiad rhydd yr unigolyn yn sylfaen datblygiad rhydd i bawb.

### III

## LLENYDDIAETH SOSIALAIDD A CHOMIWNYYDDOL

### 1. Sosialaeth Adweithiol

#### (a) Sosialaeth Ffiwdal

Oherwydd safle hanesyddol y bendefigaeth yn Ffrainc ac yn Lloegr, bu'n rhan o'i galwedigaeth i ysgrifennu pamffledi yn erbyn y fwrgeisiaeth. Yn Chwyldro Gorffennaf 1830 yn Ffrainc ac ym mudiad y Diwygiad Gwleidyddol yn Lloegr, ymostyngasant unwaith eto i'r newydd-gyfodiaid atgas. [19] O hynny ymlaen, yr oedd brwydr wleidyddol yn amhosibl; brwydr lenyddol yn unig oedd ar ôl. Ond hyd yn oed ym myd llenyddiaeth ni wnâi hen frawddegau cyfnod yr Adferiad ddim o'r tro. [20]

Er mwyn ennyn cydymdeimlad yr oedd yn rhaid i'r bendefigaeth gymryd arni golli golwg ar ei buddiannau ei hunan, a chario'i hymosodiad yn erbyn y bwrgeisiaid yn enw'r dosbarth gweithiol gorthrymedig. Felly, fe geisiodd ad-dalu'r pwyth trwy ddychanu ei meist'r newydd a sibrdw proffwydoliaethau mwy neu lai trychinebus yn ei glust.

Felly y cyfododd Sosialaeth ffiwdal; rhyw hanner galargan a hanner gogangerdd; hanner hiraeth am y gorffennol a hanner bygythiad am y dyfodol; weithiau'n clwyfo'r bwrgeisiaid hyd waelod y galon gan ei beirniadaeth chwerw, ddoniol, a phigog, eithr o hyd yn chwerthinllyd ddieffraith oherwydd ei hanallu llwyr i ddeall cyfeiriad hanes modern.

Er mwyn denu'r bobl ar ei hôl chifiai'r bendefigaeth ysgrepan gardod y proletariat fel lluman o'i blaen, eithr cyn gynted ag yr âi neb i'w dilyn, fe welai ar ei phen ôl yr hen bais arfau ffiwdalaidd, ac ymadawai gan chwerthin yn ddirmygus a dilywodraeth.

Rhoes nifer o'r Cyfreithlonwyr Ffrengig a Young England enghreifftiau o'r chwarae hwn ar ei orau. [21]

Pan ddengys y landlordiaid fod eu dull hwy o ecploitio yn wahanol i ddull y bwrgeisiaid, fe anghofiant eu bod hwy'n ecploitio dan amgylchiadau cwbl wahanol, ac amgylchiadau sydd bellach wedi darfod. A phan brofant ymhellach nad oedd y proletariat modern yn bod dan eu rheolaeth hwy, fe anghofiant fod hyd yn oed y bwrgeisiaid yn un o hil anochel eu ffurf hwy ar gymdeithas.

Am y gweddill, fe guddiant ansawdd adweithiol eu beirniadaeth mor lleied nes mynd o'u prif gŵyn yn erbyn y bwrgeisiaid yn ddim ond hyn, bod dosbarth yn datblygu dan eu rheolaeth sy'n rhwym o ddryllio'r hen gyfundrefn gymdeithasol.

Y maent yn cyhuddo'r bwrgeisiaid nid yn gymaint o greu proletariaid, eithr o greu proletariaid *chwyldroadol*.

Yn wleidyddol ymarferol felly, cefnogant bob mesur o orfodaeth yn erbyn y dosbarth llafur, gan

y mostwng, yn eu bywyd beunyddiol, er gwaethaf eu geiriau rhodresgar, i loffa'r tywysennau yd o faes diwydiant, a chyfnewid gwirionedd, cariad, ac anrhydedd am elw'r farchnad wllân, betys a *schnapps*. [22]

Megis yr aeth yr offeiriad erioed law yn llaw â'r landlord, felly yr aeth Sosialaeth Glerigol lawlaw â'r Sosialaeth ffiwdal.

Nid oes dim yn haws na rhoi arlliw Sosialaeth ar hunan-ymwadiad Cristnogol. Oni thaerodd Cristnogaeth hithau yn erbyn eiddo personol, yn erbyn priodas a'r wladwriaeth? Oni phregethodd yn hytrach weithredoedd da ac elusengarwch, bywyd{*Diwedd 26*} dibriod a marweiddio'r cnawd, bywyd mynachlog a'r eglwys? Nid yw Sosialaeth Gristnogol namyn y dwfr sanctaidd a ddefnyddia'r offeiriad i gysegru gwae calon yr aristocrat.

## (b) Sosialaeth Fân-fwrgeisaidd

Nid y bendefigaeth ffiwdal yw'r unig ddothbarth a ddymchwelir gan y bwrgeisiaid, ac y perir i'w foddion cynhaliath wywo a marw yn y gymdeithas gyfalafol fodern. Bwrdeiswyr y dosbarth canol a'r mân dyddynwyr ydoedd rhagflaenwyr y bwrgeisiaid modern. Yn y gwledydd hynny lle na ddatblygodd diwydiant a masnach ond yn brin, bu'r dosbarthiadau hyn byth yn rhygnu byw ochr yn ochr â'r bwrgeisiaid.

Mewn gwledydd lle y datblygodd gwareiddiad modern, fe ddatblygodd dosbarth mânfwrgeisaidd newydd, sy'n anwladu rhwng y proletariat a'r bwrgeisiaid, ac yn ei adnewyddu ei hunan beunydd fel darn cyflenwol o'r gymdeithas fwrgeisaidd. Eithr trwy gyfrwng cystadleuaeth fe hyrddir ei aelodau i lawr yn gyson i blith y proletariaid, ac oherwydd datblygiad y diwydiant mawr fe welant y dydd yn dyfod pan ddinistrir hwynt yn llwyr fel darn annibynnol o'r gymdeithas fodern, a phan ddisodlir hwynt gan oruchwylwyr a stiwardiaid mewn masnach, diwydiant, ac amaethyddiaeth.

Mewn gwledydd fel Ffrainc lle y ffurfia'r tyddynwyr fwy o lawer na hanner y boblogaeth, yr oedd yn naturiol i ysgrifennwyr a ymladdent ochr yn ochr â'r proletariaid yn erbyn y bwrgeisiaid, ddefnyddio llinyn mesur y mân berchnogion a'r mân dyddynwyr wrth feirniadu rheolaeth y bwrgeisiaid, ac achub rhan y gweithwyr o safbwynt y mânfwrgeiswyr. Felly y cyfododd Sosialaeth y mân-fwrgeisaidd. Sismondi ydoedd pennaeth y llenyddiaeth hon, nid yn unig yn Ffrainc eithr yn Lloegr hefyd. [23]

Fe ddadansoddodd yr ysgol hon o Sosialaeth yn y modd mwyaf treiddgar y gwrthddywediadau yn y dulliau cynhyrchu modern. Fe ddinoethodd amdiffyniad rhagrithiol yr economegwyr. Fe brofodd y tu hwnt i bob amheuaeth effeithiau dinistriol peiriannau a rhannu gwaith, canoli meddiant tir a chyfalaf, gorgynhyrchu ac argyfyngau. Fe ddangosodd ddinistr anochel y cyfalafydd bach a'r tyddynwr, dlodi'r gweithiwr, anarchiaeth cynhyrchu, anghyfartaledd trychinebus dosbarthiad cyfoeth, rhyfel diwydiannol dinistriol y cenedloedd, ac ymddatodiad yr hen rywmau moesol, yr hen berthynas deuluol, a'r hen genhedloedd.

O safbwynt adeiladol, fe fynnai'r Sosialaeth hon naill ai adnewyddu'r hen gyfryngau cynhyrchu a chyfnewid, ac adnewyddu, felly, yr hen ffurf ar berchnogaeth a chymdeithas, neu ynteu garcharu'r dulliau newydd o gynhyrchu a chyfnewid o fewn i ffrâm yr hen ffurfberchnogaeth, ffrâm a ddrylliwyd—o reidrwydd—gan y dulliau newydd hyn. Y mae'r naill ymgais mor adweithiol â'r llall, a lawn mor utopaidd.

Corfforaethau ar gyfer diwydiant a chyfundrefn batriarchaidd mewn amaethyddiaeth— dyna'i geiriau olaf.

Ym mhen eithaf ei datblygiad rhoes y Sosialaeth hon y ffidil yn y to mewn pwl llwfr o'r falen.

### (c) Sosialaeth Almaenaidd neu'r 'Wir' Sosialaeth

Ymgyfododd llenyddiaeth Sosialaidd a Chomiwnyddol Ffrainc dan orthrwm y{Diwedd 27} fwrgeisiaeth lywodraethol, ac nid oedd ond mynegiant llenyddol o'r frwydr yn erbyn ei llywodraeth; eithr fe'i dygwyd i'r Almaen ar adeg pan oedd brwydr y bwrgeisiaid yn erbyn yr unbennaeth ffiwdal newydd ddechrau.

Ymdaflodd athronwyr, crachathronwyr a rethregwyr yr Almaen yn eiddgar i'r lenyddiaeth hon, ond gan anghofio nad ymfudasai ffurfiau cymdeithasol Ffrainc hwythau i'r Almaen yn sgil y llyfrau. Yn wyneb yr amgylchiadau yn yr Almaen, fe gollodd y lenyddiaeth Ffrengig bob arwyddocâd ymarferol uniongyrchol, a chymerodd arni agwedd hollol lenyddol. Ymddangosai, o anghenraid, yn ddim ond myfyrdod academig ar hanfodion cymdeithas ac anian dynoliaeth. I athronwyr yr Almaen yn y ddeunawfed ganrif, felly, ni olygai gofynion y Chwyldro Mawr yn Ffrainc namyn gofynion y 'Rheswm Ymarferol' yn gyffredinol, ac ni arwyddai mynegiant ewyllys bwrgeisiaid chwyldroadol Ffrainc namyn deddf yr ewyllys bur, yr ewyllys fel y mae'n rhaid iddi fod, gwir ewyllys dynoliaeth. [\[24\]](#)

Camp llenorion yr Almaen oedd cysoni'r syniadau Ffrengig newydd â'u cydwybod athronyddol draddodiadol, neu, yn fwy cywir, atodi'r syniadau Ffrengig at eu safbwynt athronyddol eu hunain.

Gwnaethpwyd hyn yn union fel y byddys yn gyffredin yn mabwysiadu iaith estron, hynny yw, trwy gyfieithu.

Y mae'n hysbys sut yr ysgrifennodd y mynachod ffug-fywgraffiadau seintiau Catholig ar draws y llawysgrifau yr ysgrifennwyd arnynt weithiau clasurol y cyfnod paganauidd. Gwnaeth llenorion yr Almaen yn union i'r gwrthwyneb â'r llenyddiaeth Ffrengig; ysgrifenasant eu cawdel athronyddol y tu cefn i'r gwreiddiol. Er enghraifft, y tu cefn i'r feirniadaeth Ffrengig ar y drefn ariannol, ysgrifenasant 'Alltudiaeth Natur Hanfodol Dynoliaeth', a'r tu cefn i'r feirniadaeth ar wladwriaeth y bwrgeisiaid, ysgrifenasant 'Dadorseddu Rheolaeth Cyffredinolion Haniaethol', etc.

I'r gyfundrefn hon o frawddegau athronyddol a ddyfeisiwyd i gynrychioli'r datblygiadau Ffrengig, rhoesant yr enwau, 'Athroniaeth Gweithrediad', 'Gwir Sosialaeth', 'Gwyddor Sosialaeth Almaenaidd', 'Sylfaen Athronyddol Sosialaeth', ac felly ymlaen.

Felly yr amddifadwyd yn llwyr o'i chynnwys lenyddiaeth Sosialaidd a Chomiwnyddol Ffrainc. A chan iddi, yn nwylo'r Almaenwr, beidio â bod yn arwydd o frwydr y naill ddsbarth yn erbyn y llall, fe deimlai yntau ei fod wedi gorthfygu'r 'unochredd Ffrengig', a'i fod yn cynrychioli nid gwir angenrheidiau yn gymaint ag anghenreidiau'r gwir, nid lles y proletariat yn gymaint â lles natur dyn —y dyn diddosbarth sy'n perthyn i hud a lledrith dychymyg athronyddol ac nad oes ganddo fodolaeth yn unman.

Eithr fe gollodd y Sosialaeth Almaenaidd yn raddol bach ei diniweidrwydd pedantig— hithau'r Sosialaeth Almaenaidd a dderbyniodd ei gorchwyl bachgennaidd, lletchith, mor ddifrifol a pharchus-ofnadwy, ac a ddechreuodd ei gyrfa gyda'r fath rodres arwynebol.

Fe ddaeth brwydr bwrgeisiaid yr Almaen, sef bwrgeisiaid Prwsia, yn erbyn y ffiwdalwyr a'r frenhiniaeth absoliwt—hynny yw, y mudiad Rhyddfrydol—yn fwy difrifol.

Dyna gyfle ardderchog i'r 'Wir' Sosialaeth ddwyn hawliau Sosialaidd gerbron y mudiad gwleidyddol, ac i hyrddio'r melltithion traddodiadol yn erbyn y Rhyddfrydwyr, llywodraeth seneddol, cystadleuaeth fwrgeisaidd, rhyddid gwasg bwrgeisaidd, cyfraith fwrgeisaidd, a rhyddid a chydaddoldeb! Dyna'r cyfle i bregethu i'r lluoedd o'r bobl nad oedd ganddynt ddim i'w ennill, eithr llawer i'w golli, wrth y mudiad bwrgeisaidd hwn! Y pryd hynny'n union, fe anghofiodd Sosialaeth yr Almaen fod y feirniadaeth Ffrengig a{Diwedd 28} adleisiai hithau mor ddi-ysbryd, yn rhagdybio'r gymdeithas fwrgeisaidd fodern, ynghyd ag amgylchiadau materol cyfatebol a chyfansoddiad gwleidyddol cyfaddas—yr amodau'n union yr oedd yn rhaid ymladd yn yr Almaen er mwyn eu sefydlu.

I lywodraethau absoliwt yn yr Almaen, gyda'u gosgorddion o offeiriaid, ysgolfeistri, ysweiniaid, a swyddogion, fe wasanaethodd y Sosialaeth hon yn hwylus fel bwgan brain rhag y fwrgeisiaeth a oedd yn codi.

Yr oedd yn atodiad melys, hefyd, at y chipiau a'r bwledi chwerwon a ddefnyddiodd y cyfryw lywodraethau mewn ymateb i wrthryfeloedd gweithwyr yr Almaen.

A hithau'r 'Wir' Sosialaeth yn arf yn nwylo'r llywodraethau yn erbyn y bwrgeisiaid, fe gynrychiolai'n uniongyrchol hefyd ddiddordebau adweithiol, mân-fwrgeiswyr philistaidd yr Almaen. Yn yr Almaen, fe ffurfia'r dosbarth mân-fwrgeisaidd a oroesodd o'r unfed ganrif ar bymtheg, ac a adnewyddodd ei hunan mewn gwahanol ffurfiau byth wedyn, sylfaen gymdeithasol hanfodol y gyfundrefn bresennol.

Y mae achub y dosbarth hwn yn gyfystyr ac achub cyflwr presennol cymdeithas yn yr Almaen. Y mae blaenoriaeth ddiwydiannol a gwleidyddol y bwrgeisiaid yn bygwth ei ddinistri'o'n anochel, trwy ganoli cyfalaf ar y naill law, a thrwy ddatblygu proletariat chwyldroadol ar y llaw arall. Eithr ymddangosai'r 'Wir' Sosialaeth i'r dosbarth hwn fel pe bai'n lladd y ddau aderyn â'r un ergyd. Lledodd hithau fel epidemig.

Bu'r fantell afradlon y rhwymai Sosialwyr yr Almaen eu hychydig 'wirioneddau tragwyddol', esgrynog, ynndi—mantell a wewyd o rwydwaith o anturddamcanion, a frodiwyd â blodau rhethreg pert, ac a drwythwyd mewn gwllith o sentiment clafychlyd— bu hithau hefyd yn gymorth iddynt werthu eu nwyddau ymhlith y cyfryw gyhoedd.

O'i rhan ei hun, hefyd, fe gydnabyddai'r Sosialaeth Almaenaidd fwyfwy ei galwedigaeth fel cynrychiolydd bombastig philisiaid y dosbarth canol.

Cyhoeddodd mai'r genedl Almaenaidd oedd y genedl safonol, a'r philistiad o Almaenwr y gwir ddyn. I bob bychandra o'i eiddo rhoes ystyr ddirgel, aruchel, a Sosialaidd, yn gwbl groes i'r hyn ydoedd mewn gwirionedd. Fe gyrhaeddodd ei therfynau rhesymegol pan ymosododd yn uniongyrchol ar duedd 'greulon-ddinistriol' Comiwnyddiaeth, a chyhoeddi ei haruchel ddiodefalu am bob brwydr rhwng y dosbarthiadau. Gyda rhai eithriadau prin, fe berthyn y cyfan o'r llenyddiaeth a elwir yn Sosialaidd neu Gomiwnyddol sy'n cylchredeg yn yr Almaen yn awr, i'r crynswth o lenyddiaeth budr, diymadferth hwn.[\[25\]](#)

## 2. Sosialaeth Geidwadol neu Sosialaeth Fwrgeisaidd

Y mae nifer o'r bwrgeisiaid yn awyddus i unioni camweddau cymdeithasol er mwyn sicrhau einioes ddiddarfod i'r gymdeithas gyfalafol.

Ir nifer hwn y perthyn yr economyddion a'r dyngarwyr, gwellianwyr safonau'r dosbarth llafur, trefnyddion elusen, aelodau cymdeithasau er rhwystro creulondeb tuag at anifeiliaid, sylfaenwyr undebau dirwest, a diwygwyr twll-a-chornel o bob math. Ac fe ymgorfforwyd y Sosialaeth fwrgeisaidd hon hefyd mewn nifer o gyfundrefnau hollgynhwysfawr.

Fe allwn nodi fel enghraifft waith Proudhon, Philosophie de la Misère ('Athroniaeth Tlodi').

Fe ddymuna'r bwrgeisiaid Sosialaidd amodau byw y gymdeithas fodern, eithr heb y brwydrau a'r peryglon sy'n deillio'n anochel ohoni. Dymunant gadw cyflwr presennol{*Diwedd 29*} cymdeithas heb yr elfennau sy'n ei chwyldroi ac yn ei datod. Dymunant ddsbarth bwrgeisaidd heb ddsbarth proletaraidd. Fe ddeil y bwrgeisiaid, yn naturiol, mai'r byd gorau yw'r byd y maent hwy'n ei reoli; ac fe ddatblygodd y Sosialaeth fwrgeisaidd y syniad cysurus hwn, fwy neu lai, yn gyfundrefn gyfan o athroniaeth. Pan eilw ar y proletariat i weithredu ei chyfundrefn ac ymuno â'r Gaersalem Newydd, geilw arnynt yn unig, yn y gwraidd, i aros o fewn cyffiniau'r gymdeithas bresennol, eithr gan daflu o'r neilltu eu syniadau atgas am y bwrgeisiaid.

Y mae yna ail fath o Sosialaeth, llai cyfundrefnol a mwy ymarferol, sy'n ceisio bychanu gerbron y gweithwyr bob mudiad chwyldroadol, gan ddangos na eill y newidiad hwn neu'r newidiad arall mewn gwleidyddiaeth fod o unrhyw fantais iddynt, ac mai newidiadau yn nhrefniant materol bywyd yn unig a eill fod o unrhyw help iddynt. Eithr wrth newidiadau yn nhrefniant materol bywyd ni olyga'r Sosialaeth hon ar un cyfrif ddinistr y dulliau bwrgeisaidd o gynhyrchu, nas sicrheir ac eithrio mewn modd chwyldroadol, eithr gwelliannau mewn gweinyddiaeth y gellir eu datblygu ar sail y dulliau cynhyrchu presennol, gwelliannau, felly, na wnânt, ar y gorau, ond lleihau cost eu rheolaeth i'r bwrgeisiaid, a symleiddio'u trefniadau cyllidol.

Fe gyrhaedda'r Sosialaeth fwrgeisaidd ei llawn fynegiant pan dry'n ffurf o ymadrodd yn unig.

Rhyddid masnach!—er lles y dosbarth llafur; diffyndollau!—er lles y dosbarth llafur; carchardai! —er lles y dosbarth llafur; dyna eiriau olaf y Sosialaeth fwrgeisaidd, a'r unig eiriau y bwriedir ganddi iddynt gael eu cymryd o ddifrif.

Fe ellir crynhoi Sosialaeth y bwrgeisiaid i un frawddeg, sef, mai bwrgeisiaid ydyw'r bwrgeisiaid—er lles y dosbarth llafur.

### 3. Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth Utopaidd-feirniadol

Ni soniwn yma am y llenyddiaeth a fu ym mhob chwyldro mawr diweddar yn mynegi gofynion y proletariat. (Gweithiau Babeuf etc). [\[26\]](#)

Bu i ymdrechion y proletariat i sicrhau'n uniongyrchol fuddiannau eu dosbarth eu hunain, ymddangos am y tro cyntaf mewn oes o gyffro cyffredinol yng nghyfnod dinistr y gymdeithas ffiwdal. Fe fethodd yr ymdrechion hyn, o anghenraid, oherwydd cyflwr annatblygedig y proletariat ei hunan, ac oherwydd prinder cymwysterau materol ei ymryddhad, cymwysterau sydd bellach yn un o gynhyrchion y cyfnod bwrgeisaidd. Yr oedd y llenyddiaeth chwyldroadol a gyd-ddigwyddai â'r mudiadau cyntaf hyn o eiddo'r proletariat, o anghenraid, yn llenyddiaeth adweithiol ei chynnwys. Pregethai wrthhunanles (asceticism) cyffredinol a chydraddoldeb cymdeithasol amrwd iawn.

Fe ymddangosodd y cyfundrefnau gwir Sosialaidd a Chomiwnyddol, megis cyfundrefnau Saint-Simon, Fourier, Owen etc., yn ystold cyfnod annatblygedig y frwydr rhwng y proletariat a'r bwrgeisiaid a ddisgrifiwyd gennym uchod. (Gweler Rhan I. 'Y Bwrgeisiaid a'r Proletariat').[\[27\]](#)

Fe wêl sylfaenwyr y cyfundrefnau hyn, yn wir, wrthdrawiad y dosbarthiadau, yn ogystal â gwaith



yr elfennau datodol y tu mewn i'r gymdeithas bresennol ei hunan. Eithr ni welant ymhlith y proletariaid unrhyw weithrediad o bwys hanesyddol, nac unrhyw fudiad gwleidyddol priodol iddynt eu hunain.

Oherwydd bod datblygiad gwrthdrawiadau dosbarth yn dilyn gam a cham â datblygiad{*Diwedd 30*} diwydiant, ymddengys iddynt hwy fod amgylchiadau materol ymrhyddhad y proletariat yn brin odiaeth, a cheisiant, felly, wyddor gymdeithasol a rheolau cymdeithasol a eill greu'r amgylchiadau hyn.

Rhaid i'w gweithred bersonol ddyfeisgar eu hunain gymryd lle gweithred cymdeithas, rhaid i amodau lledrithiol ymrhyddhad ddisodli amodau hanes, a rhaid i drefniant cymdeithas yn ôl ei mympwy eu hun gymryd lle trefniant graddol y proletariat fel dosbarth. Iddynt hwy, hanes y byd yn y dyfodol ydyw hanes lledaenu propaganda a gweithredu yn ôl eu cynlluniau cymdeithasol hwy.

Yn eu cynlluniau, yn wir, y maent yn ymwybodol eu bod yn cynrychioli buddiannau'r dosbarth mwyaf hir-ymarhous, sef, y dosbarth llafur. Unig arwyddocâd y proletariat iddynt hwy, felly, yw mai ef ydyw'r dosbarth mwyaf hirymarhous.

Y mae ffurf annatblygedig y frwydr dosbarth, yn ogystal ag amgylchiadau eu bywyd beunyddiol eu hunain, yn peri i'r Sosialwyr hyn gredu iddynt godi ymhell uwchlaw brwydr o'r fath. Dymunant wella safon byw pob aelod o gymdeithas, hyd yn oed safon y mwyaf cefnog. Fe apeliant o hyd, felly, at gymdeithas yn gyffredinol ac at bob dosbarth yn ddiwahân—yn wir, apeliant yn bennaf at y dosbarth llywodraethol. Oblegid ni raid i neb ond deall eu cyfundrefn hwy i gydnabod mai hi yw'r drefn orau oll ar y gymdeithas orau sy'n bosibl.

Ymwrthodant â phob gwaith gwleidyddol, sef, gwaith chwyldroadol. Fe fynnant gyrraedd eu hamcanion mewn modd heddychol, a cheisiant, felly, baratoi'r ffordd i'r efengyl gymdeithasol newydd trwy gyfrwng esiampl, a thrwy gyfrwng mân arbrofion na allant, o anghenraid, lai na methu.

Fe dyfodd y portread ffansiol hwn o gymdeithas y dyfodol ar adeg pan oedd y proletariat eto'n ddosbarth pur annatblygedig, ac yn coleddu, o ganlyniad, syniadau lledrithiol am ei safle ei hunan, eithr yn gweld hefyd argoelion cyntaf trawsffurfiad cyffredinol cymdeithas.

Eto i gyd, fe gynnwys y lenyddiaeth Sosialaidd a Chomiwnyddol hon elfen feirniadol hefyd. Ymosododd ar sylfeini'r gymdeithas bresennol yn gyfangwbl. Ceir ynddynt, felly, fater sydd o'r gwerth mwyaf i oleuo'r gweithiwr. Am eu cynigion adeiladol ar gyfer cymdeithas y dyfodol, megis dileu'r gwrthddywediad rhwng gwlad a thref, dileu'r teulu, elw preifat, a chyfundrefn gyflogaeth, cyhoeddi cytgorde cymdeithasol, a thro'i'r wladwriaeth yn oruchwyliwr y proses cynhyrchu yn unig—ni olyga'r rhain oll ddim namyn diflaniad gwrthdrawiadau dosbarth, gwrthdrawiadau a oedd yn dechrau datblygu ar y pryd ac a adwaenid yn eu ffurfiau annelwig cyntaf yn unig. Eithr y mae hyd yn oed i'r cynigion hyn hefyd, felly, ansawdd gwbl utopaidd.

Fe saif arwyddocâd y Sosialaeth a'r Gomiwnyddiaeth utopaidd-feirniadol mewn gwrthgyfartaledd uniongyrchol â datblygiad hanes. I'r graddau yr ymgyfyd ac y datblyga'r frwydr dosbarth, fe gyll y difrawdwr ffantastig hwn ynglŷn â hwy, yn ogystal â'r ymysodiadau mympwyol hyn arnynt, bob gwerth ymarferol a phob cyflawnhad damcaniaethol. Er bod sylfaenwyr y cyfundrefnau hyn, felly, yn chwyldroadwyr mewn llawer modd, fe ffurfiodd eu disgyblion sectau adweithiol bob tro. Daliant yn gyndyn at ddaliadau gwreiddiol y tadau, er gwaethaf datblygiad hanesyddol y proletariat. Fe geisiant yn wastad, felly, leddfyr frwydr dosbarth a chymodi ei gwrthddywediadau. Breuddwydiant o hyd am sylweddoli eu utopia gymdeithasol trwy arbrawf, trwy sefydlu Phalanstères{*Diwedd 31*} diarffordd, sefydlu Home Colonies neu sefydlu rhyw Icaria fechan—argraffiadau talfyredig o'r Gaersalem Newydd. [28] Ac er mwyn adeiladu'r cestyll hyn yn yr awyr y mae'n rhaid iddynt apelio at ddyngarwch calon a phoced y bwrgeisiaid. Syrthiant gan bwyll i'r dosbarth hwnnw o Sosialwyr

adweithiol neu geidwadol a ddisgrifiwyd uchod, gan eu gwahaniaethu eu hunain oddi wrthynt yn unig yn rhinwedd eu coeg-ddysgeidiaeth fwy cyfundrefnus, a'u cred ddall, ofergoelus, yn effiethiau gwyrthiol eu gwyddor gymdeithasol.

Fe wrthwynebant yn chwerw, felly, bob mudiad gwleidyddol ar ran y gweithwyr, na eill ddigwydd ac eithrio ar sail anghred noeth yn yr efengyl newydd.

Fe wrthwyneba dilynwyr Owen y Siartiaid yn Lloegr, a hwythau ddilynwyr Fourier y Reformistes yn Ffrainc. [\[29\]](#){*Diwedd 32*}

## IV

### SAFLE'R COMIWNYDDION YMHLITH Y GWRTHBLEIDIAU ERAILL

#### [\[30\]](#)

Wedi darllen Rhan II fe ddeallir perthynas y Comiwnyddion â'r pleidiau llafur sydd eisoes yn bod, a'u perthynas, felly, â'r Siartiaid yn Lloegr, a'r Diwygwyr Amaethyddol yn America. [\[31\]](#)

Ymladdant i sicrhau amcanion ac anghenion uniongyrchol a phresennol y dosbarth llafur, eithr cynrychiolant yn y mudiad presennol ei fuddiannau am y dyfodol hefyd. Yn Ffrainc, fe ymuna'r Comiwnyddion â'r Blaid Ddemocrataidd-Sosialaidd yn erbyn y bwrgeisiaid radicalaidd a cheidwadol, eithr heb roddi heibio'r hawl i feirnadu'r ymadroddion a'r syniadau lledrithiol a fagodd traddodiad y Chwyldro. [\[32\]](#)

Yn y Swistir fe gynorthwya'r Comiwnyddion y Radicaliaid, eithr gan gofio fod y blaid hon yn cynnwys elfennau gwrthgyferbyniol, y naill ran ohoni'n cynnwys Democratiaid-Sosialaidd yn yr ystyr Ffrengig, a'r rhan arall yn cynnwys radicaliaid bwrgeisaidd.

Yng Ngwlad Pwyl fe gynorthwya'r Comiwnyddion y blaid a wêl mewn chwyldro amaethyddol brif amod ymryddhâd cenedlaethol, sef, y blaid a anogodd wrthryfel Cracoff yn 1846. [\[33\]](#)

Yn yr Almaen fe ymladda'r Blaid Gomiwnyddol ochr yn ochr â'r bwrgeisiaid, pryd bynnag y gweithreda'r bwrgeisiaid mewn modd chwyldroadol, ac yn erbyn y frenhiniaeth absoliwt, y tiffeddianwyr ffiwdal, a'r mân-fwrgeiswyr.

Eithr ni fethant am un eiliad feithrin yn y gweithwyr y gydnabyddiaeth egluraf bosibl o'r elyniaeth rhwng y bwrgeisiaid a'r proletariat, er mwyn i weithwyr yr Almaen fedru, ar unwaith, droi'r amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol y mae'n rhaid i'r bwrgeisiaid eu creu yn ystod eu rheolaeth, yn gynifer o arfau yn erbyn y bwrgeisiaid, ac er mwyn i'r frwydr yn erbyn y bwrgeisiaid eu hunain gychwyn yn union wedi cwmp y dosbarthiadau adweithiol yn yr Almaen.

Try'r Comiwnyddion eu sylw at yr Almaen yn bennaf am fod yr Almaen yn sefyll ar drothwy chwyldro bwrgeisaidd, chwyldro a gyflawnir o dan yr amgylchiadau llawer mwy blaengar a berthyn i'r gwareiddiad Ewropeaidd yn gyffredinol heddiw, a chyda phroletariat sy'n llawer mwy datblygedig nag eiddo Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg, a Ffrainc yn y ddeunawfed; ac am y geill chwyldro bwrgeisaidd yn yr Almaen, felly, fod yn ddim ond rhagflaenydd uniongyrchol chwyldro proletaraidd.

Mewn gair, fe gynorthwya'r Comiwnyddion ym mhobman bob symudiad chwyldroadol yn erbyn y drefn gymdeithasol a gwleidyddol bresennol.

Ym mhob un o'r mudiadau hyn fe bwysleisiant, ni waeth i ba raddau y datblygodd, gwestiwn perchnogaeth eiddo megis prif gwestiwn y mudiad.

Yn olaf, fe weithia'r Comiwnyddion ym mhobman er mwyn unoliaeth a chydddealltwriaeth y pleidiau democrataidd ym mhob gwlad.

Y mae'n ffiائد gan y Comiwnyddion gelu eu credo a'u hamcanion. Cyhoeddant yn agored na chyrhaeddir eu hamcanion oni ddymchwelir trwy rym y gyfundrefn gymdeithasol fel y bu yn gyfangwbl hyd yn hyn. Brawyched y dosbarthiadau llywodraethol rhag chwyldro Comiwnyddol. Nid oes gan y proletariaid ddim ond eu cadwynau i'w golli o'i blegid. Y mae ganddynt fyd i'w ennill.

Proletariaid pob gwlad, ymunwch!{Diwedd 33}

# Nodiadau

1. Llythyr gan Karl Marx at Frederick Engels, Mehefin 20, 1866.
2. Frederick Engels, 'Revolution and Counter-Revolution in Germany', rhan XIV, New-York Daily Tribune, Ebrill 24, 1852
3. Frederick Engels, 'What Have the Working Classes to Do with Poland?', rhan II, The Commonwealth, Mawrth 31, 1866.
4. Frederick Engels, 'A Critique of the Draft Programme of 1891', Le Socialiste, Medi 12, 1891.
5. Clemens Metternich-Winneburg (1773-1859), canghellor a gwladweinydd amlwg ymerodraeth Awstria ('twyllwr llwfr a llofrudd' yn ôl Engels); Francois Guizot (1787-1874), gwleidydd bwrgeisaidd amlwg yn cyfarwyddo polisiau Ffrainc.
6. 'Golyga bwrgeisiaid y dosbarth o Gyfalafwyr cyfoes, perchnogion y modd o gynhyrchu cymdeithasol a chyflogwyr llafur cyflogedig. Golyga proletariat, y dosbarth o weithwyr cyflog y rheini, heb y modd i gynhyrchu eu hunain, nad oes ganddynt ddewis ond gwerthu eu llafur er mwyn byw'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Saesneg 1888]
7. 'Hynny yw, a bod yn gywir, hanes ysgrifenedig traddodiadol. Yn 1847 yr oedd cyn-hanes cymdeithas, a'r drefn gymdeithasol a ragflaenodd bob hanes ysgrifenedig, bron yn anadnabyddus. Wedi hynny, darganfu Haxthausen gyd-feddiant tir yn Rwsia, dangosodd Maurer mai ar y sylfaen gymdeithasol hon y cychwynodd pob un o'r llwythau Almaenaidd ar eu gyrfa hanesyddol, a darganfuwyd yn raddol mai cymdeithasau pentrefol a seiliwyd ar gyd-feddiant tir oedd y ffurf gyntefig ar gymdeithas o India i Iwerddon. Yn y diwedd datguddiwyd yn ei ffurf fwyaf nodweddiadol drefniant mewnol y gymdeithas gomiwnyddol gyntefig hon gan Forgan yn ei ben-darganfyddiad o wir ansawdd y genedl â'i pherthynas â'r llwyth. Gydag ymddatodiad y cymdeithasau cyntefig hyn dechreuodd cymdeithas hollti'n wahanol ddsbarthiadau ac, yn y pen draw, yn ddsbarthiadau anghymodlon. Ceisiais ail-ddilyn y diddymiad hwn yn The Origin of the Family, Private Property, and the State, ail-argraffiad, Stuttgart, 1886'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Saesneg 1888]
8. Gild feistr, hynny yw, aelod cyflawn o gild, a meistr o fewn, ond heb fod yn bennaeth gild. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Saesneg 1888].
9. Yn argraffiadau Almaeneg 1848, 1872, 1883 a 1890 defnyddir Gesellen sef journeymen (a gyfieithwyd gan WJ Rees fel 'dyddweithwyr'; ond journeymen a geir yn argraffiad Saesneg 1888). Mae argraffiad Saesneg 1888 hefyd yn cynnwys 'prentisiaid' [apprentices].

<sup>10</sup>. Mae'r argraffiadau Almaeneg yn defnyddio Mittelstat (middle estate) a gyfieithwyd gan WJ Rees fel 'dosbarth canol diwydiannol'; dra bod argraffiad Saesneg 1888, hefyd wedi ei gymeradwyo gan Engels, yn defnyddio 'the manufacturing middle class'.

<sup>11</sup>. Y Commune—'Felly y galwodd dinaswyr Ffrainc a'r Eidal eu gwerin-lywodraethau dinesig wedi iddynt am y tro cyntaf brynu hawliau ymreolaeth oddi wrth yr arglwyddi ffiwdal neu ynteu wedi iddynt eu cipio oddi arnynt'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Almaeneg 1890] Yn argraffiad Saesneg 1888 rhoes Engels ar ôl y geiriau 'dinaswladwriaeth annibynnol' y geiriau: '(megis yn yr Eidal a'r Almaen)'; ac ar ôl y geiriau 'trydedd ystad drethadwy dan y frenhiniaeth' y geiriau: '(megis yn Frainc)'. Yn argraffiad Saesneg 1888, ychwanegwyd 'medieval' o flaen 'Commune'.

<sup>12</sup>. Yn argraffiad Saesneg 1888, cyfeiriwyd at 'yr Adwaith' fel 'the Reactionists'—ysgol o feddwl, a'i gwreiddiau yn Ffrainc, a gredai fod Goleuadaeth y ddeunawfed ganrif, secwlariaeth, democratiaeth a'r Chwyldro Ffrengig wedi dileu gwareiddiad Ewropeaidd yr Eglwys Gatholig.

<sup>13</sup>. Defnyddiodd WJ Rees 'pob Clawdd Offa' yn lle 'pob mur Tseiniaidd'.

<sup>14</sup>. Er bod argraffiad Almaeneg 1890 yn atgynhyrchu defnydd 1848 o llafur, yn ddiweddarach, tra'n datblygu ei ddamcaniaeth am elw, darganfu Marx fod y gweithiwr yn gwerthu nerth ei (l)lafur—y gallu i weithio—yn hytrach na'r gwaith, neu lafur, fel y cyfryw, yn gyfnewid am dâl.

<sup>15</sup>. Nid yw argraffiad Saesneg 1888 yn cyfeirio at 'blant'

<sup>16</sup>. Roedd Cyfraith Ddeg Awr 1847 yn cyfyngu hyd dydd o waith, ac fe'i cefnogwyd gan rai perchnogion tir Torïaidd oedd am ddial ar ddiwydianwyr am ddiddymu'r Deddfau Yd y flwyddyn cynt (a ganiataodd fewnforio yd rhad er mwyn lleihau'r galw am gyflogau uwch mewn diwydiant). Maniffesto'r Blaid Gomiwnyddol tudalen 35

<sup>17</sup>. Yn ei Ragymadrodd i argraffiad Almaeneg 1872, sgrifennodd Engels 'na roddwyd unrhyw bwyslais arbennig ar y mesurau a argymhellir ar ddiwedd Adran II. Byddai'r darn yna wedi ei eirio'n wahanol iawn heddiw. Yn wyneb camre enfawr Diwydiant Fodern dros y chwarter canrif ddiwethaf, a gwelliant ac ymestyniad yn nhrefniadaeth gwleidyddol y dosbarth gweithiol yr un pryd, yn wyneb y profiad ymarferol a enillwyd yn y Chwyldro Ffrengig, ac yn fwy fyth yn Commune Paris [1871], lle, am y tro cyntaf, y daliodd y proletariat rym gwleidyddol am ddeufis cyfan, mae'r rhaglen hon mewn rhai manylion wedi'i dyddio. Profwyd un peth gan y Commune, sef "na all y dosbarth gweithiol gydio mewn peiriant Gwladwriaethol parod, a'i ddefnyddio i'w ddibenion ei hun". Yma, roedd Engels yn dyfynnu o Karl Marx, *The Civil War in France. Address of the General Council of the International Working Men's Association* (1871).

<sup>18</sup>. Anelir y cymal hwn at gyfoethogion sydd wedi ffoi rhag y chwyldro.

^19. Dymchwelwyd y frenhiniaeth yn Chwyldro Ffrengig, Gorffennaf 1830, a throsglwyddwyd y grym i ddwylo'r bwrgeisiaid dinesig a'r deallusion; estynnodd Deddf Ddiwygio 1832 ym Mhrydain y bleidlais i berchnogion eiddo gwrywaidd yn y bwrdeisdrefi a chynhyddwyd cynrychiolaeth seneddol, a thrwy hynny cryfhwyd safle wleidyddol y bwrgeisiaid diwydiannol.

^20. 'Nid Adferiad Seisnig 1660 i 1689, ond yr Adferiad Ffrengig 1814 i 1830' [Nodyn gan Engels yn argraffiad Saesneg 1888]. Mae Marx ac Engels yma'n cyfeirio at yr ymgyrchoedd blaenorol a rhannol yn unig i adfer grym gwleidyddol i'r pendefigion tir-feddiannol a'r frenhiniaeth.

^21. Ceisiodd y Légitimistes Ffrengig adfer y frenhiniaeth Bourbon wedi Chwyldro 1830, a thrwy hynny ddychwelyd grym gwleidyddol i'r perchnogion tir mawr, gan honni cydymdeimlad gyda'r dosbarth gweithiol yn y frwydr yn erbyn cyflogwyr cyfalafol. Honnai y mudiad Young England, a ffurfiwyd gan Disraeli ag eraill, sefyll dros 'un genedl' gan amddiffyn y dosbarth gweithiol diwydiannol a'r tlawd. Mewn gwirionedd, roedd y mudiad byrhoedlog hwn yn wrth-ddiwydiant, o blaid y gwledig, hyd yn oed o blaid ffiwdaliaeth.

^22. 'Mae hwn yn bennaf berthnasol i'r Almaen, lle mae gan y bendefigaeth dirfeddiannol a'r sgweiryddiaeth ystadau mawr o dir a amaethir gan stiwardiaid er eu budd eu hunain, ag sydd, ar ben hynny, yn gynhyrchwyr betys-siwgwr a distyllwyr gwirodydd tatws [sef Schnaps]. Mae'r pendefigion Prydeinig cyfoethocaf, mor belled, uwchlaw hynny, ond gwyddant sut i ychwanegu at renti sy'n lleihau drwy roi eu henwau i gychwynwyr cwmniau mwy neu lai amheus'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Saesneg 1888.]

^23. Jean Charles Sismondi (1773-1842), economegydd o'r Swisdir, dehonglwr rhamantiaeth economaidd

^24. Mae 'Rheswm Ymarferol' yn gyfeiriad at Critique of Practical Reason (1788) Immanuel Kant a gyhoeddwyd ychydig cyn y Chwyldro Ffrengig.

^25. 'Fe ysgubodd Chwyldro 1848 yr holl dueddiadau anhyfryd hyn i ffwrdd, a cholodd eu cefnogwyr bob ymddiried pellach mewn Sosialaeth. Prif gynrychiolydd y datblygiad hwn, a'i deip clasurol, ydyw Karl Grun'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Almaeneg 1890]

^26. Francois Babeuf (1760-1797), chwyldroadwr Ffrengig, lladmerydd comiwnyddiaeth cydraddol utopaidd, trefnydd 'cynllwyn y cydradd'

^27. Claude Saint-Simon (1760-1825), sosialydd Ffrengig utopaidd; François Charles Fourier (1772-1837), sosialydd Ffrengig utopaidd a argymhellai gytgord a chyd-weithrediad rhwng y dosbarthiadau i greu cyfundrefn gymdeithasol newydd; Robert Owen (1771-1858), meddyliwr comiwnyddol Cymreig a anwyd yn y Drenewydd a diwydiannwr a sefydlodd nifer o gymunedau

cydweithredol.

^28. 'Trefedigaethau Cartref a alwai Owen ei fodel-gymdeithasau Comiwnyddol. Phalanstères oedd yr enw ar y palasau cymdeithasol a gynlluniwyd gan Fourier. Icaria oedd enw'r wlad ddychmygol utopaidd a ddarluniodd [Etienne] Cabet a lle gosododd ei sefydliadau Comiwnyddol'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Almaeneg 1890]

^29. Y mudiad o blaid Siartr Cyntaf y Bobl ym Mhrydain a lansiwyd ym 1838, a hawliai ddiwygio'r senedd gan gynnwys rhoi'r bleidlais i'r gweithwyr. Roedd arweinyddion asgell chith y mudiad mewn cysylltiad agos â Marx ac Engels, ac ymunodd rhai â'r Cyngrair Comiwnyddol. Y 'Reformistes' oedd y Democratiaid Ffrengig Gweriniaethol a'r sosialwyr mân-fwrgeisaidd a alwai tudalen 36 Marx ac Engels eu hunain yn ddemocratiaid-sosialaidd; yr enw y gelwir hwy yn adran nesaf y Maniffesto.

^30. 'Y mae'n eglur ddigon fod y sylwadau am berthynas y Comiwnyddion a'r gwahanol gwrthbleidiau (Adran IV), er mwyn egwyddor yn parhau'n gywir, yn ymarferol wedi'u dyddio, gan fod y sefyllfa wleidyddol wedi newid yn llwyr, a bod hanes wedi sgubo oddi ar wyneb y ddaear y mwyafrif o'r pleidiau a restrir yma'. [O Ragarweiniad Marx ac Engels i argraffiad Almaeneg 1872.]

^31. Ymgyrchodd Cymdeithas Ddiwygio Genedlaethol UDA am raglen eang o hawliau er lles y dosbarth gweithiol, gan gynnwys dyrannu darnau o dir am ddim i bawb.

^32. 'Cynrychiolid yr hyn a elwid y pryd hynny'n Blaid Ddemocratiaidd-Sosialaidd gan Ledru-Rollin mewn gwleidyddiaeth a chan Louis Blanc mewn llenyddiaeth; yr oedd byd o wahaniaeth rhyngddi, felly, a Democratiaeth Sosialaidd yn yr Almaen heddiw'. [Nodyn gan Engels yn argraffiad Almaeneg 1890]

^33. Yn Chwefror 1846, cymerodd democratiaid chwyldroadol a'u cynghreiriaid reolaeth o Cracoff a chyhoeddi llywodraeth genedlaethol gweriniaeth Gwlad Pwyl, gan wrthwynebu rhaniad y wlad a'i meddiannu gan Rwsia, Awstria a Phwrsia. Mathrwyd y gwrthsafiad.



# TERMAU ALLWEDDOL

## ^ **Marcsiaeth: Marxism**

Damcaniaethau gwleidyddol ac economaidd Karl Marx a Friedrich Engels. Delir fod gweithredoedd dynion a sefydliadau yn cael eu pennu gan economeg, bod rhyfel dosbarth yn angenrheidiol i greu newid hanesyddol ac y bydd comiwnyddiaeth yn disodli cyfalafiaeth yn y pen draw. Y mae damcaniaethau Marcsaidd wedi'u datblygu a'u haddasu gan lawer o'u dilynwyr ac wedi dylanwadu ar ideolegau gwleidyddol a syniadaethau cymdeithasol niferus.

## ^ **materol: material**

Pwyslais ar ddylanwad eiddo a chyfoeth materol ar draul materion moesol ac ysbrydol wrth ddehongli hanes.

## ^ **dosbarth (cymdeithasol): class (social)**

Grŵp o bobl sy'n rhannu'r un cefndir cymdeithasol, economaidd neu addysgiadol. Mae trafodaeth barhaus o fewn meysydd theori gwleidyddiaeth a gwyddorau cymdeithasol am beth yn union sy'n diffinio dosbarth. Yn ôl Marx y mae sefyllfa dosbarth personau yn dibynnu ar eu cysylltiad â'r moddion cynhyrchu (means of production).

Mewn cymdeithas ddatblygedig gyfoes mae llawer o amwysedd dosbarth ac mae'n gyffredin i bobl fod ag ymdeimlad o berthyn i endid economaidd-gymdeithasol penodol, er eu bod o ran eu sefyllfa economaidd yn perthyn i ddosbarth arall mewn gwirionedd.

## ^ **dosbarth gweithiol/proletariat: working class/proletariat**

Grŵp cymdeithasol nad yw'n berchen ar y moddion cynhyrchu (h.y. y cynnyrch y maent yn ei greu yn y gweithle) ac sy'n gwerthu eu gallu i weithio am gyflog. Defnyddir y term proletariat mewn damcaniaethau Marcsaidd.

## ^ **bourgeois: bourgeois**

Yng nhyd-destun damcaniaethau Marcsaidd, y dosbarth cymdeithasol sy'n berchen ar y moddion cynhyrchu.

## ^ **cyfalafiaeth: capitalism**

System economaidd sydd wedi'i seilio ar y ffaith mai eiddo preifat yw'r moddion cynhyrchu ac mae'r

amcan yw gwneud elw.

## ^ \_ **ideoleg: ideology**

Gwraidd syniadol unrhyw ddamcaniaeth neu gyfundrefn economaidd neu wleidyddol. Yn ôl Marx y mae ideoleg yn adlewyrchu trefniadau economaidd y gymdeithas e.e. y syniadau llywodraethol yw syniadau'r dosbarth llywodraethol sydd yn rheoli'r gyfundrefn economaidd

## ^ \_ **ymddieithriad (damcaniaeth Farcsaidd): alienation**

Damcaniaeth Farcsaidd am gyflwr y gweithiwr yn y drefn economaidd gyfalafol gan nad yw cynnyrch ei lafur yn eiddo iddo ef, na'r moddion cynhyrchu na'r oriau gwaith o dan ei reolaeth, a'r synnwyr o gael ei reoli a'i ecsbloetio. (Entfremdung)

## ^ \_ **sosialaeth: socialism**

Damcaniaeth wleidyddol a system economaidd wedi'i seilio ar berchnogaeth moddion cynhyrchu gan y wladwriaeth neu'r gymdeithas, er lles pawb yn y gymdeithas.

## ^ \_ **y farchnad: the market**

Isadeiledd o fewn yr economi ble caiff nwyddau, gwasanaethau a gwybodaeth eu cyfnewid gan brynwyr a gwerthwyr.

## ^ \_ **nwydd (die Ware): commodity**

Yn y cyd-destun economaidd, y peth i'w brynu neu ei werthu. Ceir dwy ffordd o fesur gwerth nwydd yn draddodiadol: y safbwynt goddrychol (h.y. faint y mae defnyddiwr yn fodlon ei dalu amdano) a'r safbwynt gwrthrychol, sy'n cysylltu gwerth nwydd â'r ymdrech i'w gynhyrchu. Datblygodd Karl Marx y safbwynt gwrthrychol ymhellach gan feirniadu'r dull cynhyrchu cyfalafol.

## ^ \_ **comiwnyddiaeth: communism**

Mudiad sosialaidd chwyldroadol sy'n dadlau dros gymdeithas ddi-ddosbarth ble nad oes perchnogaeth breifat a ble mae'r moddion cynhyrchu a chynhaliaeth yn perthyn i gymuned ddi-wladwriaeth. Hefyd, ideoleg gymdeithasol, economaidd neu wleidyddol sy'n ceisio sefydlu cymdeithas o'r fath. Cafodd y mudiad ddylanwad mawr ar hanes yr 20fed ganrif, gyda thyndra rhwng y "byd sosialaidd" (dan reolaeth y Blaid Gomiwnyddol) a'r "byd Gorllewinol" (cyfalafol).

## **^ moddion cynhyrchu: mode of production**

Almaeneg: Produktionsweise. Syniad canolog mewn damcaniaeth Farxaidd a materoliaeth hanesyddol. Cyfuniad penodol sy'n cynnwys: - grymoedd cynhyrchu: er enghraifft llafur gweithiwr a'r wybodaeth sydd ar gael am y dechnoleg sy'n ei angen i greu'r nwydd (e.e arfau, offer, adeiladau, deunyddiau) - perthnasau cymdeithasol a thechnegol cynhyrchu, sef y strwythur cymdeithasol angenrheidiol i unigolyn allu goroesi a gweithio.

# Y MANIFFESTO COMIWNYDDOL

FRIEDRICH ENGELS  
KARL MARX



Coleg  
Cymraeg  
Cenedlaethol

CYFRES DDIGIDOL